# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 6 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 7 - Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol 2013-14 o Gyngor Gwynedd | 12 |
| 8 - Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol 2013-14 o Gronfa Bensiwn Gwynedd | 28 |
| 9 - Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau | 42 |
| 10 - Cynnyrch yr Adain Archwilio Mewnol | 54 |
| 11 - Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2013-14 | 90 |
| 12 - Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu | 108 |
| 13 - Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor | 114 |
| Adran 4 - Y Cyngor | 121 |
| Adran 5 - Y Cabinet | 141 |
| Adran 7 - Pwyllgorau Craffu | 147 |
| Adran 15 - Rheolau Cyllideb a Pholisi | 167 |
| Adran 19 - Protocol i Gynghorwyr | 172 |
| Adran 21 - Protocol Aelod-Swyddog | 179 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30am DYDD MAWRTH, 6 MAI 2014**

**10.30am TUESDAY, 6 MAY 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENCADLYS,**
**CAERNARFON**

**** Nodwch y lleoliad ogydd / Please note venue ****

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**01286 679020**

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 29-04-14

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AUDIT COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Charles W Jones | Dafydd Meurig |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen | Gethin G. Williams |

**Annibynnol/Independent (5)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trevor Edwards    Tom Ellis    John Brynmor Hughes
Angela Russell    John Pughe Roberts

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Anwen Davies    Aeron M. Jones    R.J. Wright

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Council Chairman
Is-Gadeirydd y Cyngor / Vice-Chairman of the Council

## RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2014/15

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2014/15

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2014, fel rhai cywir.
(copi yma- papur **melyn**)

**7. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2013/14 O GYNGOR GWYNEDD**

Cyflwyno adroddiad yr archwiliwr allanol (copi yma – papur **glas**)

**8. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2013/14 O GRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Cyflwyno adroddiad yr archwiliwr allanol (copi yma – papur **eog**)

**9. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Panel ar 4 Ebrill 2014 (copi yma – papur **gwyrdd**)

**10. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Chwefror a 31 Mawrth 2014 (copi yma – papur **pinc**)

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2013/14**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg
(copi yma – papur **llwyd**)

**12. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg (copi yma – papur **gwyn**)

**13. ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur **eog**)

# PWYLLGOR ARCHWILIO, 20.02.14

**Yn bresennol**:- Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:-** Anwen Davies, Edward Dogan, John B.Hughes, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Angela Russell, R.J.Wright a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Aelod Lleyg:-** Mr John Pollard.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E.Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Alan Hughes (Arweinydd Tîm – Archwiliad Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Aled Evans, Charles W.Jones a Dilwyn Morgan.

Nododd aelod, yn sgil gwaharddiad y Cynghorydd Aeron M.Jones hyd 21 Ebrill, fod Grŵp Llais Gwynedd wedi penodi aelod dros dro i'r sedd wag ar y pwyllgor, ond na allai'r aelod hwnnw fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2013 fel rhai cywir.

**3. CYLLIDEB 2014/15 A STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18**

Cyflwynwyd –

(a) adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn cyflwyno'r gyllideb y bwriada'r Cabinet ei hargymell i'r Cyngor ac yn gofyn i'r Pwyllgor Archwilio graffu'r wybodaeth o ran ei phriodoldeb ariannol.

(b) taflen benderfyniad drafft Cabinet 18 Chwefror ar y Strategaeth Ariannol.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau. Tanlinellodd yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor gan nodi, yn hanesyddol, ac yn unol ag ymarfer gorau, bod y Cyngor hwn wedi sefydlu ei gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolog er mwyn sicrhau bod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. 'Roedd hyn wedi talu ar ei ganfed gan fod modd cynllunio unrhyw arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, gyda mewnbwn llawn yr holl aelodau, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog sydd yn aml yn arwain at y penderfyniadau anghywir o ran y buddion i'r dinesydd.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y prif risgiau ariannol y tu fewn i gyllideb 2014/15 gan nodi ei fod yn ystyried bod y risgiau hynny'n rhesymol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Gan gyfeirio at fid rhif GCTH1 - Pryniant System Rheoli Gofal Cymunedol Newydd - Dilyniant i Raise (Atodiad 1 i'r adroddiad), cwestiynwyd yr angen am y 3 swyddog cefnogaeth mewnosod. Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y Tîm Rheoli wedi herio'r bidiau yn ofalus. 'Roedd y rhain yn swyddi dros dro yn unig ac 'roedd yna risg sylweddol o ran gofal yr henoed, ayb, o beidio gwneud y penodiadau hyn. 'Roedd y system bresennol yn diflannu flwyddyn nesaf, ac 'roedd yn ofynnol cyflogi pobl i sicrhau bod y system newydd yn cael ei mewnosod yn iawn. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid, o safbwynt y risgiau, bod gweithrediad arbedion eraill o fewn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddibynnol ar gael y system newydd yn ei lle ac yn gweithio'n iawn.
- Nodwyd bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau caled, yn enwedig yn y meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a bod rhaid cadw llygaid barcud ar hynny.
- Mynegwyd y farn bod y defnydd o'r £382,000 i gyfarch anghenion unwaith ac am byth yn briodol yn yr amgylchiadau sydd ohoni.
- Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai gweithredu'r argymhelliad i gynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf yn arwain at golli swyddi o fewn y Cyngor. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r ychwanegiad yn cael ei ariannu drwy'r Dreth Gyngor ac na fyddai neb yn colli gwaith oherwydd y polisi yma.

Gofynnodd y Cynghorydd Anwen Davies i'r swyddogion gyfleu ei diolch yn bersonol i staff y Cyngor fu'n clirio'r ffyrdd ac yn delio gyda'r llifogydd ym Mhen Llyn yn ddiweddar.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn paratoi'r Strategaeth Ariannol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn bod y Strategaeth Ariannol yn cyfarch y risgiau perthnasol ac yn rhoddi sylw priodol i'r risgiau a wynebir tros y cyfnod pedair blynedd i ddod.**

**(b) Anfon neges ymlaen i'r Cyngor llawn bod y pwyllgor hwn o'r farn bod y defnydd o'r £382,000 i gyfarch anghenion unwaith ac am byth yn briodol yn yr amgylchiadau sydd ohoni.**

## 4. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2014/15

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor argymell i'r Cyngor ar 6 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2014/15, y Dangosyddion Darbodus, y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.

Gosododd y Pennaeth Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd y Rheolwr Buddsoddi ar gynnwys yr adroddiad.

Nodwyd gyda diolch y cyfle i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r swyddogion ac i ymgynghorydd arbenigol o gwmni Arlingclose mewn cyfarfod anffurfiol ar 30 Ionawr, 2014.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2014 fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2014/15 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad C), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad D) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

## 5. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2014 i ystyried gwariant refeniw yn y maes Gwastraff, dogfen ymgynghorol yr Archwilydd Cyffredinol ar Gôd Ymarfer Archwilio a Datganiad Ymarfer a phedwar archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Hydref 2013, sef:-

a) Y Drefn Gwynion Gorfforaethol
b) Porthladdoedd
c) Taliadau Uniongyrchol
ch) Tocynnau Teithio Rhad – Taliadau i gwmnïau bysiau

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y gweithgor bod y materion a amlygwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

O safbwynt yr angen i reoli gwariant yn y maes gwastraff, awgrymwyd bod yna lawer yma y gallai'r aelodau eu hunain ei wneud i gynorthwyo'r adrannau, e.e. drwy ledaenu'r neges yn eu hardaloedd ynglŷn â phwysigrwydd ailgylchu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2013/14 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2013)

Cyflwynwyd –
(a) adroddiad monitro'r Pennaeth Cyllid ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
(b) taflen benderfyniad drafft Cabinet 18 Chwefror ar yr adolygiad trydydd chwarter o'r gyllideb refeniw.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau. Cyfeiriodd at orwariant yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol gan nodi bod yna resymau penodol dros hynny. Ychwanegodd fod y Cabinet yn fodlon bod yr adrannau dan sylw wedi rhoi mesurau mewn lle i ddygymod â'r sefyllfa a'u bod wedi cytuno i drosglwyddo'r symiau yn yr adroddiad i leihau'r bwlch.

Nododd y Pennaeth Cyllid y gofynnwyd yn y Cabinet pam fod cyllideb ychwanegol yn cael ei dyrannu i rai adrannau, ac nid i eraill, ac eglurodd fod y ddwy adran dan sylw'n gorwario'n sylweddol oherwydd eu bod yn wynebu digwyddiadau anodd oedd y tu hwnt i'w rheolaeth. Ymhellach, 'roedd y ddwy adran wedi cymryd camau cyffredinol i geisio rheoli eu cyllidebau ers adrodd ar sefyllfa ail chwarter 2013/14. Yn achos adrannau eraill, nodwyd bod lefel y gorwariant yn is a bod modd ei reoli drwy ddefnyddio cronfeydd adrannol, ayb.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Nodwyd bod y ddwy adran dan sylw yn tueddu i orwario'n flynyddol a bod hyn naill ai'n awgrymu diffyg rheolaeth ariannol o fewn yr adrannau hynny neu fod yr arian sy'n cael ei glustnodi ar eu cyfer yn annigonol. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid fod cyllideb 2014/15 yn cyfarch rhai o'r gofynion hyn gan gyfeirio at rai enghreifftiau o hynny. Yna eglurodd yr Uwch Reolwr Cyllid fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi'u taro'n galed gan y llifogydd yn Nhachwedd 2012 ac wedi gorfod defnyddio arian oedd wedi'i adnabod ar gyfer y broblem yn y maes

gwastraff tuag at gost ymateb i ragor o dywydd garw ddechrau'r flwyddyn hon. Hefyd, er bod y maes Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden yn ymddangos yn broblemus ar lefel adran, 'roedd yna symudiadau o fewn y gwahanol benawdau o flwyddyn i flwyddyn.

- Nodwyd gan aelod fod y gwaith o agor afonydd a ffosydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr ac wedi osgoi costau pellach i'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn y tymor hwy.
- Trafodwyd effaith y tywydd garw diweddar a'r difrod i lwybrau arfordirol y sir a chyfeiriwyd at y mathau o gymorth ariannol a allai fod ar gael i'r Cyngor tuag at gostau cyflawni'r gwaith adfer. Nodwyd bod Llywodraeth San Steffan yn cyfrannu £100m i helpu'r sefyllfa yn Lloegr, ond nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi'n agos at hynny i gynghorau Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth a'r risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb a derbyn penderfyniad drafft y Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2013/14 – ADOLYGIAD DIWEDD Y TRYDYDD CHWARTER (31 RHAGFYR 2013)

Cyflwynwyd –

(a) adroddiad monitro'r Pennaeth Cyllid ar wariant ac ariannu'r rhaglen gyfalaf.

(b) taflen benderfyniad drafft Cabinet 18 Chwefror ar yr adolygiad trydydd chwarter o'r rhaglen gyfalaf.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau a diolchodd i'r holl staff sy'n ymwneud a chyllidebau'r Cyngor am eu gwaith caled a manwl.

Holodd aelod ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer hen Amgueddfa Seiont II yng Nghaernarfon a chytunodd y Pennaeth Cyllid i holi'r Adran Economi a Chymuned a gadael i'r aelod wybod beth sy'n digwydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth a'r risgiau ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf a derbyn penderfyniad drafft y Cabinet.**

## 8. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

### Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2014

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2013 a 31 Ionawr 2014. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at:-

- 16 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos
- 1 adroddiad arall (memoranda a.y.b.)
- 4 o adolygiadau grant
- 3 o archwiliadau dilyniant

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yna 5 adroddiad yng nghategori barn C y tro hwn o gymharu â 4 y tro diwethaf a 3 y tro cynt, ac er ei bod yn rhy gynnar i ddweud bod yna batrwm yn datblygu, 'roedd angen cadw golwg ar hyn. I'r gwrthwyneb, nododd hefyd fod yna fwy o adroddiadau yng nghategori barn A nag yn y gorffennol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

Gan gyfeirio at yr archwiliad o'r Swyddogion Adfywio Bro (Atodiad 8 i'r adroddiad) nododd aelod fod sôn bod y swydd yn Nwyfor yn dod i ben a holodd a oedd yna wirionedd yn hynny. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad oedd strategaeth yr adran o fewn sgôp yr adolygiad, ond cytunodd i wneud ymholiadau ar ran yr aelod.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2013 i 31 Ionawr 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**(b) bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C':-**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor a'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Dafydd Meurig ac Angela Russell.**

## 9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 31 Ionawr 2014 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol:-

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 16 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 20 |
| Disgwyl Adolygiad | 6 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 60 |
| Wedi ei gau | 1 |
| Cyfanswm | 105 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 7 |

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, ychwanegodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod mwy o adroddiadau wedi'u rhyddhau ers diwedd Ionawr a bod natur yr archwiliadau hynny yn golygu bod modd mynd drwyddynt yn gynt.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14.**

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2014/15

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoi manylion am gynllun drafft o waith yr Adran Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2014/15 fel y gallai'r aelodau leisio barn arno a'i gymeradwyo, yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach gyda swyddogion.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n dod â'r cynllun terfynol gerbron ym mis Mai.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015, yn ddarostyngedig i addasiadau yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.**

## 11. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar ganlyniad y Gweithdy Llywodraethu a gynhaliwyd ar 29 Ionawr ac yn cyflwyno rhaglen waith am y 3 mis nesaf.

**PENDERFYNWYD cyfarwyddo'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu i lunio rhaglen sy'n casglu tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau o brif faterion llywodraethu'r awdurdod, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl eu blaenoriaethu.**

## 12. ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad Cadeirydd Gweithgor Cyfansoddiad y Cyngor ar waith y gweithgor.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn yr adroddiad a nodi gwaith y Gweithgor.**

**(b) Awdurdodi'r Gweithgor i gyflwyno ei adroddiad ar y Cyfansoddiad diwygiedig i'r Cyngor ar y 1af o Fai.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Cyngor Gwynedd (Yn cynnwys:

**Y Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**
**Y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**
**Cydbwyllgor GwE)**

**Blwyddyn archwilio:** 2013-14
**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2014
**Cyfeirnod y ddogfen:** 256A2014

# Statws y ddogfen

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Derwyn Owen, Amanda Hughes ac Alan Hughes.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Archwiliad o ddatganiadau ariannol | 4 |
| Archwiliad o'r defnydd o adnoddau | 10 |
| Archwiliad o ddatganiadau Ariannol y Cydbwyllgorau | 10 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 11 |
| Gwaith arall a wnaed | 11 |
| Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol | 11 |
| Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen | 12 |
| Atodiadau | |
| Rolau a chyfrifoldebau | 15 |

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Cyflwyniad

**1.** Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol gan Derwyn Owen, ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett.

**2.** Yn rhinwedd fy swydd fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel yr Archwilydd Penodedig a'm rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio p'un a ydynt yn ‘gywir a theg’;
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**3.** Diben yr amlinelliad hwn yw egluro'r canlynol i chi:

- Dull fy nhîm archwilio o wneud y canlynol:
  - archwilio eich datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014, gan gynnwys y risgiau sylweddol o gamddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol a sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â hwy;
  - asesu eich trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Yr amserlen arfaethedig, y ffioedd a'r tîm archwilio.
- Cwmpas yr archwiliad, ein priod gyfrifoldebau a sut rydym yn sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd yn ein gwaith.

**4.** Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

**5.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- P'un a yw'r cyfrifon yn rhoi ‘darlun cywir a theg’ o alldro a sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd (y Cyngor). Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y cyfrifon:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill;
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb y wybodaeth yn y Rhagair Eglurhaol gyda'r datganiadau ariannol.


**6.** Mae'n rhaid i'm hadroddiad hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2013-14 yn cydymffurfio â gofynion.

### Dull archwilio

**7.** Mae gwaith archwilio fy nhîm yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i asesu risg a chael tystiolaeth a sicrwydd archwilio, ac mae'n seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'ch

busnes. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi fy nhîm i ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'n dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Ein dull archwilio




**8.** Caiff y gwaith a wnawn yn y tri maes hyn ei egluro'n fanylach yn Arddangosyn 2.

**9.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a gweithredu'r archwiliad, ein nod yw dod o hyd i gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r pwyllgor archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

**10.** At ddibenion cyflwyno adroddiadau, byddwn yn ystyried na fydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ystyried unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (pump y cant o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) ac felly ni fyddwn yn eu dwyn i'w sylw.

Arddangosyn 2: Ein dull archwilio

**Cynllunio ac asesu risg**

| Tasgau allweddol | Amcanion | Gwaith |
| --- | --- | --- |
| Trafodaethau â swyddogion/rhanddeiliaid allweddol<br>Adolygu dogfennau allweddol<br>Adolygiad cychwynnol o'r Archwiliad Mewnol | Er mwyn deall:<br>• Datblygiadau mewnol ac allanol<br>• Yr amgylchedd archwilio<br>• Y datganiadau ariannol<br>• Amgylchedd rheoli<br>• Risgiau busnes a risgiau archwilio | **Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol** |

**Cael sicrwydd (gweithredu)**

| Tasgau allweddol | Amcanion | Gwaith |
| --- | --- | --- |
| Dogfennaeth ar systemau a rheolaethau<br>Profi rheolaethau allweddol<br>Profi manylion ynglŷn â thrafodion a balansau<br>Profi datgeliadau<br>Adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu | Er mwyn cael sicrwydd:<br>• Ynglŷn â risgiau sylweddol a nodwyd<br>• Nad yw balansau, trafodion na datgeliadau yn cynnwys camddatganiadau perthnasol<br>• Nad yw trafodion yn afreolaidd<br>• Bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir | **Cwblhau gwaith archwilio yn unol â'r cynllun** |

**Llunio casgliadau ac adroddiadau**

| Tasgau allweddol | Amcanion | Gwaith |
| --- | --- | --- |
| Gwerthuso canlyniadau gwaith archwilio<br>Ystyried effaith digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn | Nodi materion i'w dwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu neu reoli<br>Llunio barn ar y datganiadau ariannol | **Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**<br>**Tystysgrif a Barn yr Archwilydd**<br>**Llythyr Archwilio** |

11. Wrth gynllunio fy ngwaith a meithrin dealltwriaeth o'r Cyngor, rwyf yn ystyried yr amgylchedd rheoli gan gynnwys gweithgareddau'r Adran Archwilio Mewnol i benderfynu ar effaith bosibl ei gwaith ar fy ngweithdrefnau arfaethedig ac i werthuso i ba raddau y gallaf ddibynnu ar y gwaith hwnnw.

12. Fel rhan o'r broses gynllunio, ystyriodd fy staff y wybodaeth y byddai ei hangen i ategu'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio. Bydd y ffioedd, unwaith y cytunir arnynt, yn seiliedig ar y dybiaeth y caiff y wybodaeth hon ei darparu yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt a'r safonau ansawdd rydym yn eu disgwyl. Mae'r prif dybiaethau eraill a ddefnyddir gennyf wrth bennu'r amcangyfrif o ffioedd fel a ganlyn:

- bod y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol wedi cael eu hadolygu a'u dilysu gan reolwyr, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol eu bod yn 'gywir a theg';
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf;
- bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau'r rhaglen waith a gynlluniwyd ganddo a bod rheolwyr wedi cymryd yr holl gamau gweithredu adferol angenrheidiol ar faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

## Risgiau archwilio a materion

### Risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu

13. Mae Arddangosyn 3 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan y Cyngor a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau a nodais yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Mae'n bosibl y bydd angen i mi newid y cynllun archwilio os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun archwilio heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Arddangosyn 3: Crynodeb o'r prif risgiau archwilio a'r ymatebion arfaethedig

| **Risgiau** | **Camau gweithredu arfaethedig** |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol.<br>At hynny, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol, gan gynnwys toriadau ariannol. Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y Cyngor gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr gael eu gogwyddo mewn ymdrech i ateb ei heriau ariannol. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys gogwydd wrth gofnodi;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. |
| Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol. | Byddwn yn adolygu'r cynllun ac yn profi gweithrediad rheolaethau yn y systemau sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• rheoli'r trysorlys;<br>• incwm grant;<br>• ffynonellau eraill o incwm. |
| Yn dilyn mater a nodwyd yn 2013-14, mae risg nad yw'r data aelodaeth a ddarperir i'r actiwari sy'n cael i'w defnyddio i baratoi'r datgeliadau blynyddol o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (Buddiannau Cyflogeion), yn ddigon cadarn. | Byddwn yn adolygu'r ymarfer a gynhaliwyd gan staff y Cyngor i arolygu cywirdeb y data a ddarperir i'r actiwari ac yn ystyried pa un a allwn gael sicrwydd ynghylch eu cywirdeb. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | |
| Risg nad yw rheolaethau ariannol lefel uchel y Cyngor wedi'u cynllunio nac yn gweithredu yn effeithiol i atal a nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Byddwn yn adolygu cynllun ac yn profi gweithrediad rheolaethau lefel uchel yn:<br>• y brif system gyfrifyddu;<br>• y system rheoli cyllidebol;<br>• y broses o baratoi cyfrifon. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | |
| Mae risg nad yw pecynnau ymadael i'r swyddogion sydd yn gadael llywodraeth lleol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod a pholisiau cynghorau unigol. Ystyrir bod taliadau o'r fath yn sensitif a pherthnasol. | Byddwn yn ystyried y driniaeth gyfrifyddu a'r broses o ddatgelu pecynnau gadael. |

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
| --- | --- |
| Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, bydd angen amcangyfrif nifer o ffigurau'r cyfrifon megis darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau'r Cyngor (e.e. hawliadau cyflog cyfartal, anghydfodau cyfreithiol). | Byddwn yn adolygu'r canlynol:<br>• yr asesiad blynyddol a wnaed gan swyddogion o'r sail y gwneir amcangyfrifon arni a'r sail y cânt eu hadolygu arni yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf;<br>• dogfennaeth a ddelir i ategu amcangyfrifon y daethpwyd iddynt a dyfarniadau a wnaed, gan gyfeirio at bapurau a ddarparwyd i'w hategu.<br>Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff gofynion cyfrifyddu a datgelu priodol eu cynnwys o fewn y datganiadau ariannol. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | |
| Mae perygl y caiff y datganiadau ariannol eu cam-ddatgan yn sylweddol oherwydd gwall neu am fod trafodion, balansau a datgeliadau wedi eu hepgor. | Byddwn yn cynnal rhaglen o brofion archwilio er mwyn mynd i'r afael â risgiau a nodwyd fel rhan o'n gwaith cynllunio ac adolygu'r datganiadau ariannol drafft. |
| Rydym wedi nodi nifer o ddatgeliadau fel datgeliadau o natur berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partïon Cysylltiedig a'r nodyn ar Gydnabyddiaeth. | Byddaf yn cynllunio profion manwl i gael y sicrwydd gofynnol na cham-ddatganwyd y datgeliadau a nodwyd yn ddatgeliadau perthnasol. |

## Materion o ran cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau

**14.** Yn ogystal â'r risgiau archwilio sylweddol a nodir uchod, mae angen i mi hefyd ystyried unrhyw ofynion newydd o ran cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau sy'n effeithio ar fy nghyfrifoldebau. Ceir crynodeb o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol o ran cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau sy'n gymwys i 2013-14 yn Arddangosyn 4.

### Arddangosyn 4: Newidiadau arwyddocaol o ran cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ar gyfer 2013-14

| Newid o ran cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau |
| --- |
| **IAS 1 *Cyflwyno Datganiadau Ariannol***<br>Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi'i ddiwygio o ganlyniad i'r diwygiadau i IAS 1 *Cyflwyno Datganiadau Ariannol* a wnaed ym mis Mehefin 2011 (lle y bônt yn berthnasol i awdurdod) a'r diwygiadau i IAS 19 a wnaed ym mis Mehefin 2011. Mae'r gofyniad i Ariannu ac Incwm o Fuddsoddiad a Gwariant gynnwys 'cost llog pensiynau ac elw disgwyliedig ar asedau pensiwn' wedi'i ddisodli gan 'llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased)'. Erbyn hyn mae Ariannu ac Incwm o Fuddsoddiad a Gwariant hefyd yn cynnwys 'ailfesuriadau o'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased) ar gyfer buddiannau cyflogeion hirdymor a gydnabyddir yn unol ag adran 6.2'. |

| Newid o ran cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau |
| --- |
| **IAS 19 *Buddiannau Cyflogeion***<br>Mae Pennod 6 o'r cod yn cynnwys diwygiadau o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i IAS 19 *Buddiannau Cyflogeion* a wnaed ym mis Mehefin 2011:<br>• diwygiadau i'r diffiniadau yn adran 6.1;<br>• terminoleg wedi'i diweddaru, diwygiadau i'r gofynion adnabod ac esboniadau o'r gofynion datgelu yn adran 6.2;<br>• diwygiadau i'r gofynion adnabod yn adran 6.3 Buddiannau Terfynu ac esboniad o'r gofynion datgelu;<br>• diwygiadau i'r gofynion dosbarthu, adnabod, mesur a datgelu yn adran 6.4 Buddiannau Ôl-gyflogaeth. |

# Archwiliad o'r defnydd o adnoddau

**15.** Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran y trefniadau a sefydlwyd gan y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, byddaf yn dibynnu ar y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol y Cyngor, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

# Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cydbwyllgorau

**16.** Cyngor Gwynedd yw awdurdod arweiniol y tri Chydbwyllgor, sef y Cydbwyllgor Anghenion Arbennig, Cydbwyllgor GwE a'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

**17.** Mae'n ofynnol i bob Pwyllgor naill ai paratoi datganiadau ariannol, neu gyflwyno ffurflen flynyddol sy'n destun archwiliad.

**18.** Bydd fy null archwilio ar gyfer y Cydbwyllgorau yr un fath, mewn egwyddor, â'r hyn a nodir uchod ar gyfer y Cyngor.

**19.** Mae Arddangosyn 5 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan y Cydbwyllgorau a allai effeithio ar fy archwiliadau.

Arddangosyn 5: Crynodeb o brif risgiau archwilio'r Cydbwyllgorau a'r ymatebion arfaethedig

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Cydbwyllgor GwE** | |
| Dyma flwyddyn weithredol gyntaf y Cydbwyllgor ac felly'r tro cyntaf i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi. | Byddwn yn cynllunio profion manwl er mwyn cael y sicrwydd gofynnol bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol a'u bod wedi'u nodi mewn ffordd berthnasol. |

**20.** Byddaf yn cyhoeddi fy adroddiad ar y datganiadau ariannol i'r priod bwyllgor i'w ystyried cyn i'r Archwilydd Penodedig gyflwyno ei farn.

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

**21.** Mae'r Archwilydd Penodedig, gan weithredu fel asiant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn cyflawni gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant y Cyngor yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**22.** Yn 2012-13, archwiliodd fy nhîm archwilio 62 o hawliadau a ffurflenni grant. Ceir crynodeb o'r gwaith hwn mewn adroddiad ar wahân ar 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2012-13', a gyhoeddir ym mis Mai 2014.

**23.** Yn 2013-14, rhagwelaf y byddaf yn archwilio nifer debyg o hawliadau, y bydd nifer ohonynt yn gymhleth eu natur, sef; hawliadau Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor; Ffurflenni Pensiynau Athrawon; hawliadau grant Cymunedau yn Gyntaf; a nifer o hawliadau grant Cronfeydd Ewropeaidd.

# Gwaith arall a wnaed

**24.** Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol y corff a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

# Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol

**25.** Caiff dogfen ar wahân, sef Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad, ei chyhoeddi yn nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Ffi

**26.** Ni allwn roi amcangyfrif o'n ffi am ein gwaith archwilio yn 2013-14 ar hyn o bryd.

**27.** O ganlyniad i ofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, bu'n rhaid i ni ddiwygio ein dull o bennu ffioedd. Bydd y Ddeddf hon yn cyflwyno gofyniad ychydig yn wahanol i Swyddfa Archwilio newydd Cymru o ran pennu ffioedd am ein holl waith archwilio unwaith y daw ei darpariaethau i rym o 1 Ebrill 2014. Er mwyn paratoi ar gyfer y gofyniad newydd hwn, bu'n rhaid i ni gael cyngor cyfreithiol i egluro nifer o'r darpariaethau. Yn sgîl y cyngor hwnnw, rydym wedi adolygu ein prosesau dyrannu a dosrannu costau er mwyn sicrhau y bydd ein trefniadau pennu ffioedd yn y dyfodol yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion statudol newydd hyn. Yn anffodus, mae'r broses hon wedi bod yn llafurus. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgynghori ar ei raddfeydd ffioedd, sy'n ystyried diwygiadau a wnaed yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gofynion deddfwriaethol newydd.

**28.** Rydym wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu rhoi amcangyfrif i chi o'ch ffi ar gyfer 2013-14 ym mis Ebrill 2014.

**29.** Bydd y broses gynllunio yn barhaus, ac efallai y bydd angen i mi newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, fy ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Rhoddir rhagor o wybodaeth am raddfeydd ffioedd a phrosesau pennu ffioedd Swyddfa Archwilio newydd Cymru ar ôl eu cwblhau.

**30.** Mewn blynyddoedd blaenorol, ni fu unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i ddatganiadau ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, caf nifer o ymholiadau ac eitemau o ohebiaeth gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Caiff ychydig o amser ei gynnwys yn y ffi i ymdrin â mân ymholiadau, fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli'r archwiliad.

**31.** Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd angen ei gyflawni i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd neu gymysgedd sgiliau penodol sydd ei angen ar gyfer y gwaith, ond trafodir hyn gyda'r Cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith.

**32.** O ran pob grant neu ffurflen, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adennill swm sy'n cwmpasu cost lawn y gwaith perthnasol a gyflawnir. Caiff y ffi ar gyfer gwaith ardystio grantiau a ffurflenni ei chodi ar sail ddyddiol, yn unol â'r graddfeydd ffioedd sy'n ymwneud â sgiliau a nodir yn llythyr ffioedd llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a materion neilltuol y grantiau penodol.

**33.** Ceir rhagor o wybodaeth am raddfeydd ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol a'r broses o bennu ffioedd ar ein gwefan yn: www.wao.gov.uk/aboutus/4240.asp.

## Tîm archwilio

Arddangosyn 7: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 320651 | derwyn.owen@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Rheolwr yr Archwiliad Ariannol | 07969 919986 | amanda.hughes@wao.gov.uk |
| Alan Hughes | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 01286 679158 | alan.hughes@wao.gov.uk |

**34.** Mae Arddangosyn 7 yn nodi prif aelodau'r tîm archwilio yn y Cyngor. Gallaf gadarnhau, ac eithrio un aelod o staff, nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac i annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi.

**35.** O ran yr eithriad a nodir uchod, mae un aelod o'r tîm archwilio yn perthyn i aelod iau dros dro o staff archwilio mewnol y Cyngor. O ganlyniad, rydym wedi cymryd camau i sicrhau na fydd ein haelod o staff yn rhan o unrhyw waith a wneir gennym o bosibl sy'n ymwneud â'r adolygiad o'r archwiliad mewnol na'r rhaglen waith.

## Amserlen

**36.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu waith arall y cytunwyd arno, i'r Pwyllgor Archwilio sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: Amserlen

| Gwaith arfaethedig | Cyflawni'r gwaith | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Amlinelliad o Archwiliad Blynyddol Ariannol 2014** | Rhagfyr 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 |
| **Gwaith ar y cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol<br>• Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf – Medi 2014<br>Medi 2014<br>Medi 2014 | Medi 2014<br>Medi 2014<br>Medi 2014 |
| **Gwaith ar y Defnydd o Adnoddau** | Medi – Hydref 2014 | Tachwedd 2014 |
| **Llythyr Archwilio Blynyddol 2014** | Hydref 2014 | Tachwedd 2014 |

# Atodiad 1

## Rolau a chyfrifoldebau

Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i Gyngor Gwynedd (y Cyngor) o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2013-14.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn nodi mai'r Archwilydd Cyffredinol fydd archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2013, yn darparu trefniadau trosglwyddo lle mae penodiad unigolyn fel archwilydd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd y cyfnod y gwnaed y penodiad ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad i derfynu'r penodiad yn gynharach). Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi fy mhenodi i weithredu fel archwilydd cyfrifon y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014.

Fel Archwilydd Penodedig, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried ac ardystio cyfrifon y Cyngor. Yn unol â safonau proffesiynol sy'n gymwys yn rhinwedd y Cod Ymarfer Archwilio a bennwyd o dan y ddeddf, mae hyn yn cynnwys rhoi barn ar b'un a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi fodloni fy hun o ran y pethau hyn:

- bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o'r ddeddf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005);
- bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
- bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;
- bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Cyngor gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.

Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio hawliadau a ffurflenni grant penodol. Yr Archwilydd Penodedig, gan weithredu fel asiant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n cyflawni'r gwaith archwilio mewn perthynas â'r hawliadau a'r ffurflenni hynny.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

# **Cronfa Bensiwn Gwynedd**

**Blwyddyn archwilio:** 2013-14

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 255A2014

# Statws y ddogfen

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Derwyn Owen, Amanda Hughes ac Alan Hughes.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn | 4 |
| Adroddiad blynyddol y gronfa bensiwn | 9 |
| Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen | 10 |
| Atodiadau | |
| Rolau a chyfrifoldebau | 12 |

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Cyflwyniad

**1.** Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol gan Derwyn Owen ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett.

**2.** Yn rhinwedd fy swydd fel eich archwilydd allanol, fy nod yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel yr Archwilydd Penodedig a'm rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio, i archwilio ac ardystio pa un a yw datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn) yn 'gywir a theg'.

**3.** Diben yr amlinelliad hwn yw egluro'r canlynol i chi:

- sut y bydd fy nhîm archwilio yn archwilio datganiadau cyfrifyddu eich Cronfa Bensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2014, gan gynnwys y risgiau sylweddol o gamddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau cyfrifyddu a sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â hwy;
- yr amserlen arfaethedig, y ffioedd a'r tîm archwilio;
- cwmpas yr archwiliad, ein priod gyfrifoldebau a sut rydym yn sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd yn ein gwaith.

**4.** Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn


**5.** Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi adroddiad ar y datganiadau cyfrifyddu sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu datganiadau cyfrifyddu.

### Dull archwilio

**6.** Mae gwaith archwilio fy nhîm yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i asesu risg a chael tystiolaeth a sicrwydd archwilio, ac mae'n seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'ch busnes. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi fy nhîm i ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â chyfrifon y Gronfa Bensiwn yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'n dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Ein dull archwilio




**7.** Caiff y gwaith a wnawn yn y tri maes hyn ei egluro'n fanylach yn Arddangosyn 2.

**8.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod datganiadau cyfrifyddu y Gronfa Bensiwn yn gywir a theg, ond mabwysiadaf y cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a gweithredu'r archwiliad, ein nod yw dod o hyd i gamddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.  Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn ei chyfanrwydd,cyn cwblhau'r archwiliad.

**9.** At ddibenion adroddiadau, byddwn yn cymryd na fydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ystyried unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (y pump y cant isaf o ran perthnasedd neu £100,000) ac felly ni fyddwn yn eu dwyn i'w sylw.

## Arddangosyn 2: Ein dull archwilio

**Asesu risg (cynllunio)**

Tasgau allweddol

- Trafodaethau â swyddogion/rhanddeiliaid allweddol
- Adolygu dogfennau allweddol
- Adolygiad cychwynnol o'r Archwiliad Mewnol

Amcanion

Er mwyn deall:

- Datblygiadau mewnol ac allanol
- Yr amgylchedd archwilio
- Y datganiadau ariannol
- Y rheolaethau allweddol sydd ar waith
- Risgiau busnes a risgiau archwilio

Gwaith

**Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol**

**Cael sicrwydd (gweithredu)**

Tasgau allweddol

- Dogfennaeth ar systemau a rheolaethau
- Profi rheolaethau allweddol
- Profi manylion ynglŷn â thrafodion a balansau
- Profi datgeliadau

Amcanion

Er mwyn cael sicrwydd:

- Ynglŷn â risgiau sylweddol a nodwyd
- Nad yw balansau, trafodion na datgeliadau yn cynnwys camddatganiadau perthnasol
- Nad yw trafodion yn afreolaidd
- Bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir

Gwaith

**Cwblhau gwaith archwilio yn unol â'r cynllun**

**Llunio casgliadau ac adroddiadau**

Tasgau allweddol

- Ystyried effaith digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn
- Gwerthuso canlyniadau gwaith archwilio

Amcanion

- Nodi materion i'w dwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu neu reoli
- Llunio barn ar y datganiadau ariannol

Gwaith

**Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

**Tystysgrif a Barn yr Archwilydd**

10. Wrth gynllunio fy ngwaith a meithrin dealltwriaeth o'r Gronfa Bensiwn, ystyriaf yr amgylchedd rheoli gan gynnwys gweithgareddau'r Adran Archwilio Mewnol i benderfynu ar effaith bosibl ei gwaith ar fy ngweithdrefnau arfaethedig ac i werthuso i ba raddau y gallaf ddibynnu ar y gwaith hwnnw.

11. Fel rhan o'r broses gynllunio, ystyriodd fy staff y wybodaeth y byddai ei hangen i ategu'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio. Bydd y ffioedd, unwaith y cytunir arnynt, yn seiliedig ar y dybiaeth y caiff y wybodaeth hon ei darparu yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt a'r safonau ansawdd rydym yn eu disgwyl. Mae'r prif dybiaethau eraill a ddefnyddir gennyf wrth bennu'r amcangyfrif o ffioedd fel a ganlyn:

- bod y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol wedi cael eu hadolygu a'u dilysu gan reolwyr, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol eu bod yn 'gywir a theg';
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf;
- bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau'r rhaglen waith a gynlluniwyd ganddo a bod rheolwyr wedi cymryd yr holl gamau gweithredu adferol angenrheidiol ar faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

## Risgiau archwilio

12. Mae Arddangosyn 3 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan y Gronfa Bensiwn a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau a nodais yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Mae'n bosibl y bydd angen i mi newid y cynllun archwilio os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun archwilio heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Arddangosyn 3: Crynodeb o'r prif risgiau archwilio a'r ymatebion arfaethedig

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth gofnodi;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. |
| Yn dilyn mater a nodwyd yn 2012-13, mae risg nad yw'r cofnodion aelodaeth a ddelir yn y system gweinyddu pensiynau yn gyfredol gan nad yw rhai cyrff Cyflogwyr bob amser yn darparu gwybodaeth briodol yn amserol. | Byddwn yn adolygu'r broses a ddefnyddiwyd gan y system gweinyddu pensiynau er mwyn gweithio gyda Chyrff Cyflogwyr i sicrhau bod y data wedi'u diweddaru. |
| Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol. | Byddwn yn adolygu'r cynllun ac yn profi gweithrediad rheolaethau yn y systemau sy'n ymwneud ag incwm a rheoli'r trysorlys. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | |
| Risg nad yw rheolaethau ariannol lefel uchel y Cyngor wedi'u cynllunio nac yn gweithredu yn effeithiol i atal a nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Byddwn yn adolygu cynllun ac yn profi gweithrediad rheolaethau lefel uchel yn:<br>• y brif system gyfrifyddu;<br>• y system rheoli cyllidebol;<br>• y broses o baratoi cyfrifon. |
| Penodir rheolwyr buddsoddi allanol i reoli'r portffolio buddsoddi. Bydd eu systemau a'u cofnodion eu hunain yn creu nodiadau cyfrifon a wneir i gyfrif y Gronfa Bensiwn a'r datganiad o asedau net. | Cawn gadarnhad uniongyrchol gan reolwyr y gronfa ynghylch balansau buddsoddi diwedd y flwyddyn, a byddwn yn ystyried a yw adroddiadau rheolaeth fewnol y rheolwyr buddsoddi yn nodi risgiau penodol i'r balansau hyn. |

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
| --- | --- |
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | |
| Bydd y gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys amcangyfrif nifer o ffigurau'r cyfrifon. | Byddwn yn adolygu'r canlynol:<br>• yr asesiad blynyddol a wnaed gan swyddogion o'r sail y gwneir amcangyfrifon arni a'r sail y cânt eu hadolygu arni yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf;<br>• dogfennaeth a ddelir i ategu amcangyfrifon y daethpwyd iddynt a dyfarniadau a wnaed, gan gyfeirio at bapurau a ddarparwyd i'w hategu.<br>Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff gofynion cyfrifyddu a datgelu priodol eu cynnwys o fewn y datganiadau ariannol. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | |
| Mae perygl y caiff y datganiadau ariannol eu cam-ddatgan yn sylweddol oherwydd gwall neu am fod trafodion, balansau a datgeliadau wedi eu hepgor. | Byddwn yn cynnal rhaglen o brofion archwilio er mwyn mynd i'r afael â risgiau a nodwyd fel rhan o'n gwaith cynllunio ac adolygu'r datganiadau ariannol drafft. |

### Materion o ran cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol

**13.** Yn ogystal â'r risgiau archwilio sylweddol a nodir uchod, mae angen i mi hefyd ystyried unrhyw ofynion newydd o ran cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol sy'n effeithio ar fy nghyfrifoldebau.

**14.** Nid oes unrhyw ofynion sylweddol newydd o ran cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol yr wyf yn dymuno tynnu eich sylw atynt.

## Adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn

**15.** Yn ogystal â chynnwys cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn eu prif ddatganiadau cyfrifyddu, mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Gronfa Bensiwn ac mae'n rhaid iddo gynnwys cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

**16.** Mae'n ofynnol i mi ddarllen yr adroddiad blynyddol ar y Gronfa Bensiwn ac ystyried a yw'r wybodaeth ynddo yn gyson â chyfrifon y Gronfa Bensiwn a geir ym mhrif ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor.

**17.** Byddaf hefyd yn cyhoeddi datganiad archwilio yn cadarnhau bod y cyfrifon yn yr adroddiad blynyddol yn gyson â chyfrifon archwiliedig y Gronfa Bensiwn.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Ffi

**18.** Ni allwn roi amcangyfrif o'n ffi am ein gwaith archwilio yn 2013-14 ar hyn o bryd.

**19.** O ganlyniad i ofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, bu'n rhaid i ni ddiwygio ein dull o bennu ffioedd. Bydd y Ddeddf hon yn cyflwyno gofyniad ychydig yn wahanol i Swyddfa Archwilio newydd Cymru o ran pennu ffioedd am ein holl waith archwilio unwaith y daw ei darpariaethau i rym o 1 Ebrill 2014. Er mwyn paratoi ar gyfer y gofyniad newydd hwn, bu'n rhaid i ni gael cyngor cyfreithiol i egluro nifer o'r darpariaethau. Yn sgîl y cyngor hwnnw, rydym wedi adolygu ein prosesau dyrannu a dosrannu costau er mwyn sicrhau y bydd ein trefniadau pennu ffioedd yn y dyfodol yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion statudol newydd hyn. Yn anffodus, mae'r broses hon wedi bod yn llafurus. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgynghori ar ei raddfeydd ffioedd, sy'n cynnwys diwygiadau a wnaed yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gofynion deddfwriaethol newydd.

**20.** Rydym wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu rhoi amcangyfrif i chi o'ch ffi ar gyfer 2012-13 ym mis Ebrill 2014.

**21.** Bydd y broses gynllunio yn barhaus ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Rhoddir rhagor o wybodaeth am raddfeydd ffioedd a phrosesau pennu ffioedd Swyddfa Archwilio newydd Cymru ar ôl eu cwblhau.

**22.** Ceir rhagor o wybodaeth am raddfeydd ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol a'r broses o bennu ffioedd ar ein gwefan yn: www.wao.gov.uk/aboutus/4240.asp.

## Tîm archwilio

Arddangosyn 4: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 320651 | derwyn.owen@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Rheolwr yr Archwiliad Ariannol | 07969 919986 | amanda.hughes@wao.gov.uk |
| Alan Hughes | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 01286 679158 | alan.hughes@wao.gov.uk |

23. Mae Arddangosyn 4 yn nodi prif aelodau'r tîm archwilio yn y Cyngor. Gallaf gadarnhau, ac eithrio un aelod o staff, nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac i annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi.

24. O ran yr eithriad a nodir uchod, mae un aelod o'r tîm archwilio yn perthyn i aelod iau dros dro o staff archwilio mewnol y Cyngor. O ganlyniad, rydym wedi cymryd camau i sicrhau na fydd ein haelod o staff yn rhan o unrhyw waith a wneir gennym o bosibl sy'n ymwwneud â'r adolygiad o'r archwiliad mewnol na'r rhaglen waith.

## Amserlen

25. Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu waith arall y cytunwyd arno, i'r Pwyllgor Archwilio sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: Amserlen

| Gwaith arfaethedig | Cyflawni'r gwaith | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Amlinelliad o Archwiliad Ariannol Blynyddol 2014** | Rhagfyr 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 |
| **Gwaith ar y cyfrifon ariannol:** | | |
| • Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Gorffennaf – Medi 2014 | Medi 2014 |
| • Barn ar y Datganiadau Ariannol | Medi 2014 | Medi 2014 |
| • Adroddiad blynyddol y gronfa bensiwn 'yn gyson â' barn | Hydref 2014 | Hydref 2014 |
| **Llythyr Archwilio Blynyddol 2014** | Hydref 2014 | Tachwedd 2014 |

# Atodiad 1

## Rolau a chyfrifoldebau

Y Cyngor yw awdurdod gweinyddu y Gronfa Bensiwn. Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i'r Cyngor o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer cyfrifon y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2013-14.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn nodi mai'r Archwilydd Cyffredinol fydd archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2013, yn darparu trefniadau trosglwyddo lle mae penodiad unigolyn fel archwilydd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd y cyfnod y gwnaed y penodiad ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad i derfynu'r penodiad yn gynharach). Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi fy mhenodi i weithredu fel archwilydd cyfrifon y Gronfa Bensiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014.

Fel Archwilydd Penodedig, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried ac ardystio cyfrifon y Gronfa Bensiwn. Yn unol â safonau proffesiynol sy'n gymwys yn rhinwedd y Cod Ymarfer Archwilio a bennwyd o dan y ddeddf, mae hyn yn cynnwys rhoi barn ar b'un a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Gronfa Bensiwn ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi fodloni fy hun o ran y pethau hyn:

- bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o'r ddeddf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005);
- bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
- bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon.

Mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldeb o ran y Gronfa Bensiwn i wneud y canlynol:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **6 MAI 2014** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 EBRILL 2014** |
| AWDUR | **TREVOR O EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 16 o adroddiadau Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 20 Chwefror 2014, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Tachwedd 2013 a 31 Ionawr 2014. Derbyniodd 5 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

1.2 Felly, yn y Pwyllgor penderfynwyd:

**(a) Derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2013 i 31 Ionawr 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**(b) bod yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C':-**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor a'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Dafydd Meurig ac Angela Russell.**

## 2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 4 Ebrill yn Ystafell Gwyrfai, gyda'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Dafydd Meurig ac Angela Russell a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, oedd ill dau yn absennol oherwydd salwch. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Angela Russell.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd farn 'C' yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH |
|---|---|---|
| Defnydd o Cetis / CALMS | Adnoddau Dynol | Dysgu a Datblygu |
| Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau | Corfforaethol | |
| Parciau Gwledig | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Diogelwch Glinfyrddau | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth |
| Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Preswyl a Dydd |

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod y pump adroddiad.

2.4 Rhoddwyd sylw i'r crynodebau hyn yn eu tro gan aelodau'r Gweithgor. Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cynnig cefndir pellach, gan gynnwys cyflwyno pwyntiau perthnasol o'r adroddiad llawn. Roedd Uwch Reolwyr wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sydd yn codi, ac yn anad dim y gwaith sydd wedi ei wneud ers cyhoeddi'r adroddiad archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

**2.5 Bryn Blodau, Llan Ffestiniog**

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad yma oedd:

*Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwiriwyd hyn mewn gwahanol feysydd y Cartref megis trefniadau ariannol, trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau, trefniadau arian poced y preswylwyr a threfniadau cyfrif amwynder. Darganfuwyd bod gwendidau ychwanegol yn nhrefniadau cytuno gwyliau blynyddol ac mae rhain angen eu hadolygu mor fuan ag sydd bosib. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.*

2.5.2 Croesawyd Gwenno Williams, Uwch Reolwr Gweithredol, i'r cyfarfod.

2.5.3 Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yr archwiliad yma wedi ei gynnal ar gais yr Uwch Reolwr Gweithredol, oedd wedi gofyn i Archwilio Mewnol adolygu rhai materion penodol yn y cartref. Penderfynwyd cynnal archwiliad sefydliad llawn, ac yn y diwedd roedd yr adroddiad yn cynnwys 29 o argymhellion.

2.5.4 Esboniodd yr Uwch Reolwr Gweithredol fod y materion wedi codi yn y cartref gan fod y rheolwr parhaol wedi cael ei secondio i reoli cartref arall, gyda swyddog arall oedd yn gweithio yn y cartref wedi ei phenodi'n Rheolwr Dros Dro.

2.5.5 Yn sgil y gwendidau a amlygwyd yn yr adroddiad, mae rheolwr profiadol arall wedi ei secondio i Bryn Blodau ers mis Ionawr.

2.5.6 Bryn Blodau yw un o gartrefi preswyl mwyaf y Cyngor. Mae yno 34 preswylydd, yn ogystal ag 8 preswylydd arall yr Uned Dementia sydd ar y safle. Caiff y Cartref Preswyl a'r Uned Dementia eu gweinyddu fel un sefydliad.

2.5.7 Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Gweithredol nad oedd pob un o'r risgiau sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad yn risgiau mawr. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod fod nifer o argymhellion gan fod llawer o waith papur ddim yn ei le.

2.5.8 Yn ogystal â'r gwendidau a nodwyd, roedd yr Uwch Reolwr yn cydnabod fod problemau staffio pellach, gan gynnwys salwch tymor hir. Roedd yn cydnabod fod risg yn bodoli o benodi rhywun dibrofiad i reoli cartref mawr.

2.5.9 Gofynnodd aelod os oedd System Rheoli Staff cyffredin yn ei le. Ymatebodd yr Uwch Reolwr mai dyma'r cam nesaf i'w weithredu. Mae clercod yn mynd i bob cartref ar hyn o bryd, ond mae peth anghysondeb gyda sut mae'r clercod yn gweithio. Y bwriad, felly, yw dod â system gyffredin i mewn.

2.5.10 Nodwyd fod hawliau gwyliau wedi achosi cymhlethdod penodol oherwydd gwaith shifft, ac oherwydd cyfuniad o staff llawn amser, rhan amser ac achlysurol; mae cyfanswm o hyd at 40 o staff yn gweithio yn y Cartref. Roedd aelodau'r Gweithgor yn cydnabod nad ydi gwaith staff y cartrefi preswyl yn hawdd.

2.5.11 Neges yr oedd y Gweithgor yn awyddus i'w bwysleisio yw fod caniatáu hyblygrwydd yn bwysig, ond mae angen i'r gwaith gweinyddol craidd fod yn gyffredin i bawb.

2.5.12 O safbwynt argymhellion yr adroddiad, mae llawer o waith wedi ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion. Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod y gwaith dilyniant ar Bryn Blodau wedi ei raglennu ar gyfer yr haf; nodwyd hefyd fod gwaith archwilio tebyg mewn cartrefi eraill wedi ei gynnwys yng nghynllun 2014/15.

2.5.13 Gofynnwyd os oedd risg fod y ffaith fod rheolwr profiadol bellach wedi ei secondio i Bryn Blodau nawr yn achosi gwendidau yng nghartref arferol y rheolwr yna. Ymateb yr Uwch Reolwr oedd ei bod yn hyderus fod trefniadau priodol yn ei lle yn y cartref arall sy'n golygu na ddylai problemau tebyg godi yno. Nododd hefyd fod rheolau CSSIW yn golygu na all unrhyw unigolyn fod yn reolwr ar fwy nag un cartref. Fodd bynnag, mae Rheolwr cartrefi yn cyfarfod unwaith y mis i rannu syniadau a profiadau.

**2.5.14 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol am ei hatebion parod. Roedd y Gweithgor yn fodlon fod trefniadau wedi eu rhoi yn eu lle i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 2.6 Defnydd o Cetis / CALMS

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Y prif ddarganfyddiad o'r archwiliad hwn yw'r methiant y system i hysbysu staff am bolisïau newydd. Caiff swyddogion eu hysbysu bod polisi newydd angen ei dderbyn trwy "pop-up" a fydd yn ymddangos ar ôl rhoi eu cyfrifiadur ymlaen. Fodd bynnag, mae "pop-up blocker" ar y cyfrifiadur yn atal rhain felly nid oes modd derbyn y wybodaeth am y polisïau newydd. Credir mai dyma'r rheswm pam fo'r ymateb i'r Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion mor isel (4.75% wedi ei dderbyn). Yn ogystal â hyn, credir bod angen adolygu'r polisïau yn gyfnodol i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.*

2.6.2 Croesawyd Carey Cartwright, Rheolwr Dysgu a Datblygu, i'r cyfarfod. Mynegodd y Cadeirydd longyfarchiadau iddo ar ennill y wobr "Parch" yn seremoni wobrwyo "Y Cyngor ar ei Orau" yn ddiweddar.

2.6.3 Eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod CALMS yn becyn meddalwedd sydd wedi cael ei brynu gan y Cyngor sydd yn gwneud staff yn ymwybodol o bolisïau sy'n bwysig iddynt – ei enw blaenorol oedd Cetis. Pan fydd polisïau newydd yn cael eu cyhoeddi, bydd crynodeb o'r polisi yn ymddangos yn CALMS, gydag angen i'r swyddog ateb cwestiynau cwis, ac yna bydd angen iddynt gytuno i dderbyn a chydymffurfio â'r polisi. Fodd bynnag, roedd yr archwiliad wedi dangos fod y canran o staff oedd wedi derbyn rhai o'r polisïau yma yn isel iawn, ac roedd problemau technegol wedi golygu nad oedd pawb yn cael y system yn ymddangos wrth agor eu cyfrifiaduron. Gan fod CALMS yn cael ei weld fel arf pwysig i sicrhau ymlediad polisïau pwysig, mae methiant y system yn creu risg i'r Cyngor.

2.6.4 Ategodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu nad yw darllen crynodeb o'r polisi yn unig yn ddigon. Dilynir y polisi â phrawf, i ddangos fod yr unigolyn wedi deall. Nodwyd fod modd gosod trothwy i basio'r prawf, a gellir amrywio'r nifer o gwestiynau.

2.6.5 Ar ôl pasio'r prawf, ceir neges yn gofyn i'r gweithiwr gytuno i dderbyn y polisi.

2.6.6 Felly, mae tri cam: **Darllen, Deall, Derbyn**.

2.6.7 Y polisi diweddaraf i'w osod ar CALMS yw'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion. Ar adeg yr archwiliad, nid oedd llawer o amser wedi mynd heibio ers i'r polisi gael ei osod ar y system, a dim ond 4.75% o staff oedd wedi ei dderbyn bryd hynny. Mae hwn yn bolisi mwy heriol, hirach, ac mae'n anoddach pasio'r prawf. Erbyn hyn, mae'r canran sydd wedi derbyn y prawf yn fwy calonogol: mae 459 wedi dechrau'r gwaith ac mae 424 wedi ei gwblhau.

2.6.8 Roedd y Rheolwr Dysgu a Datblygu yn awyddus i bwysleisio fod angen bod yn ymwybodol fod angen cyrraedd yr holl weithlu a ni ellir dibynnu'n llwyr ar CALMS i rannu gwybodaeth – nid oes gan yr holl weithlu fynediad i gyfrifiadur. Er hyn, nodwyd fod y system bellach ar gael mewn ysgolion.

2.6.9 O safbwynt methiant y system i agor ar gyfrifiaduron pawb, roedd y Rheolwr Dysgu a Datblygu yn cydnabod fod problemau technegol wedi codi. Wrth agor cyfrifiadur, caiff sgript ei redeg i weld os oes yna bolisïau newydd sydd angen eu derbyn. Ymddengys nad ydi'r neges angenrheidiol yn ymddangos i bawb, ond mae'r Uned TG wedi edrych i mewni'r mater a nid oes patrwm amlwg yn ymddangos o ran pwy sy'n cael y negeseuon angenrheidiol, a pwy sydd ddim.

2.6.10 Nodwyd mai un peth arall sy'n dod allan o'r adroddiad oedd rôl gwahanol dimoedd yn y broses, ac yn arbennig perchnogaeth dros bolisïau. Y drefn sydd wedi ei fabwysiadu erbyn hyn yw fod ebost yn cael ei anfon allan gan bennaeth yr adran sy'n berchennog y polisi i hysbysu pawb fod polisi newydd ar y system, gan mae nhw sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r polisi.

2.6.11 Mae sicrhau perchnogaeth dros y polisi yn gam pwysig ymlaen, gan mai dim ond gweinyddu'r system y mae Dysgu a Datblygu, a disgwylir i'r berchnogion y polisïau chwilio am wybodaeth ac ystadegau perfformiad a gweithredu ar hyn os oes angen.

2.6.12 Nodwyd gan un o'r aelodau fod perygl i rai o'r cwestiynau yn y prawf fod yn rhy dechnegol heb wir ychwanegu i ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r maes (e.e. ym mha flwyddyn y cafodd deddf berthnasol ei phasio).

**2.6.13 Diolchwyd i'r Rheolwr Dysgu a Datblygu am fynychu'r cyfarfod a mynegodd yntau y byddai'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth i wthio am ddatrysiad i'r broblem technoleg gwybodaeth.**

## 2.7 Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Fe anfonwyd e-bost yn Chwefror 2013 i holl reolwyr y Cyngor yn mynegi yr angen i gynnwys y cymal rheoli gwybodaeth yn ffurfiol i bob swydd disgrifiad o fewn y Gwasanaeth/Adran gan ei fod yn "gam arall i atgyfnerthu'r neges bod y cyfrifoldeb yn gyffredin i bawb, beth bynnag yw'r swyddogaeth."*

*Gwiriwyd hysbysebion swyddi'r Cyngor oddi ar y wefan a darganfuwyd nad oedd y cymal wedi ei gynnwys yn sawl un o'r swydd ddisgrifiadau. Gwelwyd bod patrwm yn ymddangos a bod rhai Gwasanaethau o fewn y Cyngor wedi hysbysebu ar gyfer sawl swydd ond heb gynnwys y cymal yn y swydd ddisgrifiadau.*

*Yn ogystal gwiriwyd swydd ddisgrifiadau terfynol a oedd wedi eu cynnwys yn ffeiliau personél sampl o weithwyr a ddetholwyd ar hap. Nid oedd y rhan helaeth o'r rhain yn cynnwys y cymal ychwaith.*

2.7.2 Roedd yr archwiliad yma wedi ei gynnal ar gais y Pennaeth Gofal Cwsmer; ers Chwefror 2013 roedd cais wedi ei anfon i bob pennaeth adran yn gofyn iddynt ychwanegu y cymal canlynol i swydd ddisgrifiadau pob gweithiwr fel rhan o'r broses o sicrhau diogelwch gwybodaeth:

**"Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data."**

2.7.3 Adroddwyd i'r Gweithgor fod y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant (sef y cyn-Bennaeth Gofal Cwsmer) a'r Rheolwr Gwybodaeth wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod. Yn anffodus, oherwydd salwch a phrofedigaeth, nid oedd yn bosib i'r un ohonynt fynychu'r cyfarfod. Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a'i fod yn hapus y byddai hynny'n ddigonol i bwrpas y Gweithgor.

2.7.4 Roedd yr archwilwyr wedi edrych ar swydd-ddisgrifiadau sampl o swyddi oedd wedi eu hysbysebu ers i'r genadwri gael ei rannu i adrannau. Amlygodd yr archwiliad mai anghyson oedd y trefniadau wedi bod ar draws y Cyngor. Pedair adran yn unig – yr Asiantaeth Cefnffyrdd, Cyllid, Economi & Chymuned a Strategol & Gwella – oedd wedi cynnwys y cymal ym mhob swydd ddisgrifiad yn y sampl. Er hyn, nodwyd fod nifer y swyddi a lenwyd yn ystod y cyfnod yma yn gymharol isel.

2.7.5 Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant – sy'n parhau i fod â chyfrifoldeb am y maes yma yn dilyn yr ailstrwythuro diweddar – wedi ei hysbysu ei bod bellach wedi cael cyfle i adolygu'r sefyllfa. Yn hytrach nag ail ddilyn y trefniadau gwreiddiol i geisio sicrhau fod bod rheolwyr yn gosod y cymal mewn swydd ddisgrifiadau newydd ac yn adolygu swydd ddisgrifiadau presennol, mae'r Uned Wybodaeth wedi penderfynu ceisio delio â'r peth mewn ffordd wahanol.

2.7.6 Roedd y Pennaeth yn nodi ei bod yn amlwg o'r gwaith archwilio na chafodd yr ymdrech gyntaf fawr o sylw, ac felly roedd o'r farn y byddai'n fwy effeithiol defnyddio dull gweithredu gwahanol.

2.7.7 Mae'r Adran Adnoddau Dynol bellach wedi rhoi trefniant mewn lle ble mae staff yr Uned Gefnogol yn mynd drwy bob swydd ddisgrifiad cyn ei gyhoeddi ar y we, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y cymal perthnasol: os nad ydyw, bydd yn cael ei ddychwelyd at y rheolwr perthnasol i'w addasu.

2.7.8 Yn ogystal, adroddwyd fod yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol yn arwain ffrwd gwaith o fewn Ffordd Gwynedd i adolygu swydd ddisgrifiadau. Mae hyn am olygu ychwanegu sawl cymal i swydd ddisgrifiadau, a'r bwriad ydi cynnwys y cymal Diogelu Data fel un o'r pecyn yma.

2.7.9 Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei fod yn fodlon gyda'r drefn yma o weithredu, ac o'i weithredu'n iawn dylai hyn fod yn fwy effeithiol na'r trefniadau gwreiddiol. Bydd y gwaith dilyniant yn cael ei gynnal cyn 30 Mehefin, a bryd hynny bydd cyfle i sicrhau fod y gweithdrefnau newydd yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol.

**2.7.10 Roedd y Gweithgor yn croesawu'r neges ac yn cytuno y dylai hyn fod yn ddull mwy effeithiol o weithredu.**

### 2.8 Parciau Gwledig

2.8.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

> *Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd materion yn ymwneud â phrydles y siop ym Mharc Gwledig Glynllifon, a diffyg cymal yn y brydles yn manylu ar rai materion allweddol.*
>
> *Nid oedd asesiadau risg cyfredol yn bodoli yn y Parciau*

2.8.2 Croesawyd Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig) i'r cyfarfod.

2.8.3 Roedd yr adroddiad terfynol yn cynnwys 18 o argymhellion. Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod yr archwiliad yma wedi canolbwyntio ar ddau barc gwledig y Cyngor, gan edrych ar y meysydd canlynol:

- Taliadau cyflog yn gyflawn a chywir.
- Incwm yn cael ei weinyddu'n briodol.
- Fod trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau.
- Rheolaeth Gyllidebol ddigonol yn bodoli.
- Defnydd priodol o'r cyfrif imprest.
- Rheolaeth briodol ar y defnydd a wneir o gerbydau'r Cyngor.
- Trefniadau iechyd a diogelwch digonol mewn lle.

2.8.4 Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned fod hwn yn gyfnod o newidiadau mawr yn y parciau gwledig. Mae'r newidiadau hyn eisoes yn weithredol ym Marc Glynllifon, ac ar y gweill ym Mharc Padarn.

2.8.5 Nodwyd fod rheolaeth Parc Glynllifon wedi ei adnabod fel maes ar gyfer arbedion effeithlonrwydd a thoriadau. Bu lleihad yn nifer y swyddi yno o 4 i 2; mae swydd Rheolwr y Parc a Gweithiwr Siop wedi eu diddymu. Mae hyn wedi arwain at newid cyfangwbl yn rheolaeth y safle.

2.8.6 Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg wedi adrodd mai diffygion yn y brydles wreiddiol gyda tenant y caffi oedd y prif wendid oedd wedi ei adnabod yn yr archwiliad. Roedd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn cydnabod hyn, ond nododd fod rhaid gweithredu'r brydles yn gyflym ar y pryd oherwydd yr angen i'w gael yn weithredol cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon ym Mehefin 2012. Pwysleisiwyd fod y brydles wedi ei gryfhau ers hynny.

2.8.7 Er bod unedau crefft ar y safle, o safbwynt gweinyddiaeth Glynllifon, roedd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn nodi mai 3 prif elfen sydd yno sef y Siop, y Caffi a'r Parc Gwledig. Yn hanesyddol, y Cyngor sydd wedi rhedeg y siop a'r parc, gyda'r caffi yn cael ei osod allan i denant. Cyn y trefniant bresennol, roedd caffi wedi cael ei osod allan ar dendr, ond roedd materion ansawdd wedi codi.

2.8.8 Gwnaethpwyd penderfyniad i drosglwyddo'r siop i'r sector breifat, gan gynnig y caffi a'r siop fel un pecyn, ond roedd rhai cymhlethdodau yn codi oherwydd gofynion TUPE a arweiniodd at gostau ychwanegol.

2.8.9 Erbyn hyn, nodwyd fod y brydles yn dod i ben, gyda'r tenant cyfredol yn cadw'r caffi, ond gyda'r cwmni newydd yn rhedeg y siop ers ychydig cyn Nadolig 2013. Mae cytundeb dros dro yn ei le ar hyn o bryd, gyda'r Uned Gyfreithiol yn gweithio ar gytundeb newydd.

2.8.10 Gan nad ydi'r drefn gyfredol o gasglu tâl mynediad yn ddelfrydol, ond rhaid cynhyrchu incwm, mae Gweithgor Glynllifon yn edrych ar opsiynau ar hyn o bryd.

2.8.11 O safbwynt argymhellion yr adroddiad, nodwyd fod pob un wedi eu gweithredu erbyn hyn, heblaw am:

A16 (*Dylid sicrhau fod rhestr eiddo cyfredol yn cael ei gadw sy'n rhestru dodrefn, ffitiadau ac offer y Parciau*) – nid yw hyn wedi ei gwblhau eto

A18 (*Dylid sicrhau bod trefn yn bodoli lle derbynnir copïau yn flynyddol o bolisïau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chyflogwr y tenantiaid*) – mae angen edrych ymhellach ar hyn oherwydd lleihad yn yr adnoddau staff. Nid oes trefniadau i fonitro'n flynyddol, oherwydd y capasiti staff sy'n bodoli.

2.8.12 Gofynnodd aelod am niwed oedd wedi ei achosi yn y parciau gwledig gan y tywydd garw diweddar. Adroddwyd fod y difrod ym Mharc Glynllifon wedi bod yn sylweddol, gyda'r tîm o Barc Padarn wedi bod yn gweithio yng Nglynllifon am wythnos er mwyn gwneud y safle yn ddiogel. Roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn awyddus i bwysleisio fod y ddau swyddog sydd ar ôl ym Mharc Glynllifon yn hynod frwdfrydig a gweithgar.

2.8.13 Wrth symud ymlaen, adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y bydd llai o gymhlethdodau gyda TUPE. Hefyd, mae grantiau wedi eu derbyn i ganiatáu gwaith newydd yn yr iard a gwella'r cyswllt rhwng y siop a'r unedau crefft.

2.8.14 O safbwynt archebu nwyddau, mae'r gwasanaeth wedi symud ymlaen i drefn archebu electronig yn lle'r drefn bapur. Dylai hynny wella effeithlonrwydd y trefniadau.

2.8.15 Holiwyd ynglŷn ag unrhyw newidiadau sydd ar y gweill ym Mharc Padarn. Nodwyd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned fod trafodaethau angen cael eu cynnal gan ychwanegu y bydd rhaid edrych ar ddarpariaeth parciau gwledig yn y tymor hir oherwydd y sefyllfa ariannol.

**2.8.16 Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod, ac am eu hatebion parod. Roedd aelodau'r Gweithgor yn fodlon fod gan yr Adran Economi a Chymuned drefniadau priodol i ddelio â'r materion oedd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.**

## 2.9 Diogelwch Glinfyrddau

2.9.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Mae angen sefydlu trefniant sydd am wella'r rheolaeth dros y glinfyrddau sydd yn cael eu dyroddi gan y Gwasanaeth TG. Byddai yn briodol i'r trefniant yma fod yn gam cychwynnol ar gyfer sefydlu trefn gorfforaethol ar gyfer rheoli pob ased y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i staff ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau.*
*Dros y blynyddoedd, nid yw'r Gwasanaeth TG wedi bod mewn sefyllfa i allu diweddaru eu cofnodion am ddefnyddwyr a lleoliad glinfyrddau ac erbyn hyn mae nifer na ellir rhoi cyfrif amdanynt. Nid oes modd datgan os yw hyn wedi arwain at gyfaddawd diogelwch data gan nad oes modd sefydlu beth yw cynnwys disgiau'r dyfeisiau yma. Fodd bynnag, mae'n sicr nad yw'n briodol i'r sefyllfa barhau. Mae'n rhesymol awgrymu bod tebygolrwydd cryf fod y diffyg o sefydlu cyfrifoldeb dros reoli glinfyrddau wedi iddynt gael eu dyroddi i ddefnyddwyr gan y Gwasanaeth TG yn arwain at golledion ariannol lle nad oes modd rhoi cyfrif am y dyfeisiau ond ni welwyd tystiolaeth bendant o hynny yn ystod cynnal gwaith maes yr archwiliad yma.*
*Mae angen dynodi cyfrifoldebau swyddogol am y glinfyrddau sydd yn cael eu dyroddi i ddefnyddwyr ac mae'r dyletswyddau ac atebolrwydd yn sgîl hynny angen ei wneud yn glir.*
*Mae angen i ddefnyddwyr gael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o'r disgwyliadau sydd arnynt mewn perthynas â'r defnydd o linfyrddau o safbwynt diogelwch.*
*Mae'r delweddau safonol sydd yn cael eu gosod gan y Gwasanaeth TG ar linfyrddau ar hyn o bryd yn sicrhau fod y disgiau wedi eu hamgryptio a gyda rheolaethau diogelwch eraill fel wal dân a meddalwedd gwrth-firws. Mae hyn yn lleihau'r risgiau diogelwch mewn perthynas â'r glinfyrddau yma.*
*Ar adeg yr archwiliad yma, mae proses o drosglwyddo pob dyfais cleient i system weithredol fydd yn parhau i gael cefnogaeth a chyweiriadau priodol yn unol â gofynion safonau diogelwch. Wedi cyflawni'r broses yma fe fyddai yn briodol i sefydlu trefn fyddai yn atal cysylltiadau llwyddiannus at ddata ac adnoddau'r rhwydwaith i unrhyw ddyfais cleient sydd heb system weithredol briodol.*

2.9.2 Croesawyd Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth, i'r cyfarfod.

2.9.3 Dywedodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod trafodaethau gyda'u cynnal gyda'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth yn ystod y gwaith, a thra fod yr archwiliad yma yn canolbwyntio ar ddiogelwch gliniaduron yn benodol, cytunwyd fod trafodaeth i'w gael ynglŷn â diogelwch yr holl asedau sy'n cael eu rhoi i swyddogion y Cyngor (e.e. ffonau, allweddi, cardiau adnabod ayb).

2.9.4 Dywedodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth ei fod am adrodd i'r Gweithgor lle'r ydym ar hyn o bryd, a lle mae'n dymuno bod. Adroddodd ei fod yn hyderus am y drefn sydd yn ei le pan mae ased cyfrifiaduron newydd yn dod i mewn i'r Cyngor erbyn hyn. Pan mae ased yn dod i mewn caiff ei sganio gyda'r rhif cyfresol yn cael ei nodi mewn cronfa ddata bwrpasol sy'n cynnwys manylion yr asedau a ddefnyddir. Er enghraifft, rhoddwyd sicrwydd i aelodau petai iPad yn mynd ar goll bydd modd – cyn belled nad yw'r batri wedi rhedeg allan – ei ddarganfod a dinistrio'r wybodaeth sydd arno.

2.9.5 Yr hyn sy'n digwydd yn ymarferol, fodd bynnag, ydi fod unigolyn sy'n gadael swydd yn trosglwyddo'r ased i berson arall. Petai'r person yma yn gadael cyflogaeth y Cyngor, nid oes trywydd i arddangos ymhle mae'r ased.

2.9.6 Fel rhan o drosglwyddo cyfrifiaduron y Cyngor i fod yn defnyddio Windows 7 fel system weithredol yn hytrach na Windows XP, caiff meddalwedd bwrpasol ei ychwanegu ar y cyfrifiadur sy'n creu cronfa ddata i ddangos ymhle mae'r cyfrifiadur. Petai gliniadur ddim wedi cysylltu gyda'r rhwydwaith ers peth amser gellir adnabod hynny. Serch hynny, mae modd dweud rŵan os nad yw cyfrifiadur wedi cysylltu â'r rhwydwaith. Hefyd, mae meddalwedd o fewn Windows 7 yn golygu y byddai gliniadur yn ddiwerth petai'n syrthio i'r dwylo anghywir.

2.9.7 Y prif wendid hyd yn hyn ym maes tracio asedau cyfrifiadurol yw diffyg adnodd i wneud y gwaith. Fodd bynnag, mae swydd Peiriannydd Diogelwch wedi ei hysbysebu ar hyn o bryd, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Ebrill. Mae rhaglen waith eang gyda'r swydd – dim ond un rhan o'r swydd fydd y gwaith yma. Ar ôl diwedd Gorffennaf bydd y gwaith o gymharu gwybodaeth yn digwydd. Bydd rhaglen waith bryd hynny, ond nid yw'r wybodaeth ddigon aeddfed ar hyn o bryd.

**2.9.8 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr am ei gyfraniad, ac am esbonio'r sefyllfa a materion technegol mewn modd agored a syml. Yn sgil y drafodaeth, roedd y Gweithgor yn awyddus i wneud yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor Archwilio:**

1. **Fod gwaith yn cael ei gomisiynu ar yr holl asedau sy'n cael eu dyrannu i swyddogion, nid cyfarpar technoleg gwybodaeth yn unig.**
2. **Dylai adrannau wynebu'r gost o adnewyddu eitemau sydd wedi mynd ar goll – ni ddylid talu am yr eitemau hyn o'r gronfa adnewyddu.**
3. **Fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn amlygu faint o arian sydd wedi ei arbed i'r Cyngor wrth brynu llechen iPad i aelodau a symud i ffwrdd o ddarparu dogfennaeth bapur.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **6 MAI 2014** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2014** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2014 hyd at 31 Mawrth 2014.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 30 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 3 |
| Adolygiadau Grant | 2 |
| Archwiliadau Dilyniant | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 1 |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion | Addysg | Adnoddau | C | Atodiad 2 |
| Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 3 |
| GwE | Addysg | GwE | A | Atodiad 4 |
| Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion | Addysg | Ysgolion | C | Atodiad 5 |
| Gweithio mewn Partneriaethau | Corfforaethol | | A | Atodiad 6 |
| Gwirio Mesuryddion Perfformiad | Corfforaethol | | C | Atodiad 7 |
| Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo | Corfforaethol | | C | Atodiad 8 |
| System eGaffael | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 9 |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 10 |
| Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 11 |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o Rheolaethau Allweddol y Systemau Gweinyddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 12 |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 13 |
| System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 14 |
| System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 15 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (2013-14) | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | Democratiaeth a Chyfreithiol | Cofrestru | C | Atodiad 17 |
| Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | Economi a Chymuned | Strategaeth a Datblygu | B | Atodiad 18 |
| Prosiect "Ein Treftadaeth" | Economi a Chymuned | Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer | B | Atodiad 19 |
| Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | Gofal Cwsmer | Cynllunio Argyfwng | B | Atodiad 20 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Ar draws yr adran | B | Atodiad 21 |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 22 |
| Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 23 |
| Gangiau Cymunedol | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 24 |
| Taliadau i Gwmnïoedd Tacsi | Rheoleiddio | Amgylchedd | B | Atodiad 25 |
| Safonau Masnach | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | B | Atodiad 26 |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B | Atodiad 27 |
| Hyfforddi Aelodau | Strategol a Gwella | Democratiaeth | B | Atodiad 28 |
| Trefniadau Rheoli Prosiectau | Strategol a Gwella | Perfformiad a Chraffu | B | Atodiad 29 |
| Trefniadau Hawlio Goramser | Trawsadrannol | | C | Atodiad 30 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- ***Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr*** (Cyllid). Adolygwyd y drefn o fewn sampl o gyflogwyr y gronfa bensiwn er mwyn cael sicrwydd fod eu cyfraniadau yn gywir ac yn adlewyrchu gofynion y cynllun. Nid oedd yr archwiliad y tro yma yn edrych ar y tri awdurdod unedol sy'n rhan o'r cynllun, ond yn hytrach ar sampl o gyflogwyr llai o faint. Ar sail y profion a gynhaliwyd, roedd modd cael sicrwydd fod trefniadau yn briodol ymysg y cyflogwyr yma, er fod rhai gwendidau yn bodoli.
- ***Rheoli Contractau – Academi Hwylio*** (Economi a Chymuned). Roedd cytundeb adeiladu'r Academi Hwylio wedi eu gosod yn agos i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er hyn, roedd modd i Archwilio Mewnol gynnal profion i gael sicrwydd fod trefniadau priodol yn eu lle megis cofrestr risg a chynllun prosiect. Gwelwyd fod rhain wedi eu llunio; bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal yn ystod 2014/15.
- ***Gwasanaeth Cynllunio - Mesurydd Perfformiad CT02A*** (Rheoleiddio). Cynhaliwyd yr archwiliad yma ar gais Panel Cyflawni yr Aelod Cabinet perthnasol, er mwyn cael adolygiad annibynnol i sefydlu'r rhesymau dros yr amser a gymerir i ddod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio mawr. Gwelwyd fod y rhesymau yn amrywio rhwng ceisiadau unigol, ond fod y penderfyniadau yn cael eu gwneud gyflymaf pan mae asiant yr ymgeiswyr yn ymgysylltu â swyddogion cynllunio. Yn dilyn trafodaeth rhwng y Pennaeth Rheoleiddio a'r Uwch Reolwr perthnasol, bydd archwiliad pellach, gyda sampl mwy o faint, yn cael ei gynnal yn 2014/15.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Cronfa SMAP *(Strategol a Gwella)*
- Cronfa Atal Troseddu Ieuenctid *(Strategol a Gwella)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Siopau Gwynedd | Gofal Cwsmer | Cyswllt Cwsmer | **Anfoddhaol** |
| Rheoli Newid i Systemau TG | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**

Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Gwiriadau DBS Staff

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014**

Defnydd o Cetis / CALMS
Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch
Polisi Buddiannau Swyddogion
Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)
Taliadau Uniongyrchol
Diogelu Data – Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau
Tocynnau Teithio Rhad

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2014**

Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion
Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion
Gwirio Mesuryddion Perfformiad
Porthladdoedd
Y Drefn Gwynion Corfforaethol
Parciau Gwledig
Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2014**

Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau
Trefniadau Hawlio Goramser
Diogelwch Glinfyrddau

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ebrill 2014.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion *(Addysg)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Meysydd Chwarae *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas *(Rheoleiddio)*
- Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2014 i 31 Mawrth 2014, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

## ASESIADAU RISG IECHYD A DIOGELWCH MEWN YSGOLION
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Penaethiaid, Athrawon, Staff Ategol a Llywodraethwyr Ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros sicrhau bod risgiau wedi eu hadnabod a bod camau priodol wedi ei cymryd i'w lliniaru. Yn ogystal â sicrhau bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr holl feysydd disgwyliedig sy'n ymwneud ag ysgolion.

Cwmpas yr Archwiliad
Dewiswyd sampl o ysgolion uwchradd i'w harchwilio yn ogystal â sampl o ysgolion cynradd yng Ngwynedd ar gyfer yr archwiliad.

Ymweld â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau bod risgiau wedi eu hadnabod a bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynhyrchu ar eu cyfer.

Dewiswyd cyfanswm o 2 ysgol uwchradd a 9 ysgol gynradd. Roedd yr ysgolion cynradd yn cynrychioli un ysgol gynradd fychan, un o faint canolig ac un ysgol cynradd fawr o bob un o'r tair ardal.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod angen sefydlu trefn ymarferol ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddiant yn y maes asesiadau risg ac iechyd a diogelwch i Benaethiaid/Cydgysylltwyr Iechyd a Diogelwch ysgolion yn ogystal â gweddill staff yr ysgolion. Gwelwyd hefyd bod angen sicrhau fod yr asesiadau risg priodol yn bodoli ymhob ysgol a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu pan fo unrhyw newid arwyddocaol i'r risg.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau pan fo'r polisïau iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu eu bod yn cael eu mabwysiadu yn syth gan y corff llywodraethol a bod cofnod o'r broses yn cael ei wneud yng nghofnodion cyfarfod y corff llywodraethol.**

- **Dylai bod ymgynghoriad rhwng y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Adran Addysg i drafod y gofynion hyfforddi i weld ba fath o hyfforddiant fyddai orau ar gyfer hyfforddi Penaethiaid a staff ysgolion yn y maes asesiadau risg ac iechyd a diogelwch. Byddai yn syniad cysylltu ag ysgolion Gwynedd hefyd i gael barn y Penaethiaid ar y mater. Unwaith mae'r math o hyfforddiant wedi ei gytuno arno yna fe ddylid paratoi pecyn gwybodaeth addas ar gyfer hyfforddi Penaethiaid a staff ysgolion.**

- **Dylid ail atgoffa'r ysgolion o'r linc sydd yn bodoli ar y cylchlythyr wythnosol sydd yn manylu ar yr asesiadau risg a ddylai fodoli yn yr ysgolion.**

- **Dylid sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n gyflawn gyda'r sgôr risg cychwynnol a'r sgôr risg gweddilliol yn cael eu cofnodi ar yr asesiad pob amser.**

# GRANT EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION A'R GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad yw sicrhau bod strategaeth gytunedig rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a bod yr arian grant yn cael ei ddefnyddio i fodloni'r amcanion yma. Sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle i fonitro gwariant a thargedau'r strategaeth a sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gydag amodau a thelerau'r grant.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio bod cytundeb arwyddedig rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru gyda strategaeth, amodau a thelerau'r grantiau, a bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau a thelerau yma. Gwirio bod yr arian grant yn cael ei ddefnyddio i fodloni amcanion disgwyliedig y grantiau, a gwirio bod y trefniadau monitro gwariant a thargedau cytunedig y grantiau yn ddigonol. Ymweld â sampl o ysgolion gyda'r archwiliad Grant Amddifadedd Disgyblion, gan wirio eu bod yn gwario'r arian grant yn unol â blaenoriaethau'r grant, gyda tystiolaeth ddigonol mewn lle i gyfiawnhau'r gwariant.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gan y Cyngor strategaeth a chynlluniau penodol mewn lle ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2012-13, a bod cytundeb arwyddedig rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru gyda'r grantiau, gyda strategaeth mewn lle ar gyfer 2012-13. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd dogfennau cefnogol a thystiolaeth wedi cael eu cadw er mwyn cefnogi'r ffigyrau allbynnau'r grantiau a gyflwynodd y Cyngor i Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13. Yn ogystal, gwelwyd nad yw holl ddogfennaeth berthnasol y grantiau ar gyfer 2012-13 ym mherchenogaeth Adran Addysg, ac nad oedd trefniadau digonol mewn lle i gadw dogfennau'r grantiau am y cyfnodau cadw a bennwyd gan Llywodraeth Cymru yn yr amodau a thelerau.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Ar gyfer grantiau o'r fath yn y dyfodol, dylid sicrhau fod trefniadau yn cael eu sefydlu er mwyn cadw dogfennau cefnogol a thystiolaeth ar ffeil i gefnogi'r ffigyrau a chanlyniadau perfformiad ac allbynnau sy'n cael eu cyflwyno i'r corff ariannol yn unol â'r hyn sy'n ofynnol.**

- **Dylid trosglwyddo dogfennau'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion 2012-13 a'r Grant Amddifadedd Disgyblion sydd ym mherchenogaeth Cynnal yn bresennol i'r Adran Addysg, gan restru pa ddogfennau sydd wedi cael eu derbyn, a rhestru'r dogfennau nid oes modd dod o hyd iddynt.**

## GWEINYDDU GRANTIAU A BENTHYCIADAU MYFYRWYR
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod y rheolaethau mewnol disgwyliedig yn bodoli yn y modd mae ceisiadau am grantiau a benthyciadau myfyrwyr yn cael eu gweinyddu a bod cydymffurfiaeth gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio sampl o geisiadau perthnasol ar gyfer blwyddyn addysgol 2013/14 gan wirio cywirdeb y ffurflenni cais, cywirdeb mewnbynnu, asesu a chymeradwyo'r ceisiadau yn ogystal â thriniaeth dogfennau cyfrinachol a gweinyddiaeth y system 'Portal'.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw ei bod yn ofyniad gan yr 'Audit Guidance for Administration of Student Finance 2013/14 i'r Awdurdod wneud % o wiriadau ychwanegol ar rai meysydd, er bod y gwiriadau yn cael eu gwneud ni chedwir cofnod ohonynt pob amser fel tystiolaeth. Hefyd mae angen sefydlu trefn briodol o fewn yr Awdurdod ar gyfer cadw'r ffeiliau gyda'i gilydd am y cyfnod penodol pan fydd y gwaith yn ymwneud ag asesu cymhwystra myfyrwyr i gael cymorth yn trosglwyddo i swyddfeydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yng Nghyffordd Llandudno ym mis Ebrill 2015.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau ei bod yn bosibl dod o hyd i'r rhestr gwiriadau a wneir rhag ofn i achos godi yn y dyfodol lle mae Llywodraeth Cymru eisiau tystiolaeth o'r gwiriadau a wnaethpwyd.**

- **Dylid cadw cofnod o enw a dyddiad y darparwyr gofal plant a gysylltir â hwy fel tystiolaeth bod gwiriadau yn cael eu gwneud.**

- **Dylid gwneud trefniadau i drosglwyddo yr holl ffeiliau yn fis Ebrill 2015 i man diogel, yn ddelfrydol i'r un man, fel ei bod yn hygyrch cael mynediad iddynt.**

- **Dylid ystyried newid yr hawl i osod defnyddwyr newydd ar y system o'r Cymhorthydd Gweinyddol i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau.**

**GWE**
**Addysg**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaeth gorfforaethol briodol yn bodoli gan y Gwasanaeth a bod Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod lletyol yn cydymffurfio â'r gofynion.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio'r agweddau canlynol:

- Llywodraethu Corfforaethol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Trefniadau DBS priodol ar staff;
- Trefniadau Cyflogaeth gywir yn bodoli.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod Llywodraethu Corfforaethol dda yn bodoli gan y Gwasanaeth yn ogystal â rheolaeth ariannol briodol mewn lle. Deëllir fod polisïau'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn cael eu hadolygu gan GwE, Adran Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd a'r Undebau ac mae tipyn o waith dal yn parhau i'w wneud cyn y bydd y gwaith wedi ei gwblhau.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn GwE gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Er hynny, fe hoffai'r archwiliwr gyflwyno'r argymhellion canlynol:**

- **Dylid parhau gyda'r gwaith adolygu'r polisiau er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.**

- **Dylid stampio anfonebau gyda'r dyddiad y derbynnir hwy yn y swyddfeydd.**

# YSTADEGAU A CHYFRIFIADAU YSGOLION
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad yw sicrhau fod proses ddigonol ar gyfer derbyn ystadegau a chyfrifiadau gan ysgolion yn bodoli, a bod ysgolion yn cyflwyno gwybodaeth yn gyflawn, cywir ac yn amserol. Sicrhau bod trefniadau digonol ar gyfer cofrestru disgyblion newydd ar system SIMS, a phresenoldeb disgyblion yn ddyddiol mewn ysgolion, a bod addasiadau i gyllidebau ysgolion yn dilyn gwaharddiadau parhaol yn cael eu cwblhau'n gywir.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o ysgolion gan wirio fod cyfarwyddiadau wedi cael eu dosbarthu iddynt o sut i gasglu ystadegau a chyfrifiadau, a gwirio bod yr ysgolion wedi cyflwyno'r ystadegau a chyfrifiadau yn gyflawn, cywir ac yn amserol yn ôl y trefniadau. Gwirio fod dogfennau cefnogol yn cyfiawnhau'r ystadegau a chyfrifiadau a gyflwynwyd eu rhoi gan ysgolion neu fod esboniad rhesymol dros anghysondebau. Gwirio fod y trefniadau cofrestru disgyblion ar system SIMS a phresenoldeb disgyblion yn bodoli, a'u fod yn cael eu dilyn yn gywir gan ein sampl o ysgolion. Dethol sampl o waharddiadau parhaol gan wirio eu bod wedi cael eu hadrodd i'r Uned Cyllid Datblygu yn rheolaidd, gydag addasiadau i gyllidebau'r ysgolion wedi eu cwblhau'n gywir.

Dewiswyd sampl o 4 Ysgol yng Ngwynedd i'w harchwilio.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod trefniadau penodol a ffurflenni perthnasol mewn lle er mwyn casglu ffigyrau ystadegau a chyfrifiadau gan ysgolion yn flynyddol, gyda chanllawiau yn cael ei dosbarthu i'r ysgolion i'w harwain trwy'r broses. Fodd bynnag, wrth archwilio sampl o ysgolion, adnabuwyd achlysuron lle gwnaethpwyd camgymeriadau gan ysgolion gyda'r ffigyrau ystadegau a chyfrifiadau a gyflwynwyd, gydag anghysondebau yn ymddangos rhwng y ffigyrau ystadegau a chofrestr disgyblion yr ysgol. Canlyniad hyn oedd bod ffigyrau ystadegau a chyfrifiadau anghywir wedi eu cyflwyno i'r Adran Addysg gan yr ysgolion. Gwelwyd fod addasiadau i gyllidebau ysgolion yn dilyn gwaharddiadau parhaol wedi cael eu cyfrifo'n gywir. Gwelwyd hefyd nad oedd rhai ysgolion yn ein sampl gyda chofrestriad cyfredol gyda'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth.

### Barn yr Archwiliad

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa ysgolion o'r pwysigrwydd o gyflwyno ffigyrau cywir yn eu hystadegau a chyfrifiadau yn flynyddol ym mis Medi, drwy ail wirio'r ffigyrau a'u cymharu â ffigyrau cofrestr presenoldeb yr ysgol, cyn eu cyflwyno i'r Adran Addysg er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno'r ffigyrau cywir bob tro.**

- **Dylid atgoffa ysgolion o'r angen i hysbysu'r Adran Addysg ar unwaith o unrhyw anghysondebau neu gamgymeriadau sy'n cael eu hadnabod ar eu ffurflenni ystadegau a chyfrifiadau, ar ôl iddynt eu cyflwyno i'r Adran Addysg.**

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETHAU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol cadarn sy'n lliniaru'r risgiau sy'n bodoli i'r Cyngor wrth fod yn gysylltiedig â phartneriaethau megis Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd, Partneriaeth Economaidd Gwynedd a Phartneriaeth Tai Lleol.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwiriwyd y rheolaethau mewnol oedd yn bodoli o fewn y tair partneriaeth a casglwyd tystiolaeth yn ymgorffori'r cyfnod ariannol 2012/13 a 2013/14.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd, Partneriaeth Economaidd Gwynedd a Phartneriaeth Tai Lleol yn nhermau sail resymegol i'r partneriaethau, pa werth mae'r partneriaethau yn ychwanegu, trefniadau Llywodraethu, rheoli perfformiad, rheolaeth ariannol, rheolaeth risg, trefniadau terfynu a gwasanaethu'r cyhoedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau llywodraethu Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd, Partneriaeth Economaidd Gwynedd a'r Bartneriaeth Tai Lleol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# GWIRIO MESURYDDION PERFFORMIAD
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb mesuryddion perfformiad holl adrannau'r Cyngor drwy ddethol sampl o fesuryddion a gwirio bod papurau gwaith ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall yn bodoli i gefnogi'r canlyniad. Yn ogystal, bydd yr archwiliad yn gwirio bod herio digonol ar y mesuryddion o fewn yr adran, gan y rheolwyr sydd â pherchnogaeth dros y mesurydd a'r Swyddogion Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd i sicrhau bod y mesurydd yn berthnasol i bwrpas yr adran, bod yr uchelgais yn realistig, a bod y fasged o fesuryddion yn adlewyrchu darlun cywir a theg o'r maes dan sylw.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb mesuryddion perfformiad holl adrannau'r Cyngor drwy ddethol sampl o drawstoriad o fesuryddion perfformiad y Cyngor, h.y. mesuryddion ar bob lefel sef Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd, Haen 1 neu Haen 2.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd yn ystod yr archwiliad bod diffygion yn bodoli yn y gyfundrefn ar gyfer mesuryddion perfformiad. Er bod gwerth mesuryddion yn cael eu hystyried cyn ei ddewis gwelwyd nad oedd pob mesurydd yn cyrraedd targedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol). Bod rhai mesuryddion yn amhriodol ac yn ansynhwyrol gan eu bod yn amherthnasol i'r cwsmer a'u bod yn cymryd amser swyddogion i adrodd arnynt.
Nid oedd gwirio digonol ar fesuryddion 'gwyrdd' yn unol â graddfa RAG, ac nid oedd perchnogion y mesuryddion wedi gorfod cyflwyno tystiolaeth i'r swyddogion perthnasol yn Strategol a Gwella i gefnogi eu perfformiad.
Yn ogystal gwelwyd bod manylion swyddogion perthnasol i'r mesuryddion yn anghyson rhwng y cardiau record a'r system Ffynnon.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Gwirio Mesuryddion Perfformiad gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau nad yw'r adnoddau - boed yn adnodd amser neu ariannol – a gymerir i gynhyrchu ystadegau neu i gasglu data yn gorbwyso unrhyw fudd sy'n deillio o'r mesurydd perfformiad.**
- **Dylid sicrhau bod pob mesurydd perfformiad yn rai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol).**
- **Dylid sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r taflenni sicrwydd ansawdd sydd wedi eu paratoi ar gyfer cyfres o fesuryddion yr Adrannau.**
- **Dylid sicrhau bod manylion y swyddogion perthnasol yn ogystal â manylion eraill yn gyfredol a chywir yn y ddwy ffynhonnell (Ffynnon a Chardiau Record).**
- **Dylid ystyried gwerth defnyddio cardiau record yn eu ffurf gyfredol i osgoi dyblygu gwaith ac i ystyried datblygu system Ffynnon fel bod yr holl wybodaeth yn cael ei gasglu a'i gofnodi unwaith yn unig.**

# RHEOLAETH ARCHEBU A THALU AM WASANAETHAU CYNNAL A CHADW EIDDO
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau a phrosesau mewn lle o fewn y Gwasanaeth Cynnal a Chadw Eiddo ar gyfer archebu a thalu am wasanaethau ar gyfer gwaith ymatebol ynghyd â'r prosesau monitro a rheoli gwariant.

Cwmpas yr Archwiliad
'Roedd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar y prosesau o amgylch archebu a thalu am wasanaeth contractwyr ar gyfer gwaith atgyweirio yn adeiladau'r Cyngor drwy'r system gyfrifiadurol sydd mewn lle. Rhoddwyd sylw i gynlluniau tymor byr y Gwasanaeth Cynnal a Chadw mewn perthynas â prosesu anfonebau drwy'r system.

Prif Ddarganfyddiadau
Mae'r system electroneg sydd mewn lle ar gyfer cynhyrchu archebion ar gyfer gwaith atgyweirio eiddo gan y Tîm Cynnal a Chadw wedi bod mewn defnydd gan y Gwasanaeth Eiddo ers cyfnod sylweddol. Yn ddiweddar, mae'r Tîm wedi bod yn destun adolygiad lliflinio prosesau gyda'r canlyniad fod nifer o reolaethau disgwyliedig traddodiadol yn cael eu diddymu. Yr egwyddor perthnasol yn y broses bresennol yw bod ymddiried yn y staff, a bod rheolwyr yn derbyn y risgiau cynhenid sydd yn sgil hynny. Ar adeg yr archwiliad, mae prosesau o sefydlu taliadau drwy'r system yn cael eu profi a disgwylir i'r broses fod yn weithredol erbyn blwyddyn ariannol 2014/15.

Nodwyd ambell fater yn deillio o brofion yr archwiliad yma y bydd angen i'r Tîm Cynnal a Chadw roi sylw iddynt. Mae angen parhau i drosglwyddo anfonebau papur i'r Gwasanaeth Taliadau oherwydd gofynion trethiant tra'n osgoi oediad sylweddol yn y broses. Mae angen sefydlu trefn o ddirprwyo'r dasg o brosesu anfonebau yn absenoldeb aelod o staff. Mae modd creu taliad ar gyfer eitem o waith sydd eisoes wedi ei gofnodi fel gwaith wedi ei gyflawni a byddai yn briodol atal hyn.

Mae angen sicrhau fod prosesau o fewn sefydliadau er mwyn atal adrodd mwy nag unwaith am yr un mater er mwyn sicrhau nad oes archebion dyblyg. Mae sgôp i addasu fymryn ar y cymalau sydd yn ymddangos ar archebion swyddogol fel fod effaith contractwyr yn peidio gweithredu yn unol â'r disgwyliadau arnynt yn cael ei wneud yn glir.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r prif argymhellion sydd angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylid addasu cofnodion y tri contractwr o fewn y system Tribal K2 sydd wedi eu hamlygu o fewn yr adroddiad yma fel bod y cyfeirnodau yn gyson â chyfeirnodau'r prif system gyfrifo er mwyn sicrhau fod modd integreiddio rhwng y ddwy system.**

- **Dylid sicrhau fod camau yn cael eu cymryd i sicrhau nad yw absenoldeb aelod o staff yn arwain at oediad yn y broses talu anfonebau, drwy sicrhau fod trefn ddirprwyo mewn lle.**

# SYSTEM eGAFFAEL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r rheolaethau mewn lle ar gyfer y system e-Gaffael.

Cwmpas yr Archwiliad
Cwmpas yr archwiliad oedd adolygu'r mesurau mewn lle ar gyfer creu ac awdurdodi archebion, ynghyd â'r mesurau talu anfonebau perthynol ag archebion sydd wedi deillio o'r system e-Gaffael. Rhoddwyd sylw hefyd i'r mesurau mewn lle i hybu'r system yn unol â chytundebau caffael.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod rheolaethau allweddol wedi eu hymgorffori yn y system e-Gaffael a phrofwyd eu bod yn weithredol ac effeithiol.
Fodd bynnag, fe ddaeth i'r amlwg fod un o'r gosodiadau goddefiant mewn lle ar gyfer gwerth gwasanaeth neu nwydd yn cael ei dderbyn yn rhoi modd i godi gwerth archeb swyddogol i swm diderfyn a hynny wrth osgoi y camau awdurdodi. Fe fyddai yn briodol i werthuso'r risg mewn perthynas â hyn a chyflwyno camau i'w reoli neu ei ddiddymu fel yn briodol.
Ar y cyfan, mae'n ymddangos fod y system e-Gaffael ond yn cael ei defnyddio ar gyfer canran isel o'r archebion y mae'r Cyngor yn eu cyflawni. Cydnabyddir fod y Tîm Caffael a'r Tîm Prosiect ar gyfer y system yn cymryd camau i geisio lledaenu'r defnydd. Mae'r archwilwyr o'r farn y dylai'r camau yma gynnwys cynllun ac amserlen i ddiddymu'r defnydd o'r broses archebu papur.
Nodwyd nad oes mesurau mewn lle i fonitro pa ddefnydd a wneir o'r system e-Gaffael, e.e. gweithredu yn unol â chytundebau caffael corfforaethol neu sicrhau fod archebion swyddogol yn cael eu hanfon yn amserol. Yn sgîl y defnydd cymharol isel sydd o'r system e-Gaffael, mae'n ymddangos nad oes dymuniad i fod yn barnu defnyddwyr y system yn ormodol rhag ofn i hynny eu hanghymell rhag ei defnyddio.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System eGaffael gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid monitro'r archebion sydd yn cael eu sefydlu ar gyfer meysydd penodol er mwyn sicrhau fod gweithredu ar y cytundebau caffael corfforaethol sydd yn cael eu sefydlu.**

- **Dylid gwerthuso'r risg mewn perthynas â defnyddio goddefiant nodiadau derbyn nwyddau (GRN) o fewn y system e-Gaffael i godi gwerth archebion swyddogol i swm ddiderfyn heb fewnbwn swyddog awdurdodi, gan ystyried cyflwyno dulliau monitro neu ddiddymu'r goddefiant yn gyfan gwbl.**

- **Pan yn ystyried y buddsoddiad adnodd sydd wedi ei roi yn yr ymgorfforiad o'r system e-Gaffael, ynghyd â'r rheolaethau y mae yn ei gynnig yn ychwanegol i'r drefn papur, dylid rhoi ystyriaeth gwirioneddol i ddiddymu'r defnydd o archebion papur yn sylweddol o fewn y Cyngor gan fynnu bod archebion yn cael eu cwblhau drwy'r system e-Gaffael os nad oes rheswm dilys pam na ellir gwneud hynny.**

# SYSTEM TALIADAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."***

Caiff y system Taliadau ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad oedd i sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer prosesu, gweithredu a chysoni taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn adolygu sampl o daliadau a wnaethpwyd i gredydwyr y Cyngor yn ystod 2013/14.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer prosesu a gweithredu taliadau. Gwelwyd fod prosesau ynghyd â'r defnydd o systemau cyfrifiadurol mewn lle er mwyn sicrhau bod anfonebau'n cael eu prosesu'n briodol a thaliadau cywir yn cael eu gwneud. Yn ogystal gwelwyd bod defnydd o swyddogaeth sydd yn adnabod dyblygiadau mewn manylion anfonebau ac yn eu hamlygu i'w hadolygu.

Gwelwyd bod mesurau atal twyll wedi eu hymgorffori yn y prosesau taliadau, gan sicrhau fod rolau wedi eu diffinio, a hawliau wedi eu gosod yn seiliedig ar hynny gan orfodi gwahaniad dyletswyddau rhwng y sawl sydd yn awdurdodi anfonebau, mewnbynnu data, goruchwylio'r mewnbwn, awdurdodi taliadau, a chysoni'r balansau. Gwelwyd bod gwiriadau priodol wrth sefydlu gwybodaeth am gredydwyr newydd, a bod gwiriadau priodol ar geisiadau i newid data sefydlog credydwyr yn cael eu cynnal cyn gweithredu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn briodol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y ffurf newydd ar gyfer casglu llofnodion yn haws i'w gadw'n gyfredol. Yn ogystal dylid sicrhau bod y ffurf newydd yn gwneud y dasg o gadarnhau llofnodion yn llai llafurus, er mwyn sicrhau bod llai o bwyslais ar wirio o gôf ar gyfer y swyddogion taliadau.**

- **Dylid ceisio sicrhau bod cyfrifon hefo manylion dyblyg yn cael eu creu mewn amgylchiadau ble mae'n gwbl angenrheidiol yn unig.**

- **Dylir sicrhau bod cyfrifon cyflenwyr yn cael eu gwirio yn gyfnodol, gan archifo / anablu cyfrifon sydd ddim yn gyfredol.**

## CYSONI BANC - ADOLYGIAD O REOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff trefniant cysoni banc ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle ac wedi ei ddogfennu ar gyfer cynnal cysoniadau banc yn effeithiol, amserol, yn gyflawn a chywir a sicrhau bod trefniadau monitro digonol mewn lle.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer cynnal cysoniadau banc a sicrhau bod canllawiau ar gael i swyddogion. Dethol sampl o gysoniadau banc yn 2013/14 a sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda'r gweithdrefnau. Sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu hadolygu a'u harwyddo'n rheolaidd.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yn y broses cysoni gydag ail swyddog wedi gwirio'r cysoniadau o fewn y sampl a ddetholwyd. Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad fe wnaeth y swyddog oedd yn cynnal gwiriadau o'r gwaith cysoni o fewn yr Uned Gyfrifeg Ganolog adael ei swydd a gwelwyd un achlysur lle nad yw y gwiriadau wedi eu cynnal, sef mis Ionawr 2014. Mae'n hanfodol sicrhau bod ail swyddog yn gwirio'r cysoniadau fel y gellid sicrhau cywirdeb a lliniaru'r risg o unrhyw gamgymeriadau sy'n hanfodol ar gyfer darparu cyfrifon y Cyngor. Bellach, mae'r cyfrifoldeb o gynnal y gwiriadau yn syrthio i gwmpas dyletswyddau'r Prif Gyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth.

### <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CRONFA BENSIWN GWYNEDD - ADOLYGIAD O RHEOLAETHAU ALLWEDDOL Y SYSTEMAU GWEINYDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol,"***

Er fod gweinyddiaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd dibynnu'n helaeth ar systemau ariannol pwysig y Cyngor, caiff systemau gweinyddol y Gronfa eu hystyried yn "system ariannol pwysig" ynddi ei hunain yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Dethol sampl o daliadau ar gyfer 2013/14 a sicrhau eu bod wedi eu rhyddhau'n briodol yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu a'u harwyddo'n briodol. Ni fwriedir archwilio'r elfen buddsoddi.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae gwendid mewn derbyn gwybodaeth ddigonol gan y Cyflogwyr. Gwelwyd bod yr Uned Bensiynau wedi ymdrechu i dderbyn gwybodaeth megis statws (h.y. os ydynt yn actif neu'n ohiriedig) cyfranogwyr ond nad yw'r Cyflogwyr bob amser yn ymateb yn brydlon, os o gwbl. Mae'r Uned Bensiynau wedi derbyn caniatâd i brynu system sy'n gallu echdynnu gwybodaeth terfynu swyddogion o systemau cyflogau mae'r Cyflogwyr yn ei ddefnyddio a'i anfon mewn modd diogel i Uned Bensiynau Cyngor Gwynedd yn fisol. Ar adeg yr archwiliad 'roedd dau awdurdod sy'n aelod o'r Gronfa Bensiwn wedi nodi nad oeddynt yn dymuno bod yn rhan o'r cynllun yma. Mae diffyg derbyn y wybodaeth yma'n wendid wrth weinyddu'r Gronfa Bensiwn, ond gan fod dibyniaeth ar awdurdodau eraill, mae'n wendid sydd tu hwnt i reolaeth Uned Bensiynau Cyngor Gwynedd.

Yr unig wendid a welwyd fel arall oedd diffyg trefniant ffurfiol i wirio'r cyfrif dros dro a bod y blychau anghywir yn cael eu llenwi ar y ffurflen TR27b.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o Rheolaethau Allweddol y Systemau Gweinyddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Er hynny, fe hoffai'r archwiliwr gyflwyno'r argymhelliad canlynol:**

- **Dylid bod trefn swyddogol ar gyfer adolygu'r cyfrif dros dro.**

# SYSTEM GYFLOGAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."***

Caiff y system gyflogau ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

'Roedd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y system gyflogau ar gyfer y flwyddyn 2013/14.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn nhrefniadau'r Uned Gyflogau wrth weinyddu'r cyflogresi. Y prif wendid a welwyd oedd bod dim llofnod i'w weld yn erbyn y rhan "Payrun Reports Checked by" yn y ddogfen "Payroll Checking Document" ar dri achlysur a dim llofnod yn y rhan "Journal Checked by" ar un achlysur. Mae llofnod yn y rhannau yma'n dangos bod y gwiriadau perthnasol wedi eu cwblhau cyn rhyddhau'r cyflogresi i'w talu.

Yn ogystal â'r uchod, gwelwyd bod y Cynllun Parhad Gwasanaeth a'r Llawlyfr Cyflogau bellach wedi dyddio ac nad ydynt wedi eu diweddaru ers peth amser. Ers hynny, mae newidiadau megis amserlen talu newydd yn ogystal â newidiadau mewn cyflogresi. Byddai sicrhau bod y rhain yn gyfredol yn fodd o sicrhau na fydd unrhyw ddryswch ynglŷn â'r cynnwys.

## Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r Llawlyfr Cyflogau.**
- **Dylid sicrhau bod dogfennaeth priodol (Payroll Checking Document) yn cael eu llofnodi a'u dyddio i ddangos bod y gwaith gwirio perthnasol wedi ei gwblhau.**
- **Dylid diweddaru Cynllun Parhad Gwasanaeth yr Uned.**

## SYSTEM BUDD-DALIADAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Ebrill 2010 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru) wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu lle bosibl ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn mae'r protocol ar y cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan

***"Fel rhan o'u rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda'r datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol. Cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio sampl o geisiadau budd-dal i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal. Gwirio bod cysoniadau yn cael eu cynnal a bod y taliadau budd-dal yn cael eu cyfrifo a'u talu mewn modd cyriwr ac yn amserol. Asesu statws perfformiad y gwasanaeth ynghlyn â gweithredu ar geisiadau a hysbysiadau budd-dal a gwirio bod y system budd-dal yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr holl ddata yn cael ei ddiogelu'n briodol.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn y broses o weinyddu budd-daliadau gyda'r ceisiadau yn cael eu hasesu a'u prosesu'n gywir. Caiff y ceisiadau eu hasesu yn seiliedig ar risg yn unol â Polisi Gwireddu a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2012. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ynghyd â chanllawiau ar sut i weithredu ac yn derbyn diweddariadau yn amserol. Gwiriwyd sampl ar hap ar geisiadau i wirio bod y cyfrifiadau'n gywir, y gwnaethpwyd y taliadau'n amserol, a bod taliadau estynedig a cheisaidau am ôl-ddyddio yn unol â'r rheoliadau. Darganfuwyd ambell achos ble na ddylai y cais fod wedi ei ddynodi fel gwariant ôl-ddyddio, fodd bynnag, wrth ystyried o swmp o geisiadau mae'r Uned yn eu prosesu, roedd canlyniadau'r adolygiad yn galonogol. Hefyd, gwelwyd bod perfformiad yr Uned yn dda iawn wrth gymharu â chyfartaleddau Cymru a Phrydain. Rhaid pwysleisio bod llawer o bwysau ar swyddogion yr Uned Budd-daliadau yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth a'r nifer o geisiadau ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod 2013-14, ond serch hynny a heb unrhyw adnoddau ychwnaegol, mae'r Uned yn parhau i gynnal eu perfformiad heb gyfaddawdu ar ansawdd gwasanaeth.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

## SYSTEM TRETH CYNGOR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."***

Caiff y system Treth Cyngor ei ystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod cyfansymiau biliau Treth Cyngor wedi cael eu gosod yn gywir ac yn unol â'r symiau a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn yn ogystal ag awdurdodau eraill. Sicrhau fod y cyfansymiau eiddo yng Ngwynedd wedi cael eu cofnodi'n gywir ar y system ac yn cyd-fynd ag adroddiadau'r Swyddfa Brisio. Cadarnhau bod y cyfrif ariannol wedi cael ei ddiweddaru'n briodol a bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer adennill dyledion treth cyngor yn ogystal â sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a rheoli perfformiad yr Uned.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a'r gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a dosbarthu Treth Cyngor 2013-14.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gweithdrefnau a phrosesau priodol mewn lle ar gyfer yr holl reolaethau allweddol a adolygwyd ar gyfer y system trethiant lleol. Darganfuwyd bod cysoni priodol yn cael ei gynnal i sicrhau cywirdeb y biliau sydd yn cael eu creu, o ran eu nifer a'u gwerth. Gwiriwyd paramedrau'r system yn unol â gwerth y trethi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 28/02/2013 ar gyfer pob plwyf, a chafwyd hwy yn gywir. Nodwyd fod prosesau priodol ar gyfer anfon gwysion yn amserol ar gyfer adennill. Gwelwyd fod awdurdodiad priodol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, wedi ei dderbyn ar gyfer y dyledion treth a ddileuwyd hyd at adeg yr archwiliad. Darganfuwyd fod cysoni dyddiol rhwng y system trethiant lleol a'r ffynonellau eraill o'r refeniw, ynghyd â chysoniad wythnosol gyda data'r Swyddfa Brisio. Gwelwyd fod monitro misol o'r casgliad yn erbyn y targed, gyda swyddogion yn adrodd ar sail proffil chwarterol, yn unol â threfniadau monitro perfformiad corfforaethol y Cyngor. Mae wedi ei gytuno gyda'r Gwasanaeth Treth Cyngor y bydd sylw yn cael ei roi i'r trefniant mewn lle ar gyfer monitro achosion o ganiatáu eithriadau a gostyngiadau. Yn ogystal gwelwyd fod y gweithdrefn adennill angen ei ddiwygio a'i gymeradwyo ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Er hynny, fe hoffai'r archwiliwr gyflwyno'r argymhelliad canlynol:**

- **Dylid sicrhau fod y weithdrefn adennill yn cael ei gymeradwyo er mwyn cadarnhau ei statws fel dogfennaeth swyddogol.**

# SYSTEM TRETH DI-ANNEDD - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL (2013-14)
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y system Treth Di-Annedd ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod biliau Treth Di-Annedd wedi cael eu prosesu'n gywir ac yn unol â'r gwerthoedd trethiannol sydd wedi eu gosod gan y Swyddfa Brisio a bod prosesau priodol ar gyfer eu casglu, cofnodi a monitro'r taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a chofnodi Treth Di-Annedd 2013-14.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli wrth weinyddu trethi di-annedd. Y gwendid adnabuwyd yw diffyg polisi adennill swyddogol. Gwelwyd bod gweithdrefnau wedi eu llunio a derbyniwyd copi ohoni, ond nid yw wedi ei fabwysiadu'n swyddogol. Byddai mabwysiadu polisi neu weithdrefnau yn fodd o gadarnhau statws y ddogfen fel un swyddogol a'r angen i gydymffurfio â'r cynnwys.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn rheolaethau allweddol y System Treth Di-Annedd ar gyfer 2013-14 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Er hynny, fe hoffai'r archwiliwr gyflwyno'r argymhelliad canlynol:**

- **Dylid dogfennu'r gweithdrefnau ar gyfer adennill trethi busnes er mwyn cadarnhau ei statws fel dogfen swyddogol.**

# TREFNIADAU COFRESTRU GENEDIGAETHAU, PRIODASAU A MARWOLAETHAU
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau'r Gwasanaeth Cofrestru mewn perthynas â derbyn, bancio a chysoni incwm ynghyd â threfniadau'r Ganolfan Gyswllt a Siopau Gwynedd ar gyfer trefnu apwyntiadau a derbyn taliadau cardiau debyd a chredyd. Gwirio bod rheolaethau priodol yn bodoli dros y defnydd o gyfrifon imprest a bod trywydd digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw ad-daliad a wneir. Yn ogystal, adolygwyd trefniadau diogelwch y cofrestryddion, ac yn benodol rheolaeth dros dystysgrifau mewn llaw a thystysgrifau wedi eu dinistrio.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd trefniadau sydd bellach wedi eu mabwysiadu gan y Gwasanaeth Cofrestru yn ogystal â gwirio bod trefniadau priodol mewn lle yn y Ganolfan Gyswllt a Siopau Gwynedd. Gwirio llyfrau ariannol y Cofrestryddion ynghyd ag adroddiadau trafodion y Ganolfan Gyswllt, yr adroddiadau chwarterol a sicrhau bod yr incwm yn cael ei gysoni'n rheolaidd ac yn ymddangos yn gywir yn y cyfriflyfr ariannol. Adolygu ad-daliadau a wnaed a gwirio bod tystiolaeth ddigonol yn bodoli a bod y defnydd a wneir o'r cyfrifon imprest yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ystod yr archwiliad, darganfuwyd bod y cofrestryddion yn parhau i ddefnyddio'r llyfrau arian serch y mynegwyd rhai blynyddoedd yn ôl bod cynlluniau ar y gweill i symud i system electronig. Gresyn oedd gweld nad oedd unrhyw ddatblygiad yn y maes hwn ac mae llawer o wendidau rheolaethol y Gwasanaeth Cofrestru, yn arbennig o safbwynt cysoni incwm y Ganolfan Gyswllt, yn deillio o ddiffyg system weithredol ddigonol sydd gyda'r gallu i ymdopi â'r amrywiol elfennau.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod unrhyw ganllawiau/polisïau sydd mewn lle gan y gwasanaeth cofrestru yn cael eu cylchredeg o fewn y gwasanaeth.**
- **Dylid ystyried rhoi cais i sefydlu trefniant i ddisodli'r llyfrau arian megis taenlenni priodol neu ddatrysiad o fewn system Siebel.**
- **Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod incwm yn cael ei dalu i mewn yn ddiymdroi.**
- **Dylid sefydlu trefn bendant o gyflwyno adroddiadau chwarterol, gydag amserlen benodol i'r holl Gofrestryddion ei dilyn fel nad oes unrhyw gamddealltwriaeth.**
- **Dylid rhoi cyfarwyddyd i'r cofrestryddion ynglŷn â pha mor hir y dylent gadw'r tystysgrifau sydd wedi difetha.**
- **Dylid rhoi cais yn ddiymdroi ar gyfer datrysiad o fewn system Siebel.**

# PROSIECTAU CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle gan y Cyngor ar gyfer rheoli a gweinyddu prosiectau'r Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngwynedd yn unol â gofynion amodau'r cynllun, a bod y rheolaethau yma yn ddigonol i ofynion y corff ariannu.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio bod gweledigaeth glir a chytunedig ar gyfer y cynllun rhwng y corff ariannu, y Cyngor sy'n gweinyddu a rheoli prosiectau ar ran Partneriaeth Economaidd Gwynedd, ac unrhyw drydydd partïon a benodwyd i gwblhau gwaith ar brosiectau'r grant. Gwirio bod trefniadau pendant wedi cael eu sefydlu i gyfranogwyr ymgeisio am arian grant. Yn ogystal, gwirio bod trefniadau pendant wedi cael eu sefydlu i asesu a chynnig arian grant i gyfranogwyr, gan wirio bod cyfranogwyr yn cael eu gwneud yn atebol i amodau a thelerau'r grant. Gwirio fod trefniadau digonol mewn lle i fonitro perfformiad cyfranogwyr, gyda thystiolaeth ddigonol yn cael ei derbyn er mwyn chyfiawnhau rhyddhau taliadau arian grant i gyfranogwyr. Gwirio bod prosiectau'r Cynllun Datblygu Gwledig yn perfformio i'r hyn sy'n ddisgwyliedig a cytunedig gyda'r corff ariannu, gan wirio bod Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn adolygu a herio perfformiad y Cynllun. Gwirio fod y Cyngor yn cydymffurfio ag amodau a thelerau perthnasol y grant yn ogystal â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod amodau a thelerau'r grant, ac allbynnau prosiectau unigol y Cynllun Datblygu Gwledig yn gytunedig rhwng y Cyngor a'r corff ariannu. Gwelwyd fod trefniadau safonol mewn lle ar gyfer y prosiectau er mwyn i gyfranogwyr ymgeisio am gefnogaeth ac arian grant, i asesu ceisiadau cyfranogwyr am gefnogaeth ac arian grant a dethol pa gyfranogwyr oedd yn derbyn cymorth. Yn ogystal, gwelwyd fod cyfranogwyr yn cael eu gwneud yn atebol am yr arian grant. Gwelwyd fod y Cyngor yn cydymffurfio ag amodau a thelerau'r grant a bod rôl a dyletswyddau trydydd partïon mewn perthynas â'r grant yn gytunedig. Fodd bynnag, gwelwyd fod rhai o ffigyrau allbynnau'r mesuryddion perfformiad y grant wedi cael eu cyfrifo'r anghywir ac yn groes i'r canllawiau. Yn ogystal, gwelwyd nad yw rhai o ddogfennau'r cynllun yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol ym mhrosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cysylltu gyda'r Tîm Cyfathrebu CBD yn Llywodraeth Cymru o flaen llaw bob tro, cyn symud ymlaen gydag unrhyw ddigwyddiad cyhoeddusrwydd â'r Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngwynedd.**
- **Dylid ystyried cael mwy o adnoddau yn swyddfeydd yn yr Adran Economi a Chymuned er mwyn cadw ffeiliau a dogfennau personol/cyfrinachol o dan glo, gyda'r mynediad yn gyfyngedig i'r swyddogion perthnasol yn unig.**

# PROSIECT "EIN TREFTADAETH"
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle gan y Cyngor yn ei rôl arweiniol gyda prosiectau yn y cynllun 'Ein Treftadaeth' yng Ngogledd Orllewin Cymru, a bod y rheolaethau yma yn ddigonol i ofynion y corff ariannu.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio bod gweledigaeth glir a chytunedig ar gyfer y cynllun rhwng y corff ariannu, y Cyngor sy'n arwain ar y cynllun, â phartneriaethau sy'n gweithredu prosiectau o fewn y cynllun ar amodau a thelerau'r grant yn ogystal ag amcanion a chostau prosiectau. Gwirio bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar gyfer yn monitro cynnydd a gwariant prosiectau fel ei rôl arweiniol gyda'r cynllun, a bod Bwrdd Rheoli prosiect wedi cael ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn rheoli'r cynllun a datrys materion sydd wedi codi. Gwirio bod y Cyngor yn adrodd ar gynnydd y cynllun yn amserol a chywir ac yn unol ag amodau a thelerau'r grant i'r corff ariannu, gan gwblhau ceisiadau i adhawlio arian grant yn gywir, amserol ac yn unol â'r amodau a thelerau, gyda dogfennaeth gefnogol ddigonol yn bodoli i gefnogi'r ceisiadau. Gwirio bod unrhyw drydydd partïon sy'n ymwneud â'r cynllun wedi cael eu penodi drwy gydymffurfio â'r rheolau caffael perthnasol yn ogystal ag amodau a thelerau'r grant, a bod trydydd partïon yn cael eu talu yn unol â'r hyn sy'n gytunedig. Gwirio bod trefniadau'r Cyngor yn ddigonol, a bod y Cyngor yn cydymffurfio ag amodau a thelerau'r grant yn ogystal â'r Ddeddf Diogelu Data.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod cytundebau arwyddedig mewn lle rhwng y Cyngor a'r corff ariannu, gydag amodau a thelerau'r wedi eu sefydlu, ar gyfer cynlluniau "Ein Treftadaeth". Yn ogystal, gwelwyd fod cytundeb arwyddedig wedi cael ei sefydlu rhwng y Cyngor, sy'n arwain ar y cynllun, a phartneriaid yn y cynllun. Gwelwyd fod y Cyngor yn cydymffurfio ag amodau a thelerau'r grant a bod trefniadau digonol mewn lle i fonitro gwariant a cynnydd prosiectau'r cynllun. Fodd bynnag, gwelwyd fod rhai rhannau o'r ceisiadau hawlio arian grant heb eu llenwi'n gyflawn. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor yn gwirio fod y partneriaethau yn cydymffurfio a gofynion yswiriant y cynllun yn flynyddol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y Prosiect "Ein Treftadaeth" gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y tabl "Match Funding" o'r ffurflen hawlio arian grant y cynllun Ein Treftadaeth yn cael ei diweddaru ar gyfer pob cais chwarterol hawlio arian grant o hyn ymlaen.**

- **Dylid ychwanegu prawf derbyn a gwirio copïau o bolisïau yswiriant cyfredol partneriaid wrth gwblhau ymweliadau i'r partneriaid a phrosiectau'r cynllun, gan wirio fod gan bartneriaid yswiriant cyfredol a ddigonol ar gyfer risgiau'r cynllun.**

# CYNLLUNIO ARGYFWNG A PHARHAD BUSNES
## Gofal Cwsmer

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng y Cyngor wedi sefydlu cynllun argyfwng priodol sy'n cwrdd â gofynion Deddf Argyfyngau Sifil 2004.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygwyd polisïau a gweithdrefnau Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng y Cyngor ar gyfer gweithredu mewn argyfwng ynghyd â Chynlluniau Parhau Gwasanaeth adrannol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Mae trefniadau eisoes ar y gweill i sefydlu un gwasanaeth rhanbarthol i gefnogi Cynllunio Argyfwng gyda Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am gynnal y gwasanaeth. Fodd bynnag, bydd presenoldeb yn parhau o fewn Cyngor Gwynedd gyda'r cyfrifoldeb am ymgysylltu â rheolwyr, aelodau a staff y Cyngor ac yn benodol am nodi risgiau lleol i Wynedd, ynghyd â datblygu cynlluniau lleol ar gyfer parhad gwasanaeth, yn aros gyda'r Cyngor yma. Darganfuwyd bod gweithdrefnau cadarn wedi eu sefydlu gyda sawl ymarferiad wedi ei gynnal dros y ddwy flynedd diweddaf ynghyd â chynnal hyfforddiant i swyddogion. Y prif wendidau a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad oedd diffyg Cofrestr Risg Lleol ar gyfer Gwynedd; cynlluniau megis y prif Gynllun Ymateb i Argyfwng Mawr, y Cynllun Cyfathrebu mewn Argyfwng Mawr a'r Cynllun Adferiad wedi dyddio ac angen eu diweddaru yn sgil newidiadau yn strwythur rheolaethol y Cyngor; a hefyd, gwelwyd nad oedd pob Adran yn cadw eu Cynlluniau Parhad Gwasanaeth yn gyfredol nac yn eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng fel y dylent.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Penaethiaid sicrhau bod perchnogaeth o gynlluniau parhad gwasanaeth drwy sicrhau bod eu rheolwyr yn cyflwyno eu cynlluniau at sylw'r Uned Gynllunio Argyfwng yn amserol a thrwy sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cadw'n gyfredol.**
- **Dylid ystyried gwahodd busnesau lleol i drafodaethau ar hyrwyddo parhad busnes.**
- **Dylid sicrhau bod prif gyflenwyr y Gwasanaeth ynghyd a'u rhifau ffôn wedi eu cynnwys yn y Cynllun Parhad Gwasanaeth a bod y wybodaeth yn cael ei wirio yn rheolaidd.**
- **Dylid sicrhau bod manylion llawn a chyfredol unrhyw gyfarpar arbenigol angenrheidiol yn cael eu cofnodi yn y cynlluniau parhad gwasanaeth perthnasol.**
- **Dylid ystyried gynnwys manylion ynglŷn â lle cedwir offer sydd ei angen mewn argyfwng yng nghynlluniau parhad gwasanaeth yr adrannau / gwasanaethau.**
- **Dylid cynllunio i sicrhau bod modd cynhyrchu dogfennau hysbysu yn cynnwys lluniau a phrint bras neu ffurf Braille.**

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - DIOGELWCH FFEILIAU A GWYBODAETH

## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Yn dilyn archwiliad o Ddiogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth ar ffurf papur yn 2011/12, diben yr archwiliad yma yw adolygu trefniadau Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth ar ffurf electroneg.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r drefn o gadw gwybodaeth gyfrinachol a personol. Gwirio bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Ymchwilio ymhle cedwir cofnodion, ffeiliau a gwybodaeth yr Adran, pa fynediad sydd gan y swyddogion i'r ffeiliau a pa drefniant sydd ar gyfer cludo gwaith o'r swyddfeydd.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, gwelir bod enghreifftiau cryf o ymarfer da wrth weinyddu diogelwch ffeiliau a gwybodaeth electroneg yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwelir bod trefniadau cryf er mwyn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ynglŷn â diogelwch data, cyfeirnod unigryw i ffeiliau a bod cynllun argyfwng wedi ei sefydlu i reoli effaith unrhyw ddigwyddiad anrhagweledig. Fodd bynnag, gwelir bod rhai materion angen sylw pellach sef cymeradwyo canllawiau'r Gwasanaeth i gyd-fynd â Deddf Diogelu Data 1998, cytundeb ar y cysondeb o ddefnyddio'r "L drive", "K drive" ac "X drive" a chodi ymwybyddiaeth staff i ba mor hir dylid cadw gwybodaeth electroneg ac ar bapur. Dylid edrych ar y drefn o yrru dogfennau i awdurdodau allanol a sicrhau bod y dogfennau yn cael eu diogelu gyda chyfrinair ymhob achlysur pan fo hyn yn digwydd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y canllawiau sydd mewn drafft yn cael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi yn ffurfiol i holl staff y Gwasanaeth i'w mabwysiadu.**
- **Dylid dod i gytundeb ar defnydd o'r gyriannau "L ", "X" a "K" er mwyn lleihau'r risg o ddiffyg rheolaeth dros gadw data personol.**
- **Dylid symud ymlaen gyda'r trefniadau i gwrdd â nôd y Gwasanaeth i fynd yn ddi-papur i leihau'r risg o benderfyniadau anghywir yn cael eu gwneud oherwydd nad yw'r wybodaeth yn gyfredol.**
- **Dylid codi ymwybyddiaeth staff o ba hyd mae gwybodaeth angen cael ei gadw yn electroneg. Yn dilyn codi ymwybyddiaeth mae angen sicrhau fod ffeiliau / data nad yw'n gyfredol yn cael eu dinistrio.**
- **Dylid cael polisi cadw cyfredol mewn lle er mwyn i'r swyddogion cael gweithredu arno.**
- **Dylid sicrhau bod dogfennau sensitif sydd yn cael ei gyrru i awdurdodau allanol yn cael eu diogelu gyda chyfrinair ymhob achos.**

## GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID
### Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaeth fewnol briodol mewn lle wrth weinyddu'r grant a chynllun y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau a sicrhau bod gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid rheolaethau cadarn mewn lle i gyd-fynd â thelerau ac amodau'r grant Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelir bod enghreifftiau o ymarfer da o reolaeth oddi fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Fodd bynnag, gwelir bod rhai materion angen sylw pellach e.e. creu cofrestr asedau dros £1000 yn unol â thelerau ac amodau'r Grant Ymarfer Da. Hefyd dylid ystyried creu canllawiau neu bolisïau i sicrhau cyrhaeddiad Gwerth am Arian wrth weithredu allbynnau'r grant.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried creu canllawiau neu bolisïau ar gyfer gweithredu gwerth am arian yn unol â phwynt 4 yn Nhelerau ac Amodau'r Grant Ymarfer Da Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.**
- **Dylid cadw rhestr asedau i sicrhau bod cofnod ar gael ar gyfer yswiriant. Yn unol â thelerau ac amodau'r Grant Ymarfer Da am 2013/14, pwynt 13, "purchase of equipment" dylid anfon y rhestr yma i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw gytundeb rhwng y Cyngor a 3ydd barti yn ddigonol i amddiffyn y Cyngor petai dadl yn codi trwy ofyn i'r Uned Cyfreithiol am eu barn.**

# TREFNIADAU DROS NOS YNG NGHARTREFI'R CYNGOR
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau dros nos yng nghartrefi'r Cyngor yn cwrdd ag anghenion y cleientiaid, cydymffurfio â gofynion statudol Iechyd a Diogelwch a bod y staff nos yn cyflawni eu dyletswyddau i safon dderbyniol.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r trefniadau ar gyfer gofal nos y cleientiaid, trefniadau ar gyfer cyflawni dyletswyddau nos ac ymwybyddiaeth y staff o'u dyletswyddau.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn rhai meysydd o drefniadau staff nos yng Nghartrefi'r Cyngor e.e. amserlenni staff nos. Fodd bynnag, ymddengys bod angen monitro mwy cadarn ar y staff a darparu canllawiau clir ar eu cyfer. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod canllawiau pwrpasol yn cael eu cynhyrchu a'u cymeradwyo ar gyfer staff nos yn y Cartrefi i sicrhau bod cysondeb ar draws y Cyngor.**
- **Dylid ystyried cael trefniadau ffurfiol i hyfforddiant staff nos ar gyfer diweddaru eu cymwysterau h.y. bod hyfforddiant yn cael ei gynnal ar adeg benodol o'r flwyddyn lle gall staff nos yr holl gartrefi fynychu.**
- **Dylid sicrhau bod dyletswyddau staff nos yn cael ei nodi lawr yn ffurfiol a bod yna gofnod eu bod yn cael eu cwblhau bob nos.**
- **Dylid sicrhau bod yna drefn cofnodi neu arwyddo bod y Rheolwyr yn gwirio bod y gwaith a dyletswyddau dyddiol yn cael eu cwblhau yn llawn.**
- **Dylid cael canllawiau clir mewn lle i nodi pa mor aml dylid gwirio ar breswylwyr yn ystod y nos fel bod cysondeb ar draws y Cartrefi.**
- **Dylid cael rhestr gwirio ffurfiol ar gyfer preswylwyr yn y Cartrefi sydd yn sicrhau eu bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd yn ystod y nos. Dylai'r rhestr yma gael ei adolygu gan y Rheolwr Cartref.**
- **Mae angen sicrhau bod trefniadau cadarn ynglŷn â throsglwyddo unrhyw wybodaeth angenrheidiol i'r staff dydd. Dylid cael taflen trosglwyddo mewn lle ar gyfer pob Cartref i gael cysondeb.**
- **Dylid sicrhau bod tystiolaeth gadarn i gefnogi bod y Rheolwyr yn monitro staff nos e.e. cadw cofnod neu daflen pryd maent yn ymweld ar staff yn annisgwyl a beth sydd yn cael ei fonitro.**

# GANGIAU CYMUNEDOL
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ynghlwm i drefniadau rheoli gwaith y Gangiau Cymunedol.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu trefniadau cynllunio a monitro rhaglenni gwaith y Gangiau Cymunedol, yn ogystal â sicrhau bod rheolaethau priodol ynghlwm i'r drefn o archebu a thalu am nwyddau a gweinyddu taflenni amser gweithwyr.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r sicrwydd bod trefniadau rheoli gwaith y Gangiau Cymunedol yn briodol ac yn addas i natur ac amcanion y gwaith. Gwelwyd ym mhob ardal bod rhaglen yn cael ei lunio ar gyfer ymweliadau amserol y gangiau i gymunedau a bod rhestr waith pellach yn cael eu llunio ar gyfer pob ymweliad, ond gwelwyd fod y drefn ychydig yn wahanol ar gyfer y gangiau gwahanol ac nid oes ffurflenni safonedig a chyson yn cael eu defnyddio rhwng y gangiau. Gwelwyd fod y drefn o archebu a thalu am nwyddau yn briodol yn gyffredinol, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gangiau Cymunedol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod taflenni amser yn cael eu hardystio i'w talu gan reolwyr cyllideb.**

- **Wrth dalu am nwyddau trethadwy, dylid sicrhau bod yr anfoneb derbyniwyd yn anfoneb TAW.**

## TALIADAU I GWMNIOEDD TACSI
### Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewnol penodol yn bodoli wrth weinyddu taliadau i gwmnïoedd tacsi.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r broses o weinyddu mathau gwahanol o gytundebau ar gyfer taliadau sydd yn ymwneud â chwmnïau tacsis a sicrhau cydymffurfiaeth gyda pholisi ac amodau cytundebau.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, gwelir bod enghreifftiau cryf o ymarfer da wrth weinyddu taliadau i gwmnïoedd tacsis a rhieni. Gwelir bod trefniadau cryf ynglŷn ag ardystio ceisiadau, prosesu ceisiadau ar ffurflenni C1 (cais misol am daliad Cludiant Ysgol) a system monitro mewn lle. Fodd bynnag, gwelir bod rhai materion angen sylw pellach sef trefniadau herio gwybodaeth ar y ffurflenni C1, tystiolaeth gadarn i gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau, a threfniadau i ddelio a cheisiadau hwyr. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Taliadau i Gwmnioedd Tacsi gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen sicrhau bod y manyldeb yn y broses tendro mor fanwl gywir ag sy'n bosib er mwyn ceisio lleihau'r newidiadau drwy ffurflenni C3 i'r lleiaf bosib yn dilyn gosod y gontract.**

- **Er mwyn cryfhau y rheolaethau mewnol am bob contract werth llai na £50,000 mae'n ofynnol cydymffurfio â pwynt 27.2 o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau sydd yn nodi "Rhaid i gontractau dan £50,000 mewn gwerth fod wedi eu gwneud trwy ddefnyddio:- (i) archeb bwrcasu a gynhyrchwyd gan system bwrcasu electronig y Cyngor, neu (ii) fod ar ffurflen archebu swyddogol a gynhyrchir gan y Cyngor, neu (iii) contract ysgrifenedig."**

- **Dylid sicrhau bod yna drefn gadarn ar gyfer herio'r wybodaeth ar y ceisiadau misol sydd yn cael ei dderbyn gan y cwmniau tacsi a'r rhieni i sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn gywir.**

- **Dylid ystyried cael trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer delio gyda cheisiadau hwyr gan y rhieni a'r cwmnïau tacsis.**

# SAFONAU MASNACH
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ynghlwm i raglen archwilio a threfniadau gweinyddol y Gwasanaeth Safonau Masnach.

Cwmpas yr Archwiliad
Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r drefn o sefydlu a chyflawni rhaglen archwilio Safonau Masnach yn ogystal â gwirio trefniadau gweinyddol y Gwasanaeth.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith y gellir rhoi sicrwydd bod trefniadau Safonau Masnach o archwilio busnesau yn ddigonol. Fodd bynnag, mae'r lleihad mewn adnoddau a'r symudiad graddol tuag at 'intelligence led enforcement' yn arwain at lai o waith rhagweithiol, sydd nid yn unig yn gyfle i gynnal archwiliadau penodol ond hefyd yn gyfle i gynnal perthynas cydweithiol rhwng y busnes a swyddogion Safonau Masnach, ble yn ei absenoldeb gall gynyddu'r risg o fusnesau yn gweithredu yn groes i'r safonau disgwyliedig.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Safonau Masnach gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Safonau Masnach ymchwilio i weld sut mae Gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor e.e. trethi, yn adnabod holl fusnesau Gwynedd ac os oes modd rhannu'r wybodaeth yma gyda nhw.**
- **Dylid hawlio arian a wariwyd drwy'r cyfrif imprest yn fisol neu pan fydd 2/3 o lefel yr imprest wedi ei wario, sy'n sicrhau bod digon o arian wrth gefn tra bod cais yn cael ei brosesu am ad-daliad.**
- **Dylid nodi yr elfen TAW ar geisiadau imprest os oes nwyddau trethadwy wedi ei brynu a bod derbynneb ddilys wedi ei dderbyn.**
- **Dylid ail-ymweld â Pholisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd 2011 er mwyn cywiro y gwallau yn y cynnwys.**
- **Dylid ystyried defnyddioldeb rhoi rhifau ffôn y Cyngor ar y wefan, ac ystyried ychwanegu rhif ffôn 'Cyngor ar Bopeth' yn ogystal.**
- **Dylid parhau i geisio adnabod cyfleon i gyflawni arbedion ond sy'n cadw'r rheolaethau mewnol.**

# GORFODAETH A THRAFNIDIAETH
## Rheoleiddio

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Archwilio prosesau gwaith y swyddogaeth Gofal Stryd o fewn Gorfodaeth a Thrafnidiaeth er mwyn sicrhau bod trefn gadarn ar gyfer taliadau a dyletswyddau'r swyddogion.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Archwilio trefn anfonebau ac incwm yr adran a sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau New Road and Street Works Act 1991 ar gyfer costau gwasanaethau. Archwilio prosesau gwaith y swyddogion a'u bod yn cyflawni eu dyletswyddau.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli mewn rhai trefniadau'r Uned. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu'n groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor a'r ddeddf "New Road and Street Works Act 1991". Gwelir hyn yn y trefniadau anfonebu am archwiliadau sampl. Darganfuwyd bod gwendidau ychwanegol yn nhrefniadau monitro llif gwaith y swyddogion a diffyg polisi cadw yr Uned.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gorfodaeth a Thrafnidiaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod pob cais am anfoneb wedi ei ardystio gan swyddog awdurdodedig.**
- **Mae'r ddeddf yn mynegi bod angen anfonebu yn chwarterol am archwiliadau sampl ac yn fisol am bob gwasanaeth arall. Dylid sicrhau bod yr anfonebau yn cael eu codi yn unol â chanllawiau'r ddeddf er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn derbyn yr arian yn amserol.**
- **Dylid gwirio bod yr hysbysebion cosb benodol yn cael eu creu gan swyddogion cymwys a chreu system monitro awdurdod y swyddogion sy'n eu creu.**
- **Dylid ystyried cadw'r taliad am drwydded sydd yn cael ei wrthod tuag at gostau gweinyddol y Cyngor gan mai'r un gwaith fydd yn cael ei wneud i'w asesu.**
- **Dylid gwirio'r wybodaeth mewnbynnwyd i'r system dyddiadur staff er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac i sicrhau bod y swyddogion yn cwblhau eu dyletswyddau. Dylid cadw cofnod o'r gwiriadau er mwyn sicrhau bod trawstoriad teg o'r dyddiaduron yn cael ei gwirio.**
- **Dylid sicrhau bod y cofnodion ar y ddwy system yn cysoni, bod y gwyliau blynyddol yn cael ei gofnodi yn erbyn y dyddiad cywir a bod yr oriau mor agos ac sydd bosib ar gyfer y dyddiaduron staff drwy ei gofnodi i'r chwarter awr agosaf.**
- **Dylid creu polisi cadw gwybodaeth yn unol â'r ddeddf er mwyn cysoni a chadarnhau'r drefn cadw gwybodaeth yn yr adran.**

# HYFFORDDI AELODAU
## Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod yr Adran Strategol a Gwella ynghyd â'r Uned Dysgu a Datblygu wedi sefydlu trefn briodol ar gyfer anghenion hyfforddi a datblygiad aelodau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r drefn datblygu a hyfforddi aelodau i sicrhau eu bod yn gweithredu gwasanaeth o safon briodol, yn ateb i anghenion yr aelodau ac yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn nhrefniadau hyfforddi Aelodau gyda threfniadau ar y gweill i sefydlu trefniant i gynnal Adolygiadau Anghenion Personol. Yn sgîl hyn, mae cyflwyniadau byr wedi eu cyflwyno yn y fforymau ardal i hysbysu'r Aelodau o'r argaeledd ac i esbonio'r cyd-destun a chyfleoedd mewn perthynas â hwy. Fodd bynnag, ar adeg yr archwiliad, nid oedd yr un Aelod wedi ymateb i'r cynnig a roddwyd drwy'r bwletin electronig Rhaeadr i ddatgan barn neu ddiddordeb mewn derbyn adolygiad o'r fath. Mae'r Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 yn nodi bod yr adolygiadau yma'n gyfle i edrych ar y cyfleoedd hyfforddi a datblygu mae'r Aelod wedi ei dderbyn yn ystod y flwyddyn. Gall hyn fod yn ddelfrydol i edrych ar anghenion Aelodau unigol a fydd wedyn yn gallu cyfrannu tuag at raglen dysgu a hyfforddi perthnasol.

Yn ogystal â hyn, gwelwyd nad oes cyfeiriad tuag at hyfforddiant mae'r Aelodau penodol wedi ei dderbyn o fewn y Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Hyfforddi Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Sicrhau bod trefniadau lleoli hyfforddiant yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau'r Cyngor gan gynnwys ystyriaethau am gostau teithio ac amser swyddogion.**
- **Dylid sicrhau bod y Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu o fewn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyfforddiant mae'r Aelodau penodol wedi ei dderbyn.**

# TREFNIADAU RHEOLI PROSIECTAU
## Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod prosiectau'r Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â Chyfundrefn Rheoli Prosiectau Cyngor Gwynedd sydd yn seiliedig ar egwyddorion methodoleg PRINCE2 (PRojects IN a Controlled Environment 2) ynghyd â gwirio bod aelodau'r Bwrdd Prosiect yn darparu arweiniad cadarn ar gyfer y prosiect ar bob cam.

Cwmpas yr Archwiliad
Detholwyd trawsdoriad o brosiectau gan gynnwys prosiectau a reolir gan reolwyr prosiect y tu allan i'r pŵl rheolwyr prosiect i wirio bod prosesau a threfniadau pendant wedi eu sefydlu ar gyfer y prosiectau a bod y ddogfennaeth angenrheidiol yn cael ei ddarparu drwy gydol "bywyd" y prosiect. Adolygu dogfennaeth y prosiect i sicrhau bod yr elfennau cychwyn, canol a chau prosiect wedi'u rheoli'n ofalus a bod y Bwrdd Prosiect yn adolygu'n gyson gynnydd y prosiect ac yn darparu arweinyddiaeth gref i'r prosiect.

Prif Ddarganfyddiadau
Detholwyd prosiectau ar gyfer yr archwiliad hwn oedd yn cael eu rheoli gan reolwyr prosiect o'r pŵl canolog yn ogystal â rheolwyr prosiect sydd yn gyflogedig o fewn yr adran berthynol. Gwelwyd bod y ddogfennaeth prosiect a gwblheir yn unol â gofynion Llawlyfr Rheoli Prosiectau Cyngor Gwynedd. Gwelwyd bod y ddogfennaeth ar y cyfan yn cael ei baratoi i safon uchel a bod y cynlluniau prosiect a baratoir yn gynhwysfawr.
Mae'r Llawlyfr Rheoli Prosiectau yn y broses o gael ei ddiweddaru i gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli newid. Croesawir bod hyn yn derbyn sylw ond gwelwyd yn ogystal bod y fersiwn drafft yn diffinio prosiectau fel rhai, bach, canolig a mawr ac yn rhoi'r opsiwn i reolwr prosiect baratoi dogfennaeth neu beidio ar gyfer prosiectau canolig a bach. Ym marn yr archwiliwr, mae hyn yn dargyfeirio o egwyddorion craidd rheoli prosiect - ac os nad oes angen dogfennaeth prosiect, yna gellir datgan nad yw yn brosiect. Mae'n hanfodol nad yw'r term "prosiect" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dyletswyddau dydd i ddydd.
Roedd rhai o'r prosiectau a ddetholwyd yn brosiectau mawr ac yn cwmpasu aelodau o awdurdodau neu sefydliadau eraill. Hefyd, gwelwyd bod cwmpas un o'r prosiectau yn enfawr - ym marn yr archwiliwr, teimlir y dylai bod y prosiect hwn wedi ei dorri i lawr i brosiectau llai i'w gwneud yn haws i'w reoli a hefyd ar gyfer cynhyrchu a chyflawni deilliannau.
Yn gyffredinol, gwelwyd bod y rheolwyr prosiect oedd wedi eu lleoli o fewn yr adran berthynol yn derbyn llawer mwy o gefnogaeth gan arweinydd y prosiect a'r bwrdd prosiect na rheolwyr prosiect y pŵl. Gwelwyd bod ambell uwch reolwr/bennaeth yn arweinydd ar sawl prosiect ac efallai bod hyn yn arwain at lawer o bwysau a'r methiant i gyflawni popeth fel y dymunir.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trefniadau Rheoli Prosiectau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried yn ddwys beth yw diffiniad o brosiect - derbynnir bod maint prosiectau yn amrywio'n sylweddol, ond fodd bynnag maint y prosiect, dylai bod strwythur bendant a chlir ar gyfer ei reoli. Mae'n hanfodol cofio bod elfen uwch o risg mewn perthynas â phrosiectau sydd yn cyfiawnhau'r angen am drefniadau cadarn.**

# TREFNIADAU HAWLIO GORAMSER
## Trawsadrannol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheolaethol cadarn yn bodoli i sicrhau bod taliadau goramser wedi eu hawdurdodi a'u hardystio gan swyddog awdurdodedig, eu bod yn rhesymol a bod trefniadau priodol dros brosesu amserlenni goramser a gwirio cyn belled a bo modd, bod defnydd effeithiol a phriodol o adnoddau dynol ynghyd â chymharu gwir wariant goramser gyda'r gyllideb.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o amserlenni goramser a dalwyd ym mlwyddyn ariannol 2012-13. Detholwyd y sampl ar hap yn seiliedig ar echdyniad o drafodion o'r cyfriflyfr ariannol lle cyfeirebwyd y gwariant i gôd cyfrif "0149" ac ar gyfer y gweithwyr a delir ar gyflogres B00001 yn unig. Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o daliadau goramser cyflogresi eraill.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod y mwyafrif o oramser a weithir wedi ei gynllunio o flaen llaw a bod yr amgylchiadau wedi eu hystyried yn ddwys, gan ymchwilio i bosibiliadau eraill cyn bod cynlluniau goramser yn cael eu hawdurdodi. Oherwydd natur rhai gwasanaethau, mae'n anochel bod goramser heb ei gynllunio yn digwydd pan fo argyfwng yn codi. Fe welwyd bod pob gwasanaeth a ddetholwyd yn yr archwiliad yn defnyddio ffurflen bwrpasol ar gyfer cofnodi goramser, er bod gwahaniaeth yng ngwedd a gosodiad y ffurflenni a ddefnyddir.

Fe welwyd tystiolaeth o brosesau da o gadarnhau priodoldeb ceisiadau, gan gynnwys gwiriadau o groes gyfeirio ynghyd ag ymarfer da ar gyfer gwiriadau rhifyddol gan nifer o wasanaethau. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd hyn yn gyson ar draws y Cyngor a gwelwyd enghreifftiau ble nad oedd gwiriadau yn cael eu cynnal o gwbl ar y ceisiadau a gyflwynwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y trefniadau hawlio goramser gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod ceisiadau yn cael eu hawdurdodi a'u hardystio gan sicrhau bod gwahaniad yn y dyletswyddau hyn. Yn ogystal dylai gwasanaethau sicrhau bod ceisiadau am oramser yn cael eu hardystio am daliad gan swyddog sydd yn meddu cyfrifoldeb dros y gyllideb neu bod yr hawl wedi ei ddirprwyo iddynt gan ddeilydd y gyllideb.**

- **Dylai rheolwyr sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau am daliad goramser, a dylid sicrhau bod ceisiadau goramser yn cael eu cyflwyno'n amserol.**

- **Dylai'r gwasanaethau sicrhau bod cyllideb cyflogau yn cael ei monitro yn gyson er mwyn adnabod unrhyw orwariant ar oramser.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **6 MAI 2014** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2013/14** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel "Pennaeth Archwilio Mewnol" Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig, mae gofyn arnaf i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.2 Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2013/14 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

## 2. SICRWYDD CYFFREDINOL

**2.1 Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2013/14, yn fy marn i mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

### 2.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi gwneud cynnydd dda yn ystod 2013/14 i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.
- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

## 3. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

3.1 Roedd 105 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2013/14. Cafodd 99 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2014, sy'n cynrychioli **94.29%** o'r cynllun. At bwrpasau'r dangosydd yma caiff aseiniad ei gyfrif fel bod wedi ei gwblhau lle mae adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu, os nad oes adroddiad/memorandwm, yr aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno.

3.2 Mae'r perfformiad yma yn cymharu â perfformiad 2012/13 o 95.00%, yn erbyn targed o 95%.

3.3 Yr archwiliadau o gynllun 2013/14 lle nad oedd yr adroddiad wedi ei ryddhau'n derfynol erbyn 31 Mawrth 2014 oedd:

- ***Prosiect Strategol Gwella Iechyd.*** Oherwydd yr angen i flaenoriaethu gwaith arall, ni ddechreuwyd ar y gwaith yma yn ystod y flwyddyn. Ar ôl ystyried risgiau wrth baratoi cynllun archwilio 2014/15, nid yw'r archwiliad yma wedi cael ei symud ymlaen i'r flwyddyn newydd.

- ***Trydydd Sector - Grantiau, Comisiynu a Chontractau.*** Oherwydd yr angen i flaenoriaethu gwaith arall, ni ddechreuwyd ar y gwaith yma yn ystod y flwyddyn. Ar ôl ystyried risgiau wrth baratoi cynllun archwilio 2014/15, nid yw'r archwiliad yma wedi cael ei symud ymlaen i'r flwyddyn newydd.

- ***Teleofal.*** Oherwydd yr angen i flaenoriaethu gwaith arall, ni ddechreuwyd ar y gwaith yma yn ystod y flwyddyn. Bydd yn cael ei gynnal yn ystod 2014/15.

- ***Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd.*** Roedd y gwaith maes ar y gweill ar 31 Mawrth. Mae'r archwiliad wedi ei drosglwyddo i gynllun 2014/15.

- ***Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion.*** Roedd yr adroddiad drafft wedi ei ryddhau ar 31 Mawrth. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei ryddhau yn ystod chwarter cyntaf 2014/15.

- ***Strategaeth Caffael****.* Mae'r archwiliad wedi llithro i 2014/15. Bydd hyn yn caniatáu i waith pellach gael ei wneud ar y Strategaeth Caffael cyn y bydd mewnbwn gan Archwilio Mewnol.

3.4 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2013/14 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

3.5 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

| | |
|---|---|
| Barn "A" | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| Barn "B" | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

3.6 Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

3.7 O'r 99 aseiniad yng nghynllun archwilio 2013/14 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| **Categori Barn** | **Nifer archwiliadau** |
|---|---:|
| A | 16 |
| B | 45 |
| C | 22 |
| CH | 0 |
| Dim Categori | 16 |
| **Cyfanswm** | **99** |

3.8 O'r adroddiadau perthnasol i gynllun archwilio 2013/14 a dderbyniodd gategori Barn 'A' i 'CH', derbyniodd 73.5% ohonynt farn 'A' neu 'B', sydd yn is na'r ffigwr cyfatebol o 82.9% yn 2012/13.

3.9 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad farn CH.

3.10 Caiff crynodeb gweithredol adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleient a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn crynodeb byr a ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.

3.11 Mae'r tabl isod yn dangos pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2013/14. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad / Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio** |
|---|:---:|
| 1 Ebrill 2013 – 30 Mehefin 2013 | 18 Gorffennaf 2013 |
| 1 Gorffennaf 2013 – 31 Awst 2013 | 26 Medi 2013 |
| 1 Medi 2013 – 31 Hydref 2013 | 3 Rhagfyr 2013 |
| 1 Tachwedd 2013 – 31 Ionawr 2014 | 20 Chwefror 2014 |
| 1 Chwefror 2014 – 31 Mawrth 2014 | 6 Mai 2014 |

**Addasiadau i'r Cynllun**

3.12 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

3.13 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 10 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014. Derbyniodd un o'r archwiliadau yma yn unig farn "Anfoddhaol" ac un arall farn "Annerbyniol". Derbyniodd y gweddill farn "Derbyniol" neu "Rhagorol". Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

3.14 Cam pwysig ymlaen yn ystod 2013/14 i gryfhau trefniadau'r Cyngor wrth ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol oedd cyflwyno'r Gweithgor Gwella Rheolaethau. Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn trafod materion o wendidau rheolaidd sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Mae pob adroddiad archwiliad sydd wedi cael barn 'C' neu 'CH' yn cael sylw yno, gyda swyddogion yn cael eu gwahodd yno i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa.

3.15 Yn ogystal â'r materion oedd yn codi o'r adroddiadau archwilio, rhoddodd y Gweithgor sylw i faes lle roedd adolygiad cyllideb chwarterol y Pennaeth Cyllid yn rhagweld gorwariant sylweddol.

3.16 Bu cyfle i'r Gweithgor hefyd i gyfrannu i ymateb y Cyngor i ymgynghoriad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 4. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

### Staffio a chymwysterau

4.1 Yn ystod 2013/14 roedd gan Uwch Reolwr Archwilio a Risg a dau arweinydd tîm gymhwyster CIPFA llawn, ac roedd gan yr Uwch Archwiliwr (TG) gymhwyster archwilio cyfrifiaduron ISACA.

### Y defnydd a wneir o adnoddau staff

4.2 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos cynnydd yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd, o **1,571** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013 i **1,706** diwrnod am yr un cyfnod yn 2013/14, cynnydd o 135 diwrnod. Y prif reswm am hyn oedd llai o swyddi gwag, am gyfnodau byrrach, yn 2013/14.

- Roedd cynnydd yn nifer y dyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio yn cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol, o **39** yn 2012/13 i **56** yn 2013/14.

- Bu cynnydd yn nifer y dyddiau a ddefnyddiwyd i gyflenwi archwiliadau i'n cwsmeriaid allanol, o **137** yn 2012/13 i **163** yn 2013/14. Nid oes disgwyl i'r nifer dyddiau fod mor uchel â hyn yn 2014/15.

- O safbwynt hyfforddiant proffesiynol, roedd un Archwiliwr yn astudio am gymhwyster ACCA.

- Bu lleihad yn y nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch, o **55** yn 2012/13 i **29** yn 2013/14. Mae hwn yn ffigwr hynod o isel; mor isel mewn gwirionedd nes y bydd yn anodd cadw'r lefel yma pob blwyddyn.

- Treuliwyd **23** diwrnod yn ystod 2013/14 ar yr Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol. Mae hwn yn ddarn o waith sylweddol o fewn yr uned i adolygu, cryfhau a gweithredu ei bolisi dargadw gwybodaeth, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd yr wybodaeth a gedwir yn ogystal â chryfhau'r rheolaethau i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.

## 5. PERFFORMIAD ARCHWILIO

5.1 Roedd canlyniadau mesuryddion perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2013/14 fel a ganlyn:

| Disgrifiad mesurydd | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais 2013/14 | Canlyniadau 2013/14 |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu cau | 95% | 95% | **94.29%** |
| Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau) | 70.9% | 74.3% | **74.81%** |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 10 | 10 | **10** |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd | 1,571 | 1,650 | **1,707** |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol | 137 | 80 | **163** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn "B" neu well (mesur corfforaethol) | 82.9% | 70% | **75.0%**[1] |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 88.9% | 90% | **80.0%** |

5.2 Llwyddwyd i gwrdd â'r targedau i gyd, ar wahân i:

***Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau***. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y perfformiad ychydig iawn yn fyr o'r targed (6 allan o 105 archwiliad heb eu cwblhau'n derfynol), er gwaethaf ymdrechion caled a chydwybodol staff Archwilio Mewnol.

***Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol)***. Mesur corfforaethol yw hwn, ond roedd ymateb rhai gwasanaethau i'r archwiliadau yn siomedig, ac mae trefniadau i roi sylw i hyn trwy'r Pwyllgor Archwilio a'r Gweithgor Gwella Rheolaethau. Er hyn, mae 4 allan o bob 5 wedi gweithredu'n unol â'r disgwyl.

[1] Mae hwn yn mesur barn yr archwiliadau terfynol a ryddhawyd rhwng 1/4/2013 a 31/3/2014, gan gynnwys rhai archwiliadau o gynllun 2012/13 yn ogystal â 2013/14. Dyma'r rheswm dros y gwahaniaeth rhwng y canlyniad yma a'r hyn adroddir ym mharagraff 3.8, sy'n adrodd ar waith o gynllun 2013/14 yn unig.

## 6. CYDYMFFURFIAETH Â'R CÔD YMARFER

6.1 Hyd at ac yn cynnwys eu hadolygiad yn 2013, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur Archwilio Mewnol yn erbyn gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol 2006. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru yng Ngorffennaf 2012 fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau y Côd Ymarfer.

6.2 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli'r Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.

6.3 Roedd adroddiad y archwiliwr allanol yn nodi fod Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau canlynol:

- Cwmpas yr Archwiliad Mewnol
- Moeseg i Archwilwyr Mewnol
- Pwyllgor Archwilio
- Cydberthnasau
- Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- Strategaeth Archwilio a Chynllunio
- Cyflawni gwaith archwilio
- Gofal Proffesiynol Priodol
- Cyflwyno Adroddiadau
- Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd

Adroddwyd mai yn rhannol yr oedd Archwilio Mewnol yn cyrraedd y safon Annibyniaeth, oherwydd cyfrifoldebau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ychwanegol i Archwilio Mewnol. Mae hyn yn fater sydd wedi ei adrodd i a'i nodi gan y Pwyllgor Archwilio ers sawl blwyddyn.

6.4 Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion.

## 7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2014/15

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2014/15 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2014. Mae'r cynllun diweddaraf wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

7.2 Mesuryddion perfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer 2014/15 yw:

| Disgrifiad mesurydd | Uchelgais 2014/15 |
|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu cau | 95% |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 10 |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd | 1,506 |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol | 50 |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn "B" neu well (mesur corfforaethol) | 70% |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 90% |

## 8. ARGYMHELLIAD

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2013/14.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2013/14

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Rheolaeth Archebu a Thalu am Wasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo | **C** | 6 Mai 2014 |
| Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch | **C** | 26 Medi 2013 |
| Gweithio mewn Partneriaethau | **A** | 6 Mai 2014 |
| Y Drefn Gwynion Corfforaethol | **C** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | **Dim Categori** | 26 Medi 2013 |
| Cyfrannu i Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu | **Dim Categori** | |
| Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo | **B** | 20 Chwefror 2014 |
| Polisi Buddiannau Swyddogion | **C** | 26 Medi 2013 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **Dim Categori** | |
| Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau | **C** | 20 Chwefror 2014 |
| Rheolaeth Gyllidebol | **A** | 20 Chwefror 2014 |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **Dim Categori** | |
| Gwirio Mesuryddion Perfformiad | **C** | 6 Mai 2014 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Blas am Oes | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **B** | 26 Medi 2013 |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | **C** | 6 Mai 2014 |
| Grant Gofal Plant Tu Allan i Oriau Ysgol | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | **C** | 6 Mai 2014 |
| Grant Refeniw 2012-13 y Cyfnod Sylfaen | **A** | 26 Medi 2013 |
| Grant Addysg ôl-16 | **Dim Categori** | 20 Chwefror 2014 |
| Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion | **B** | 6 Mai 2014 |
| Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | **B** | 6 Mai 2014 |
| **GwE** | | |
| GwE | **A** | 6 Mai 2014 |
| **Ysgolion** | | |
| Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion | **C** | 6 Mai 2014 |
| Addysg - Adolygiad Cyllidebol | **Dim Categori** | |
| Ysgolion Uwchradd - Rheolaeth Gyllidebol | **B** | 26 Medi 2013 |
| Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth | **B** | 26 Medi 2013 |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Hyfforddiant** | | |
| Defnydd o Cetis - CALMS | **C** | 20 Chwefror 2014 |
| **CYLLID** | | |
| **Ariannol** | | |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 18 Gorffennaf 2013 |
| System eGaffael | **B** | 6 Mai 2014 |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 6 Mai 2014 |
| **Cyfrifeg** | | |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 18 Gorffennaf 2013 |
| Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | **A** | 6 Mai 2014 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 6 Mai 2014 |
| Cyflogau - Tâl Mamolaeth | **B** | 20 Chwefror 2014 |
| Trefniadau Hawlio Goramser | **C** | 6 Mai 2014 |
| Cyflogau - Blaendaliadau | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o Rheolaethau Allweddol y Systemau Gweinyddol | **A** | 6 Mai 2014 |
| Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr | **Dim Categori** | 6 Mai 2014 |
| **Refeniw** | | |
| Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg | **A** | 20 Chwefror 2014 |
| System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 6 Mai 2014 |
| Grant Gwisg Ysgol | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau | **B** | 20 Chwefror 2014 |
| System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 6 Mai 2014 |
| Ad-daliadau Treth Di-Annedd | **A** | 18 Gorffennaf 2013 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol (2012-13) | **A** | 18 Gorffennaf 2013 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (2013-14) | **A** | 6 Mai 2014 |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | **C** | 6 Mai 2014 |
| **Swyddog Monitro** | | |
| Rhoddion a Lletygarwch Aelodau | **B** | 26 Medi 2013 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| Swyddogion Adfywio Bro | **B** | 20 Chwefror 2014 |
| Cymunedau'n Gyntaf - Estyniad i'r Hen Gynllun | **B** | 18 Gorffennaf 2013 |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| Neuadd Buddug, Y Bala | **B** | 18 Gorffennaf 2013 |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| Porthladdoedd | **C** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Parciau Gwledig | **C** | 20 Chwefror 2014 |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| Rheoli Contractau - Academi Hwylio | **Dim Categori** | 6 Mai 2014 |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| Grantiau Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw a Hyfforddiant | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | **B** | 6 Mai 2014 |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | |
| Prosiect "Ein Treftadaeth" | **B** | 6 Mai 2014 |
| Canolfannau Croeso | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | **B** | 6 Mai 2014 |
| **Cyswllt Cwsmer** | | |
| Siopau Gwynedd | **C** | 18 Gorffennaf 2013 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Llyfrgelloedd** | | |
| Gwynedd Ni | **A** | 20 Chwefror 2014 |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| Logio a Monitro | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Diogelwch Glinfyrddau | **C** | 20 Chwefror 2014 |
| Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol) | **B** | 26 Medi 2013 |
| Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion) | **C** | 26 Medi 2013 |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân | **B** | 26 Medi 2013 |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol | **B** | 26 Medi 2013 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | **B** | 6 Mai 2014 |
| "Canlyniadau'n Cyfrif" | **Dim Categori** | 3 Rhagfyr 2013 |
| **Cefnogi Pobl** | | |
| Cefnogi Pobl | **A** | 18 Gorffennaf 2013 |
| Grant Cefnogi Pobl 2012-13 | **Dim Categori** | 20 Chwefror 2014 |
| **Hamdden** | | |
| Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | **C** | 18 Gorffennaf 2013 |
| Grantiau Cyngor Chwaraeon | **Dim Categori** | 20 Chwefror 2014 |
| **Oedolion** | | |
| Taliadau Uniongyrchol | **C** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Cynlluniau Galluogi | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | **B** | 6 Mai 2014 |
| Plant - Lwfansau Ôl-ofal | **B** | 20 Chwefror 2014 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor | **C** | 6 Mai 2014 |
| Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | **C** | 20 Chwefror 2014 |
| **Tai Sector Breifat** | | |
| Pobl Hŷn - Anabl - Addasiadau i Gartrefi | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| Prosiect Tai Gwag nôl i ddefnydd | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| Rheolaeth Fflyd - Cytundeb Cydrannau NWPP | **Dim Categori** | 20 Chwefror 2014 |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| Gweithiau Adenilladwy | **A** | 20 Chwefror 2014 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Gangiau Cymunedol | **B** | 6 Mai 2014 |
| Gwastraff Masnachol | **B** | 20 Chwefror 2014 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| Taliadau i Gwmnioedd Tacsi | **B** | 6 Mai 2014 |
| **Cynllunio** | | |
| Gwasanaeth Cynllunio - Mesurydd Perfformiad CT02A | **Dim Categori** | 6 Mai 2014 |
| Y Gwasanaeth Cynllunio | **B** | 26 Medi 2013 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth | **B** | 20 Chwefror 2014 |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Safonau Masnach | **B** | 6 Mai 2014 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | **B** | 6 Mai 2014 |
| Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol | **Dim Categori** | 20 Chwefror 2014 |
| Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau | **C** | 3 Rhagfyr 2013 |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Cyfeiriad Strategol** | | |
| Cronfa SMAP | **Dim Categori** | 6 Mai 2014 |
| Cronfa Atal Troseddu Ieuenctid | **Dim Categori** | 6 Mai 2014 |
| **Democratiaeth** | | |
| Hyfforddi Aelodau | **B** | 6 Mai 2014 |
| Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd | **B** | 3 Rhagfyr 2013 |
| **Perfformiad a Chraffu** | | |
| Trefniadau Rheoli Prosiectau | **B** | 6 Mai 2014 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2013/14:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **16** |
| B | **45** |
| C | **22** |
| Dim Categori | **16** |
| **Cyfanswm** | **99** |

## Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| **2,814** | **Cyfanswm Dyddiau** | **2,945** |
| 404 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 446 |
| **2,410** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **2,499** |
| | Llai: | |
| 22 | Gwyliau Arbennig | 16 |
| 55 | Salwch | 29 |
| 22 | Hyfforddiant Proffesiynol | 10 |
| 94 | Hyfforddiant Swydd | 76 |
| **2,217** | **Dyddiau ar gael** | **2,368** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 15 | Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) | 18 |
| 6 | Apwyntiadau Meddygol | 9 |
| 34 | Cofnodi a Rheoli Amser | 34 |
| 90 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 86 |
| 2 | Cyfarfodydd-Gwaith ar y cyd a SAC | 3 |
| 4 | Cyflwyno Hyfforddiant | 10 |
| 2 | Cynnal Cyfweliadau | 5 |
| 55 | Gwaith Cefndirol | 46 |
| 62 | Gweinyddiaeth ayb. | 50 |
| 21 | Pwyllgor Archwilio | 26 |
| 137 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 116 |
| 5 | Rheoli Absenoldebau | 6 |
| 17 | Tasgau Cydweithio Gogledd Cymru | 2 |
| 6 | Trafferthion TG | 8 |
| 10 | Uwchraddio Galileo | 5 |
| 0 | Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol | 23 |
| 43 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Uwch Reolwr) | 52 |
| **1,708** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **1,869** |
| 57 | Gwaith APCE | 45 |
| 80 | Gwaith CTE | 118 |
| **1,571** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **1,706** |

## Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| 1,424 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 1,528 |
| 1 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 21 |
| 20 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 13 |
| 39 | Cynghori | 47 |
| 48 | Gwaith dilyniant | 41 |
| 39 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 56 |
| **1,571** | | **1,706** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2014/15

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Addysg** | | |
| Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | Angen adolygiad o'r trefniadau gweinyddol ac adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu | **20** |
| Cyfathrebu gydag Ysgolion | Mae ymgysylltiad effeithiol gydag ysgolion yn allweddol er mwyn i ganllawiau, cyngor ac arweiniad fod yn effeithiol | **10** |
| GwE | Angen adolygiad pellach, er mwyn adeiladu ar waith 2013/14 | **20** |
| TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | Mae angen adolygu pob rhan o'r rhwydwaith TG yn ei dro, er mwyn sicrhau gwydnwch yr holl system | **20** |
| **Cynlluniau Cyfalaf** | | |
| Ysgol newydd Hafod Lon | Contract cyfalaf sy'n fuddsoddiad ariannol sylweddol | **15** |
| **Grantiau** | | |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | Grant o faint sylweddol. Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **8** |
| Grant Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **15** |
| Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaenol | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **8** |
| **Ysgolion** | | |
| Arlwyaeth | Mae rhai ysgolion wedi sefydlu eu trefniadau eu hunain - angen gwirio cydymffurfiaeth â safonau. | **20** |
| Ysgolion Cynradd - Modelu'r Gweithlu | Adolygiad o'r trefniadau, yn dilyn trafodaeth gydag uwch reolwyr yr Adran Addysg | **20** |
| Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | Cynhalwyd archwiliad o lywodraethu ysgolion cynradd yn 2013/14, felly archwilir trefniadau ysgolion uwchradd yn 2014/15 | **20** |
| **Adnoddau Dynol** | | |
| Iechyd a Diogelwch - Gweithio'n Unig | Gall hwn gyflwyno risgiau sylweddol i rai staff. Mae angen gwirio fod pob adran yn cymryd y mater yma o ddifrif. | **10** |
| System Swyddi - diogelwch a chywirdeb | Mae hwn yn system newydd sydd wedi ei ddatblygu. Oherwydd natur yr wybodaeth sydd wedi ei gadw arno, dylid cael gwiriad annibynnol o'i drefniadau gweinyddol. | **25** |
| Trefniadau Salwch - cyfeirio i Iechyd Galwedigaethol | Caiff hwn ei adnabod fod cam pwysig i sicrhau cysondeb a'r gefnogaeth angenrheidiol i staff. | **20** |
| **Corfforaethol** | | |
| Adolygiad o Gymorth y Wladwriaeth | Mae'r mater yma wedi cael ei amlygu gan swyddogion Economi a Chymuned fel risg sydd angen sylw corfforaethol | **6** |
| Cofrestr Diogelwch Staff | Angen sicrhau cysondeb, diogelwch staff a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data | **10** |

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Cynllun Tywydd Garw | Mae'r cynllun yma wedi ei nodi yn y Cofrestr Risg Trawsadrannol fel bod yn lliniaru risg uchel. Angen gwirio ei fod yn parhau'n ddiweddar ac ymarferol | **10** |
| Defnydd o dechnoleg - astudaeth gwerth am arian | Adolygiad i ddarganfod os yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r technoleg sydd ar gael iddo i wneud arbedion effeithlonrwydd | **25** |
| Ffonau Symudol | Adnabuwyd gwendidau pan adolygwyd y maes yma ddiwethaf, felly mae hwn yn faes risg uchel. | **30** |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | Gwaith sydd i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn i ymdrin â'r risg o dwyll a llygredigaeth | **40** |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y fenter hwn sy'n cael ei redeg gan yr archwilwyr allanol | **30** |
| Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | Yn dilyn trafodaeth gydag Adnoddau Dynol, cytunwyd y byddai'n amserol cynnal adolygiad arall o'r maes yma | **15** |
| Trefniadau Diogelu | Maes o risg uchel sydd angen adolygiad blynyddol | **20** |
| Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | Mae hyfforddiant a datblygu staff yn allweddol er mwyn i'r Cyngor wireddu ei amcanion, ac felly mae angen sicrwydd fod sail resymol i unrhyw eithriadau | **15** |
| **Côd Llywodraethu** | | |
| Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | Caiff hwn ei gynnwys yn y cynllun yn flynyddol | **5** |
| Cynllun Olyniaeth a Cynllunio'r Gweithlu | Mae hwn yn rhan allweddol o waith y Cyngor werth baratoi am y dyfodol | **15** |
| Llywodraethu Corfforaethol - Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor | Mae hwn wedi cael ei adnabod gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio fel rhan allweddol o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu | **15** |
| Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog | Rhan o raglen gylchol i adolygu elfennau'r Côd Llywodraethu Lleol | **10** |
| Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | Mae hwn yn reolaeth allweddol wrth sefydlu diwylliant o briodoldeb | **20** |

## Cyllid

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Cydgyfeiriant Rhwydwaith | Mae hwn wedi bod yn y cynllun archwilio ers sawl blwyddyn, ond y prosiect wedi llithro | **20** |
| Rheolaeth Trysorlys | Maes ariannol pwysig sydd heb gael sylw Archwilio Mewnol ers rhai blynyddoedd | **20** |
| Systemau TG | Bydd asesiadau pellach yn cadarnhau yr union adolygiadau sydd i'w cynnal yn y maes yma | **20** |
| TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | Archwilwyd y maes yma yn 2012/13, ond angen sicrhau gwydnwch yn sgil datblygiadau diweddar | **10** |
| Taliadau CHAPS | Archwiliad i adolygu dioglewch a gwerth am arian y math yma o daliad | **10** |
| Trefniadau Rheoli Risg | Elfen allweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor | **20** |
| **Systemau Ariannol Mawr** | | |

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **15** |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| Cyflogau - Swyddi Lluosog | Mae'r angen i weinyddu'n gywir y gweithwyr hynny sydd â mwy nag un swydd yn rheolaeth pwysig | **25** |
| Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **10** |
| Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **10** |
| System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **15** |
| System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **10** |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **15** |
| System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **15** |
| System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Protocol Cydweithio gyda SAC | **8** |
| System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **5** |
| System Treth Cyngor - iPortal | Datblygiad newydd, fydd yn ehangu mynediad i'r system. Angen gwirio'r rheolaethau dros hyn. | **10** |
| System Treth Di-Annedd - Cau i lawr 2013-14 | Protocol Cydweithio gyda SAC | **2** |

## Economi a Chymuned

| | | |
|---|---|---|
| Canolfannau Hamdden | Mae rhain yn faes o risg uchel o safbwynt ariannol, iechyd a diogelwch a busnes. | **30** |
| Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | Mae hwn yn gynllun newydd yn lle'r hen "Cymunedau'n Gyntaf". Gall fod yn faes o risg uchel. | **20** |
| Cynllun Potensial | Wedi bod yn destun buddsoddiad sylweddol a grant Ewropeaidd | **25** |
| Traethau | Mae nifer o risgiau sydd angen eu rheoli | **10** |
| Unedau Diwydiannol a Thechnoleg | Nid yw'r maes yma wedi cael ei adolygu ers sawl blwyddyn. | **20** |
| Yr Hafan, Pwllheli | Archwiliad sefydliadol sydd ei angen yn gyfnodol | **10** |
| **Cynlluniau Cyfalaf** | | |
| Academi Hwylio | Contract cyfalaf sylweddol sy'n cael ei ariannu'n helaeth o grantiau allanol ac felly risgiau uchel | **15** |
| Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | Contract cyfalaf sylweddol sy'n cael ei ariannu'n helaeth o grantiau allanol ac felly risgiau uchel | **15** |
| **Grantiau** | | |
| Grant refeniw gwasanaeth ieuenctid | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **8** |
| Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **8** |

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Oedolion, Iechyd a Lles** | | |
| Arian Personol Preswylwyr Cartrefi | Wedi ei ychwanegu ar gais Tîm Rheoli'r adran, sy'n gweld y maes yma yn risg | **25** |
| Cronfa Byw'n Annibynnol | Mae hwn wedi dangos yn y gorffennol y gall fod yn faes o risg uchel. | **15** |
| Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd | Risg uchel ar gofrestr risg y gwasanaeth. | **30** |
| Digartrefedd | Mae o risg gymharol uchel, sydd heb ei archwilio ers yr "Adolygiad System" ar y gwasanaeth | **25** |
| Galw Gwynedd | Adolygiad o drefniadau yn y ganolfan gyswllt, yn dilyn peth gwaith archwilio arbennig yn 2013/14 | **20** |
| Plas Maesincla, Caernarfon | Penderfyniwyd cynnal adolygiad sefydliad, yn hytrach nag ar sail thema, ar gais yr adran. | **12** |
| Plas Ogwen, Bethesda | Penderfyniwyd cynnal adolygiad sefydliad, yn hytrach nag ar sail thema, ar gais yr adran. | **12** |
| Tai Gofal Ychwanegol | Byddai archwiliad yn amserol, gan fod rhain yn ddatblygiadau newydd i'r Cyngor | **10** |
| Teleofal | Wedi llithro o gynllun 2013/14. Datblygiad pwysig ar gyfer darparu gofal, sydd hefyd yn cynnwys partneriaid allannol. | **20** |
| Trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl | Wedi ei ychwanegu yn dilyn cais dan y Tîm Rheoli adrannol am adolygiad o'r maes | **10** |
| **Cynlluniau Cyfalaf** | | |
| System Gwybodaeth Gwasanaeth Cymdeithasol | Contract cyfalaf sy'n fuddsoddiad ariannol sylweddol. Risgiau mawr petai'r cynllun yn methu. | **20** |
| **Grantiau** | | |
| Cefnogi Pobl | Grant mawr sy'n cael cyfeiriad strategol rhanbarthol | **15** |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | |
| Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal | Awgrymir adolygiad o wydnwch y trefniadau yn y maes pwysig yma | **16** |
| Plant mewn Gofal - asesiadau addsyg ac iechyd | Wedi ei ychwangeu ar gais y Pennaeth Adran | **15** |
| **Grantiau** | | |
| Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol | Disgwyliad yn yr amodau ariannol | **8** |
| Grant Refeniw Dechrau'n Deg | Grant o faint sylweddol. Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **10** |
| Grant Teuluoedd yn Gyntaf | Grant o faint sylweddol. Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **10** |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | |
| Cytundebau Gwaredu Gwastraff | Mae'r rhain yn arwyddocaol wrth drawsnewid y dull o ddelio â gwastraff. | **15** |
| Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc | Disgwylir archwiliadau cyfnodol ar y maes yma o risg. | **10** |
| Diogelwch Safleoedd Ailgylchu | Canolfannau sy'n boblogaidd iawn gyda'r cyhoedd, ond lle mae risgiau cynhenid uchel oherwydd natur y peiriannau, traffig ayb | **20** |

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Meysydd Chwarae | Mae'r Adran wedi adnabod hwn fel risg uchel. Disgwylir fod rhaglen waith yn ei le i sicrhau diogelwch | **15** |
| Rheolaeth Fflyd | Maes sydd â nifer o risgiau, ond heb ei adolygu'n ddiweddar gan Archwilio Mewnol | **20** |
| **Grantiau** | | |
| Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | Grant o faint sylweddol. Gall adolygiad leihau ffioedd archwilwyr allanol. | **25** |

## Rheoleiddio

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd | Mae risgiau cynhenid o gynlluniau cydweithio | **10** |
| Gorchmynion Ffyrdd | Maes lle gwelwyd gwendidau yn y gorffennol | **20** |
| Gorfodaeth Parcio | Maes o broffil uchel ymysg y cyhoedd, lle byddai sicrwydd annibynnol o briodoldeb yn fuddiol | **20** |
| Gwasanaeth Cynllunio - Amser i wneud Penderfyniadau | Yn dilyn archwiliad cychwynol yn 2013/14, mae'r adran wedi gwneud cais am waith pellach yn 2014/15 | **10** |
| Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas | Maes a all achosi risgiau i'r cyhoedd | **15** |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Angen adolygiad o'r trefniadau gweinyddol ac adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu | **10** |
| Uned Trafnidiaeth Integredig | Maes o risg uchel, sy'n haeddu sylw rheolaidd gan Archwilio Mewnol | **25** |
| **Cynlluniau Cyfalaf** | | |
| Pont Briwet | Contract cyfalaf sylweddol sy'n cael ei ariannu'n helaeth o grantiau allanol ac felly risgiau uchel | **15** |

## Strategol a Gwella

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Strategaeth Caffael | Mae hwn yn strategaeth allweddol bwysig i'r Cyngor | **40** |

## YGC

| Teitl yr Archwiliad | Pam mae hwn yn y Cynllun? | Dyddiau |
|---|---|---|
| Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd | Oherwydd natur gwaith YGC, mae cofrestrau risg prosiectau unigol yn hanfodol. | **10** |
| Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | Wedi llithro o gynllun 2013/14. Gwiriad fod argymhellion yr adolygiad gan swyddogion Cyllid wedi cael sylw priodol. | **30** |
| | | **1,506** |

<u>**CYNGOR GWYNEDD**</u>

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **6 MAI 2014** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR ARCHWILIO AR WAITH Y GRŴP ASESU TREFNIADAU LLYWODRAETHU** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYTUNO'R DIFFINIAD O LYWODRAETHU DA, A HERIO'R A CHYTUNO'R METHODOLEG SGORIO A FWRIEDIR I ASESU'R TREFNIADAU LLYWODRAETHU** |

---

## 1. CEFNDIR

1.1 Un o ddyletswyddau statudol y Pwyllgor Archwilio, yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw "**adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**".

1.2 Adroddwyd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 20 Chwefror am gweithdy a gynhaliwyd yn y Ganolfan Gyswllt, Penrhyndeudraeth ar 29 Ionawr er mwyn cynnal hunanasesiad o egwyddorion llywodraethu da.

**1.3 Penderfyniad y Pwyllgor ar 20 Chwefror oedd cyfarwyddo'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu i lunio rhaglen sy'n casglu tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau o brif faterion llywodraethu'r awdurdod, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl eu blaenoriaethu.**

## 2. ELFENNAU ALLWEDDOL Y SYSTEMAU A PHROSESAU SY'N RHAN O LYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD

2.1 Ar ôl ymgynghori gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar 12 Chwefror, argymhelliad y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yw y dylid diffinio llywodraethu da fel trefniadau sy'n rhoi darparu ar ran bobl Gwynedd yn y canol (ac i'r gwrthwyneb, fod llywodraethu gwael yn sefydliadol a "self-serving")

2.2 Gan ddefnyddio Côd Llywodraethu Lleol y Cyngor fel prif ffynhonnell, mae'r Grŵp wedi adnabod y canlynol fel elfennau allweddol trefniadau llywodraethu'r Cyngor:

- Gwerthoedd y Cyngor
- Cynllun Integredig Sengl
- Y gyfundrefn 'Cyflawni'
- Y Drefn Gwynion
- Cydberthynas aelodau
- Cynllun Strategol y Cyngor
- Ymgysylltu
- Y drefn Craffu
- Trefniadau rheoli risg
- Y Strategaeth Gaffael
- Y Pwyllgor Safonau
- Pwyllgor Archwilio
- Archwilio Mewnol
- Llythyr blynyddol yr Archwiliwr Allanol
- Côd Llywodraethu Lleol
- Côd Ymarfer "Canu'r Gloch"
- Y Cyfansoddiad
- Protocol cyswllt aelod/swyddog
- Côd Ymddygiad Aelodau
- Taflenni penderfyniad
- Strategaeth ariannol
- Côd Ymddygiad Swyddogion
- Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd
- Protocolau swyddogion statudol
- Datganiad o'r cyfrifon
- Hyfforddi a Datblygu Aelodau
- Hyfforddi a Datblygu Staff
- Y Drefn Werthuso
- Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd
- Rhaglen Arweinyddiaeth

2.3 Yn ogystal ag adlewyrchu cynnwys y Côd Llywodraethu Lleol, mae'r elfennau hyn yn bodloni gofynion CIPFA / SOLACE yn eu canllawiau statudol ar yr hyn sydd angen ei adolygu wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Lleol.

2.4 Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cael cyfle i ystyried a herio'r rhestr yma, a chynnig ychwanegiadau iddo, ar 30 Ebrill.

## 3. PWYSIGRWYDD CYMHAROL YR ELFENNAU ALLWEDDOL

3.1 Er mwyn asesu'r fframwaith lywodraethu yn effeithiol, mae angen cydnabod nad yw pob un o'r elfennau a restrir yn 2.1 uchod yn cyfrannu i'r un graddau wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus ar gyfer pobl Gwynedd. Cyn asesu effeithiolrwydd yr elfennau hyn, nodwyd sgôr Effaith ("Impact") i bob un o'r elfennau, i adlewyrchu pa mor gymharol fawr yw effaith pob un ohonynt (ym marn y Grŵp) wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus. Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 1 (effaith fychan iawn) i 10 (effaith uchel iawn).

3.2 Nid oes yr un o'r elfennau wedi sgorio llai na 5 – pe byddent, byddai'n amheus os oeddent yn haeddu lle amlwg o fewn y fframwaith lywodraethu o gwbl.

3.3 Ym marn y Grŵp, yr elfennau o'r fframwaith lywodraethu sy'n cael yr effaith fwyaf yw:

| **Elfen** | **Sgôr Effaith** |
|---|---|
| Gwerthoedd y Cyngor | **10** |
| Cynllun Integredig Sengl<br>Cynllun Strategol y Cyngor<br>Ymgysylltu<br>Rhaglen Arweinyddiaeth<br>Strategaeth ariannol | **9** |

| **Elfen** | **Sgôr Effaith** |
|---|---|
| Y gyfundrefn 'Cyflawni'<br>Y Drefn Werthuso<br>Y drefn Craffu<br>Côd Llywodraethu Lleol<br>Y Cyfansoddiad<br>Trefniadau rheoli risg<br>Hyfforddi a Datblygu Staff | **8** |

3.4 Mae maint gymharol fawr yr elfennau hyn yn adlewyrchu trafodaethau blaenorol gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio, gan eu bod yn cwmpasu materion megis diwylliant craidd y Cyngor (h.y. ei werthoedd), cydweithio gyda chyrff eraill er mwyn cyflawni (trwy'r Cynllun Integredig Sengl), trefniadau mesur a rheoli perfformiad (Y gyfundrefn 'Cyflawni'), yn ogystal â chynlluniau strategol, tymor hir yr awdurdod.

## 4. EFFEITHIOLRWYDD YR ELFENNAU ALLWEDDOL

4.1 Hanfod hunanasesiad o'r trefniadau llywodraethu yw adolygu pa mor dda y mae'r elfennau unigol hyn yn gweithio ar hyn o bryd er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni i bobl Gwynedd. Mae'n anorfod fod rhai o'r rhannau hyn am fod yn fwy llwyddiannus na'i gilydd wrth gefnogi'r Cyngor i ychwanegu gwerth cyhoeddus.

4.2 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi sgorio pob un o'r elfennau i adlewyrchu barn y Grŵp ynglŷn â pa mor effeithiol ydynt, yn y ffordd y maent yn cael eu gweithredu gan y Cyngor ar hyn o bryd. Rhoddwyd sgôr o hyd at 10 i'r rhain hefyd, gyda sgôr o 1 yn adlewyrchu fod yr elfen yn hollol aneffeithiol (gan eu bod yn fewnblyg ac yn canolbwyntio ar fod yn sefydliadol), a 10 ar gyfer yr elfennau hynny sydd wedi eu canolbwyntio'n llwyr ar gyflawni i'r dinesydd.

4.3 Ni roddwyd sgôr o 1 na 10 i unrhyw elfen, ond rhestrir isod yr elfennau hynny sydd ym marn y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu ymysg y mwyaf a lleiaf effeithiol wrth gyflawni ar ran pobl Gwynedd yn Ebrill 2014:

**Lleiaf effeithiol**

| **Elfen** | **Sgôr Effeithiolrwydd** |
|---|---|
| Gwerthoedd y Cyngor<br>Cynllun Integredig Sengl<br>Y gyfundrefn 'Cyflawni' | **3** |
| Y Drefn Werthuso<br>Y Drefn Gwynion<br>Cydberthynas aelodau | **4** |

**Mwyaf effeithiol**

| **Elfen** | **Sgôr Effeithiolrwydd** |
|---|---|
| Strategaeth ariannol<br>Côd Ymddygiad Swyddogion<br>Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd<br>Protocolau swyddogion statudol<br>Datganiad o'r cyfrifon | **9** |
| Y Cyfansoddiad<br>Protocol cyswllt aelod/swyddog<br>Côd Ymddygiad Aelodau<br>Taflenni penderfyniad | **8** |

4.4 Canlyniad defnyddio matrics sgorio Effaith / Effeithiolrwydd o'r math yma yw gallu arddangos ar ffurf diagram yr elfennau hynny sydd angen rhoi blaenoriaeth iddynt, sef y rhai sy'n cael yr effaith fwyaf ar allu'r Cyngor i gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd, ond sy'n gymharol aneffeithiol wrth wneud hynny ar hyn o bryd.

4.5 Gan ddefnyddio model lliwiau Coch (blaenoriaeth uchel iawn), Oren (blaenoriaeth uchel), Melyn (blaenoriaeth ganolig) a Gwyrdd (blaenoriaeth isel), mae modd arddangos yn glir pa rai yw'r meysydd sydd angen sylw.

4.6 Barn y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yw mai'r elfennau canlynol sydd angen sylw fel mater o flaenoriaeth uchel, er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd wrth gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd:

- **Gwerthoedd y Cyngor**
- **Cynllun Integredig Sengl**
- **Y gyfundrefn 'Cyflawni'**
- **Y Drefn Werthuso**
- **Y Drefn Gwynion**

**4.7 Mae'r diagram sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad yn dangos holl elfennau'r fframwaith lywodraethu a'u sgoriau cymharol.**

4.8 Mae'r elfennau oedd wedi eu cynnig gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror wedi eu tanlinellu yn y diagram. Gwelir fod rhai o'r rhain, ond nid pob un, wedi ei asesu'n flaenoriaeth uchel neu uchel iawn ar ôl ystyried pob elfen yn systematig.

4.9 Yn ddarostyngedig i fodlonrwydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet Anffurfiol a'r Pwyllgor Archwilio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, disgwylir i'r cynllun gweithredu yn y Datganiad Llywodraethu roi sylw blaenllaw i'r materion hynny sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 4.6.

## 5. AMSERLEN

5.1 Mae'r hunanasesiad a gyflwynir yma yn gam allweddol wrth ddatblygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014, sef y datganiad sy'n adrodd yn ffurfiol ar ganlyniadau'r gwaith o hunanasesu trefniadau llywodraethu yr Awdurdod.

5.2 Mae'r ffaith fod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2013/14, ac fod y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn adroddiadau a chael cyfle i herio gwaith y Grŵp, yn gam pwysig ymlaen wrth sefydlu trefniadau mwy cadarn i adolygu ein llywodraethu ac wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu.

5.3 Mae'r amserlen a awgrymir ar gyfer paratoi'r Datganiad Llywodraethu fel a ganlyn:

- 30 Ebrill – Cyflwyno awgrymiadau am elfennau'r fframwaith lywodraethu, methodoleg sgorio ac arddull yr matrics adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol

- 6 Mai – Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio, er mwyn ei ddiweddaru ar y gwaith sydd yn mynd rhagddo

- 2 Mehefin – Cyfarfod o'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu i gytuno ar y sgoriau cymharol yn derfynol yn dilyn ystyriaeth bellach o'r dystiolaeth sydd wedi ei gasglu, a dechrau drafftio'r Datganiad Llywodraethu

- 18 Mehefin – Cyflwyniad i'r Cabinet Anffurfiol am ei sylwadau ar yr elfennau unigol, y methodoleg sgorio, a herio'r dystiolaeth


- 10 Gorffennaf – Datganiad Llywodraethu drafft i'r Pwyllgor Archwilio er cymeradwyaeth.

## 6. ARGYMHELLIAD

**6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:**

- **Gytuno mai'r diffiniad o "lywodraethu da" yw trefniadau sy'n rhoi darparu ar ran bobl Gwynedd yn y canol.**
- **Ystyried a herio'r methodoleg sgorio sydd wedi cael ei ddatblygu ac a amlinellir yn yr adroddiad yma.**
- **Rhoi sylw i'r matrics sydd yn ymddangos yn yr atodiad, a mynegi barn ar y sgoriau unigol sydd yn ymddangos ynddo.**
- **Gytuno i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu barhau ar ei gyfeiriad bresennol wrth ddatblygu'r trefniadau i hunanasesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor.**

ASESIAD O ELFENNAU ALLWEDDOL Y SYSTEMAU A PHROSESAU SY'N RHAN O LYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO.** |
| **DYDDIAD** | **6, MAI , 2014.** |
| **TEITL** | **ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **ADRODD WRTH Y PWYLLGOR AM WAITH Y GWEITHGOR.** |
| **AWDUR** | **CYNGHORYDD MICHAEL SOL OWEN, CADEIRYDD Y GWEITHGOR.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Cyflwynodd y Gweithgor adroddiad interim i'r Pwyllgor ar yr 20fed o Chwefror yn egluro ei waith. Ar y pryd rhagwelwyd y byddai yr adolygiad o'r Cyfansoddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 1af o Fai, ac felly rhoddwyd awdurdod i'r Gweithgor i adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor.

2. Ers hynny mae wedi dod yn amlwg na fydd digon o amser yng nghyfarfod y Cyngor ar y 1af o Fai i drafod y Cyfansoddiad ac y bydd felly yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn dilynol ar y 17eg o Orffennaf. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Gweithgor adrodd i'r Pwyllgor ar ei waith ac i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor i'w argymhellion.

3. Sefydlwyd y Gweithgor i ymgymryd â'r gwaith manwl o adolygu'r Cyfansoddiad a phenodwyd 7 aelod o'r Pwyllgor arno sef y Cynghorwyr Michael Sol Owen; Trefor Edwards; John Pughe Roberts; Gethin Glyn Williams; Dafydd Meurig; Dilwyn Morgan a Robert Wright.

4. Y rheswm dros adolygu'r Cyfansoddiad ydi i geisio cyflwyno Cyfansoddiad sydd ar ffurf safonol i holl gynghorau Cymru ac sydd yn symlach i'w ddarllen na'r un presennol. Mae angen gwneud rhai newidiadau oherwydd bod y ddeddfwriaeth yng Nghymru yn dra gwahanol erbyn hyn i ddeddfwriaeth yn Lloegr ac mae cyfle i gael Cyfansoddiad safonol oherwydd bod bob Cyngor yng Nghymru erbyn hyn yn gweithredu cyfundrefn Arweinydd a Chabinet. Disgwylir y bydd pob Cyngor yn ei dro yn mabwysiadu'r Cyfansoddiad safonol newydd.

5. Er bod y Cyfansoddiad ar ffurf sydd yn safonol ac yn gyson ar draws Cynghorau Cymru, mae cyfle i gael rhai amrywiadau lleol arno. Mae'r Gweithgor wedi ceisio cadw at drefniadau llywodraethu presennol y Cyngor lle bynnag bo modd a chadw maint y newidiadau i'r lleiafswm. Mae ffurf y Cyfansoddiad newydd yn wahanol iawn i'r ffurf bresennol ond nid yw'r newidiadau o sylwedd yn niferus.

6. Wrth ymgymryd a'r dasg o adolygu'r Cyfansoddiad aeth y Gweithgor ati i edrych yn fanwl ar adrannau penodol, e.e. yr adran yn ymwneud a'r Cyngor Llawn, yr adran yn ymwneud a'r Cabinet, a.y.b., gan ymgynghori gyda'r cyrff perthnasol ar unrhyw newidiadau. Felly, er enghraifft, wrth drafod yr adran yn ymwneud a'r Pwyllgorau Craffu, fe ymgynghorwyd â'r Fforwm Cadeiryddion Craffu, wrth adolygu'r rhan yn ymwneud â'r Cabinet, ymgynghorwyd gyda'r Cabinet ei hun, a.y.b. Yn ogystal â hyn gwnaed ymdrech i godi ymwybyddiaeth holl aelodau'r Cyngor o'r adolygiad drwy gyflwyniadau yn y Fforymau Ardal. Anfonwyd crynodeb o'r prif newidiadau i'r holl aelodau gan wahodd unrhyw sylwadau ac fe adroddir ar lafar i'r pwyllgor ar y sylwadau fydd wedi dod i law.

7. Mae crynodeb o'r prif newidiadau i'w gael yn yr atodiad. Fe welir ei fod yn canolbwyntio ar chwech adran benodol o'r Cyfansoddiad, sef Adran 4 – Y Cyngor; Adran 5 – Y Cabinet; Adran 7 – Y Pwyllgorau Craffu; Adran 15 – Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb ar Fframwaith Bolisi; Adran 19 – Protocol Cynllunio ac Adran 21 – Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'r adrannau cyflawn wedi eu hatodi i'r adroddiad hefyd.

8. Yn ogystal, yn y crynodeb, mae dau fater ychwanegol y mae'r Gweithgor wedi rhoi sylw iddynt. Y cyntaf ydi cyfundrefn ddeddfwriaethol newydd ar gyfer penderfynu ar gynigion i ad-drefnu ysgolion. Dan yr hen gyfundrefn gyfreithiol, pan oedd y Cabinet, yn dilyn ymgynghoriad statudol wedi dod i benderfyniad ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion, byddai yn cyhoeddi rhybudd cyhoeddus, ac os byddai gwrthwynebiad i'r bwriad o fewn cyfnod penodol byddai'r mater yn mynd at Lywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol. Dan y trefniadau newydd bydd y penderfyniad terfynol yn dod yn ôl i'r awdurdod lleol, ac argymhelliad y Gweithgor ydi mai'r Cabinet yw'r corff priodol i gymryd y penderfyniad hwn yn hytrach na'r Cyngor Llawn neu Banel Adolygu Lleol. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb yn ei gyfanrwydd ar y Cabinet yn hytrach na'i rannu rhwng dau gorff.

9. Yr ail fater ydi rôl y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth. Yn dilyn trafodaeth yn y pwyllgor y casgliad oedd bod angen cyflwyno newidiadau i'r ffordd yr ymdrinnir ag apeliadau gan staff ond ei bod yn bwysig cadw rôl yr aelod etholedig yn y broses. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau a chael y trefniadau mwyaf hyblyg ac ymatebol, argymhelliad y Gweithgor ydi y dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb am apeliadau gan staff i banel fyddai'n cynnwys un aelod o'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, Cyfarwyddwr Corfforaethol ac Ymgynghorydd Adnoddau Dynol. Argymhellir cadw y pwyllgor er mwyn cymryd rôl strategol trosolwg a lledaenu ymarfer da mewn materion yn ymwneud hefo ymddygiad staff. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi derbyn sêl bendith gan yr Undebau.

10. Gofynnir i'r Pwyllgor :-

    (a) gymeradwyo argymhellion y Gweithgor ynglŷn â'r newidiadau i'r Cyfansoddiadyn unol â'r argymhellion yn yr atodiad;

    (b) argymell y Cyfansoddiad newydd i'r Cyngor Llawn ar 17, Gorffennaf.

**ATODIAD**

**Adolygu'r Cyfansoddiad – Crynodeb o'r prif newidiadau.**

*Y prif newid rhwng y Cyfansoddiad newydd a'r un presennol ydi ei arddull. O'r herwydd mae cymharu cymal wrth gymal yn amhosib. Isod fe welir crynodeb o'r prif newidiadau i'r Cyfansoddiad gan gyfeirio at yr adran berthnasol yn y Cyfansoddiad newydd.*

| Adran o'r Cyfansoddiad | Y Cyfansoddiad newydd | Y Cyfansoddiad Presennol. |
|---|---|---|
| **Adran 4** | **Y Cyngor.** | |
| 4.13.2 | Cyfyngir hyd cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn i 4 awr, gyda disgresiwn i'r Cadeirydd i ganiatáu rhagor o amser. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 4.18 | Caniateir cwestiynau gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn, gydag amodau. | Mae darpariaeth debyg yn y Cyfansoddiad presennol, ond nid yw wedi ei gweithredu. |
| 4.20 | Os yw'r rhybudd perthnasol wedi ei roi, bydd cynigion i'r Cyngor Llawn yn cael eu trafod ar y diwrnod. | Mae'r rheol sy'n mynnu bod cynigion yn cael eu cyfeirio i bwyllgor oni bai bod y Cyngor yn pleidleisio i'w trafod yn cael ei diddymu. |
| 4.20.4 | Rhaid i gynnig i ddiswyddo'r Arweinydd gael ei lofnodi gan 20% o aelodau'r Cyngor. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 4.23 | Gall yr Arweinydd alw trafodaeth gyffredinol ar gyflwr y sir. | Mae'r rheol y gellir trafod pwnc penodol ymhob cyfarfod o'r Cyngor yn cael ei ddiddymu. |
| **Adran 5** | **Y Cabinet.** | |
| 5.4 | Nodir swyddogaethau penodol ar gyfer dirprwy Arweinydd. | Nid oes darpariaeth ar gyfer dirprwy Arweinydd yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 5.9.5 | Rhoddir pwerau i swyddogion statudol fynnu bod materion yn cael eu trafod gan y Cabinet. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |

| **Adran 7** | **Y Pwyllgorau Craffu.** | |
|---|---|---|
| 7.7 | Mae hawl i benodi hyd at 2 aelod cyfetholedig, heb bleidlais, ar bob pwyllgor craffu. | Nid yw'r nifer o aelodau cyfetholedig posib wedi ei nodi yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 7.18 | Mae gofyn i aelodau sy'n dymuno cynnwys eitemau ar raglen Pwyllgor Craffu roi o leiaf 7 diwrnod o rybudd. | Nid yw'r Cyfansoddiad presennol yn nodi pa gyfnod rhybudd sydd ei angen. |
| 7.25 | Rhoddir cyfyngiad ar sawl penderfyniad o eiddo'r Cabinet y mae gan bwyllgor neu aelod hawl i'w alw i mewn i'w graffu o fewn cyfnod penodol. (Mae Galw i Mewn yn golygu proses ffurfiol sy'n atal y Cabinet rhag gweithredu hyd y bydd y Pwyllgor Craffu wedi ystyried y mater). | Diddymir y rheol yn y Cyfansoddiad presennol na ellir galw mater i mewn oni bai ei fod yn groes i gyfraith neu broses. |
| 7.28 | Y Cadeiryddion fydd yn penderfynu pa bwyllgor sy'n ymdrin â mater sy'n disgyn oddi fewn cylch gorchwyl mwy nag un pwyllgor. | Mae'r Cyfansoddiad presennol yn nodi fod materion oddi fewn i gylch gorchwyl mwy nag un pwyllgor yn cael eu trafod yn y ddau bwyllgor. |
| 7.29 ac atodiadau 1-3 | Rhoddi canllawiau manwl i gynghorwyr ar sut i weithredu'r drefn "galwad gan gynghorydd i weithredu" sy'n caniatáu i aelod ddod â mater yn ymwneud a'i ward i sylw pwyllgor craffu os yw wedi methu ei ddatrys mewn unrhyw ffordd arall. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| **Adran 15** | **Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Bolisi.** | |
| 15.1 | Diben y rheolau yma ydi egluro'r berthynas rhwng cyfrifoldebau'r Cyngor i sefydlu cyllideb a mabwysiadu rhai cynlluniau oddi fewn i'r fframwaith bolisi (e.e. y Cynllun Strategol) a hawliau'r Cabinet i weithredu a blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb a'r fframwaith bolisi. | Nid yw'r rheolau yma wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad presennol. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.2 | Y broses ar gyfer datblygu fframwaith bolisi ydi fod y Cabinet yn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor; os oes aelod yn dymuno cyflwyno gwelliant iddo yn y Cyngor rhaid rhoi diwrnod o rybudd; os yw'r Cyngor yn gwrthod argymhelliad y Cabinet mae gan yr Arweinydd hawl i wrthwynebu a'i anfon yn ôl i'r Cyngor am benderfyniad terfynol. | Gweler uchod. |
| 15.3 | Y broses ar gyfer sefydlu cyllideb ydi fod y Cabinet yn ymgynghori ar ei gynigion cychwynnol (hefo'r Pwyllgor Archwilio ymysg eraill) ac ar derfyn yr ymgynghoriad ei fod yn cyflwyno ei gynigion terfynol i'r Cyngor i benderfynu arnynt. | Gweler uchod. |
| 15.4 – 15.8 | Mae gweddill y rheolau yn ymdrin â'r broses i'w dilyn os ydi penderfyniadau'r Cabinet yn groes i'r Gyllideb neu'r Fframwaith polisi. | Gweler uchod. |
| **Adran 19** | **Protocol Cynllunio** | |
| (19).3.5 | Ychwanegwyd cymal i'w gwneud yn eglur nad oes gan aelod sydd â buddiant hawl i weithredu fel aelod lleol ond gall ofyn i aelod arall gymryd y rôl o gynrychioli etholwyr yr ardal. | Nid oedd hyn yn eglur yn y Cyfansoddiad presennol. |
| (19).6 | Mae'r cymal newydd yn dilyn canllawiau'r Ombwdsmon ar rag-benderfynu, yn sgil newid yn y gyfraith. | Mae'r Cyfansoddiad presennol yn seiliedig ar y gyfraith fel ag yr oedd. |
| **Adran 21** | **Protocol Cyswllt Aelod - Swyddog** | |
| 21.5 a 21.7 | Disgrifiad o rolau aelodau a swyddogion wedi ei gynnwys. | Dim disgrifiad cyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 21.14 | Eglurhad o'r cyfyngiad ar weithgarwch gwleidyddol swyddogion. | Eglurhad manwl ddim wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad presennol. |

| Materion ychwanegol | | |
|---|---|---|
| Cynigion ad-drefnu ysgolion | Rhoi'r cyfrifoldeb o benderfynu'n derfynol ar gynigion i ad-drefnu ysgolion i'r Cabinet. Hwn ydi'r penderfyniad sydd angen ei wneud ar ddiwedd y broses pan fydd y cyfnod gwrthwynebu yn dilyn cyhoeddi rhybudd ffurfiol wedi dod i ben. | Mae hwn yn ddarpariaeth newydd oherwydd newid mewn deddfwriaeth. Cyn hyn y Gweinidog perthnasol oedd yn gwneud y penderfyniad terfynol os oedd gwrthwynebiadau, a'r Cabinet yn ei wneud os nad oedd gwrthwynebiadau. |
| Apeliadau gan staff a rôl y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | Dirprwyo apeliadau gan staff i banel sy'n cynnwys un aelod etholedig (o'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth), Cyfarwyddwr Corfforaethol ac ymgynghorydd Adnoddau Dynol.<br><br>Newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth i gymryd trosolwg strategol o safonau ymddygiad staff a hyrwyddo ymarfer da ymysg rheolwyr. | Ar hyn o bryd mae pob apêl yn mynd gerbron y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth o 7 aelod. Nid oes unrhyw gorff yn ymgymryd a'r rôl strategol o ledaenu ymarfer da. |

**ADRAN 4**

## 4 Y CYNGOR LLAWN

### 4.1 Cyflwyniad

Cyfarfod ffurfiol o'r holl Gynghorwyr yw'r Cyngor Llawn. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor Llawn wneud rhai penderfyniadau pwysig gan gynnwys gosod cyllideb y Cyngor a'i Dreth Gyngor a chymeradwyo nifer o gynlluniau a strategaethau allweddol sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Fframwaith Polisi (a restrir isod). Mae'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet. Bydd yn cyflawni rhai swyddogaethau ei hun, ond bydd eraill yn cael eu dirprwyo i Bwyllgorau neu Swyddogion a enwir.

### 4.2 Y Fframwaith Polisi

Mae'r Fframwaith Polisi yn golygu'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:

- Cynllun Strategol
- Cynllun perfformiad gwerth gorau
- Strategaeth Datlygu Economaidd
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Cynlluniau ac addasiadau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol
- Y Cynllun Iaith Gymraeg
- Y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Strategaeth Tai a Chynllun gweithredol
- Pwerau i gymeradwyo Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc
- Cytundebau Polisi
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

### 4.3 Y Cynllun Integredig Sengl

Mae'r Cynllun hwn yn disodli pedwar o'r cynlluniau a'r strategaethau presennol a ffurfiodd ran o'r Fframwaith Polisi, sef y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

### 4.4 Y Gyllideb

Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sylfaen y Dreth Gyngor, gosod y Dreth Gyngor a phenderfyniadau yn ymwneud â rheoli gofyniad benthyca'r Cyngor, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod terfynau trosglwyddo arian. Bydd y

Cyngor Llawn yn pennu cyllideb refeniw gyffredinol a chyllideb gyfalaf gyffredinol y Cyngor ac unrhyw newidiadau i'r rhain. (Gweler Adran **Error! Reference source not found.** i gael gwybod sut y gall y Cyngor newid y Fframwaith Polisi neu'r Gyllideb a gyfeirir ato i'w cymeradwyo gan y Cabinet.)

4.5 **Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai**

Mae Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (pa un a ydynt ar ffurf ddrafft ai peidio) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer cymeradwyo rhaglen o waredu 500 neu fwy o adeiladau i unigolyn o dan Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993, neu i waredu tir a ddefnyddiwyd at ddibenion preswyl lle y mae angen cymeradwyaeth o dan adran 32 neu 43 Deddf Tai 1985.

4.6 **Swyddogaethau'r Cyngor Llawn**

Dim ond y Cyngor Llawn a gaiff arfer y swyddogaethau canlynol:

4.6.1 mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;

4.6.2 cymeradwyo neu fabwysiadu'r Cynllun Integredig Sengl, y Fframwaith Polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran unrhyw Drosglwyddiad Tir ar gyfer Tai;

4.6.3 yn amodol ar y weithdrefn frys a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth arfer Swyddogaeth Weithredol sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi neu'r gyllideb lle y mae'r penderfynwr yn teimlo y dylid ei wneud mewn modd a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb;

4.6.4 penodi a diswyddo'r Arweinydd;

4.6.5 cytuno ar a/neu ddiwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau, penderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) oni bai y dirprwywyd y penodiadau gan y Cyngor;

4.6.6 newid enw'r ardal

4.6.7 gwneud neu gadarnhau penodiad Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig;

4.6.8 gwneud, gwella, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau, a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Filiau Personol;

4.6.9 yr holl Swyddogaethau Dewis Lleol a amlinellir yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn y mae'r Cyngor yn penderfynu y dylai ef ei hun ymgymryd â hwy yn hytrach na'r Cabinet; a

4.6.10 phob mater y mae'n rhaid eu neilltuo i'r Cyngor yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r datganiad polisi tâl;

4.7 **<u>Aelodaeth</u>**

4.7.1 Bydd pob Aelod o'r Cyngor yn Aelodau o'r Cyngor Llawn.

4.7.2 Nid yw dirprwyo'n bosibl yng nghyfarfodydd y Cyngor.

4.7.3 <u>Cadeirio'r Cyngor</u>

i. Bydd y Cynghorydd a etholir yn flynyddol gan y Cyngor fel ei gadeirydd yn cael ei alw'n "Gadeirydd".

ii. Bydd y Cadeirydd yn peidio â bod yn Gadeirydd os yw'n ymddiswyddo, yn cael ei ddiswyddo trwy bleidlais gan y Cyngor Llawn, yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor, neu'n methu â gweithredu fel Aelod o'r Cyngor. Bydd yn parhau i weithredu fel Cadeirydd ar ôl etholiad nes bod ei olynydd wedi'i benodi.

4.7.4 <u>Rôl a Swyddogaeth y Cadeirydd</u>

Bydd gan Gadeirydd y Cyngor ac yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd, y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

i. Rôl Seremonïol

Mae Cadeirydd y Cyngor:

(i) yn arweinydd dinesig sir Gwynedd;

(ii) yn hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor a sir Gwynedd yn gyffredinol ac yn gweithredu fel llysgennad ar gyfer y ddau; ac

(iii) yn ymgymryd â gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol ac yn meithrin hunaniaeth a balchder cymunedol.

ii. Cyfrifoldebau'r Cadeirydd

(i) cynnal a hyrwyddo diben y Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad pan fo angen;

(ii) llywyddu cyfarfodydd y Cyngor fel bod modd cynnal ei fusnes yn deg ac yn effeithlon a chan ystyried hawliau Cynghorwyr a buddiannau'r Gymuned;

(iii) sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion sy'n bwysig i'r gymuned leol ac yn lle y gall Aelodau nad ydynt ar y Cabinet ddwyn y Cabinet a Chadeirydd Pwyllgor i gyfrif;

(iv) hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd yng ngweithgareddau'r Cyngor;

(v) bod yn gydwybod y Cyngor; a

(vi) mynychu'r cyfryw swyddogaethau dinesig a seremonïol ag y mae'r Cyngor ac ef/hi yn penderfynu sy'n briodol;

4.8 **<u>Cyfarfodydd y Cyngor</u>**

Ceir tri math o gyfarfod Cyngor:

4.8.1 y cyfarfod blynyddol;

4.8.2 cyfarfodydd cyffredin; a

4.8.3 chyfarfodydd arbennig

4.9 **<u>Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod</u>**

Bydd Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor a gynhwysir yn yr Adrannau isod yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn.

4.10 **<u>Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor</u>**

4.10.1 <u>Amseru a Busnes</u>

Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis cynghorwyr, cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 diwrnod o ymddiswyddiad y cynghorwyr sy'n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mawrth, mis Ebrill neu fis Mai. Bydd y cyfarfod blynyddol yn:

i. ethol unigolyn i lywyddu os nad yw Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor yn bresennol;

ii. ethol Cadeirydd y Cyngor;

iii. ethol Is-gadeirydd y Cyngor;

iv. cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

v. derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd;

vi. ethol Arweinydd y Cyngor, ac eithrio lle y penodwyd yr Arweinydd am gyfnod o bedair blynedd yng nghyfarfod blynyddol cychwynnol y Cyngor;

vii. yr Arweinydd i hysbysu'r Cyngor am nifer yr Aelodau i'w penodi i'r Cabinet

viii. penodi'r Pwyllgorau Craffu], Pwyllgor Safonau a'r cyfryw bwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill ag y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n briodol i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor nac yn Swyddogaethau Gweithredol (fel yr amlinellir yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn);

ix. derbyn oddi wrth yr Arweinydd y cynllun dirprwyo (fel y'i hamlinellir yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn);

x. cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor ar gyfer y flwyddyn; ac

xi. ystyried unrhyw fusnes a nodir yn y rhybudd sy'n ymgynnull y cyfarfod.

4.10.2 <u>Dethol Cynghorwyr ar Bwyllgorau</u>

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd cyfarfod y Cyngor yn:

i. penderfynu pa bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol;

ii. penderfynu ar faint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny;

iii. penderfynu ar ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol;

## 4.11 <u>Cyfarfodydd Cyffredin</u>

Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn unol â rhaglen y penderfynir arni yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Bydd y drefn busnes mewn cyfarfodydd cyffredin fel a ganlyn:

4.11.1 ethol unigolyn i lywyddu os nad yw'r Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn bresennol;

4.11.2 cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

4.11.3 derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau gan Aelodau;

4.11.4 derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd

4.11.5 derbyn adroddiad gan yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad;

4.11.6 derbyn adroddiad gan y Cabinet a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad;

4.11.7 derbyn adroddiadau gan bwyllgorau'r Cyngor a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiadau hynny;

4.11.8 derbyn adroddiadau ynglŷn â busnes trefniadau ar y cyd a sefydliadau allanol a derbyn cwestiynau ac atebion arnynt;

4.11.9 ystyried unrhyw fusnes arall a nodwyd yn yr wŷs i'r cyfarfod, gan gynnwys ystyried cynigion gan y Cabinet ynglŷn â Chyllideb a

Fframwaith Polisi'r Cyngor, y Cynllun Integredig Sengl ac adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu;

4.11.10 ystyried cynigion;

4.11.11 ymdrin â chwestiynau gan Aelodau yn unol â Rheol 4.19; a

4.11.12 derbyn cwestiynau gan y cyhoedd, a rhoi atebion iddynt, mewn perthynas â materion y mae'r Cadeirydd o'r farn eu bod yn berthnasol i swyddogaethau'r Cyngor.

4.12 **Cyfarfodydd Arbennig**

4.12.1 Galw Cyfarfodydd Arbennig

Caiff y Swyddog Priodol alw cyfarfodydd y Cyngor yn ychwanegol at gyfarfodydd cyffredin. Caiff y rhai a restrir isod wneud cais i'r Swyddog Priodol alw cyfarfodydd Cyngor ychwanegol:

i. y Cyngor trwy benderfyniad;

ii. Cadeirydd y Cyngor;

iii. Y Prif Weithredwr;

iv. Y Swyddog Monitro;

v. unrhyw bum Aelod o'r Cyngor os ydynt wedi llofnodi cais a gyflwynwyd i Gadeirydd y Cyngor a'i fod ef/hi wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu â galw cyfarfod o fewn saith diwrnod o gyflwyno'r cais.

4.12.2 Busnes

Bydd y busnes sydd i'w gynnal mewn cyfarfod arbennig yn gyfyngedig i'r eitem neu'r eitemau busnes a geir yn y cais am y cyfarfod arbennig ac ni fydd cofnodion blaenorol nac adroddiadau gan bwyllgorau ac ati yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, caiff y Cadeirydd, yn ôl ei (d)disgresiwn llwyr ef/hi, ganiatáu ymgymryd ag eitemau busnes eraill er mwyn cyflawni busnes y Cyngor yn effeithlon.

4.13 **Amser, Lleoliad a Hyd Cyfarfodydd**

4.13.1 Amser a Lleoliad Cyfarfodydd

Pennir amser a lleoliad cyfarfodydd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac fe'u nodir yn yr wŷs.

4.13.2 Hyd Cyfarfodydd

Mewn cyfarfod cyffredin o'r Cyngor, pan fydd pedair awr wedi mynd heibio ar ôl i'r cyfarfod ddechrau, bydd y Cadeirydd, os bydd o'r farn fod hynny'n briodol, yn gohirio'r cyfarfod yn syth ar ôl cwblhau'r eitem busnes sy'n cael ei thrafod ar y pryd. Bydd busnes sy'n weddill yn cael ei drafod ar amser a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw ef/hi

yn pennu dyddiad, bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei drafod yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

4.14 **Rhybudd am Gyfarfodydd a Gwŷs iddynt**

Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd am amser a lleoliad unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran **Error! Reference source not found.**. O leiaf 5 diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn anfon gwŷs a lofnodwyd ganddo ef/ganddi hi at bob Aelod o'r Cyngor. Bydd yr wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod ac yn nodi'r busnes sydd i'w drafod. Bydd hefyd yn cynnwys y cyfryw adroddiadau sydd ar gael.

4.15 **Cadeirydd Cyfarfod**

Caiff yr unigolyn sy'n llywyddu'r cyfarfod arfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd a briodolir i'r Cadeirydd. Pan fo'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgor ac is-bwyllgor, dylid cymryd bod cyfeiriadau at y Cadeirydd yn golygu cadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

4.16 **Cworwm**

Cworwm cyfarfod fydd chwarter y nifer gyfan o Aelodau. Yn ystod unrhyw gyfarfod, os bydd y Cadeirydd yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio yn syth. Bydd busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried ar amser a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn pennu dyddiad, bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

4.17 **Presenoldeb o Bell**

*[I'w gwblhau pan gyhoeddir y canllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru]*

4.18 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

4.18.1 Cyffredinol

i. Caiff aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau i Aelodau'r Cabinet yng nghyfarfodydd cyffredin y Cyngor.

ii. Dylid cyfyngu'r amser a neilltuir ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd i 30 munud.

4.18.2 Trefn Cwestiynau

Gofynnir cwestiynau yn y drefn y derbyniwyd rhybudd ohonynt, ond caiff y Cadeirydd gasglu cwestiynau tebyg at ei gilydd mewn grŵp.

4.18.3 Rhybudd o Gwestiynau

Ceir gofyn cwestiwn dim ond os rhoddwyd rhybudd ohono trwy ei gyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy bost electronig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddim hwyrach na chanol dydd 10 diwrnod

cyn diwrnod y cyfarfod. Mae'n rhaid i bob cwestiwn gynnwys enw a chyfeiriad y sawl sy'n holi.

4.18.4 Nifer y Cwestiynau

Mewn unrhyw un cyfarfod, ni chaiff unrhyw unigolyn gyflwyno mwy nag un cwestiwn ac ni cheir gofyn mwy nag un cwestiwn o'r fath ar ran un sefydliad.

4.18.5 Cwmpas Cwestiynau

Caiff y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wrthod cwestiwn:

i. os nad yw'n ymwneud â mater y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano neu sy'n effeithio ar y sir;

ii. os yw'n ddifenwol, yn wacsaw neu'n sarhaus;

iii. os yw'n sylweddol debyg i gwestiwn a gyflwynwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf;

iv. os yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig.

4.18.6 Cofnod o Gwestiynau

i. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cofnodi pob cwestiwn mewn modd sydd ar gael i'r cyhoedd ei archwilio a bydd yn anfon copi o'r cwestiwn ar unwaith at y Cynghorydd y'i cyfeirir ato. Bydd cwestiynau a wrthodwyd yn cynnwys y rhesymau dros eu gwrthod.

ii. Bydd copïau o'r holl gwestiynau yn cael eu dosbarthu i bob Cynghorydd a byddant ar gael i'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfod.

4.18.7 Gofyn y Cwestiwn yn y Cyfarfod

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y sawl sy'n holi i ofyn y cwestiwn i'r Cynghorydd a enwyd yn y rhybudd. Os nad yw'r sawl a gyflwynodd gwestiwn ysgrifenedig yn gallu bod yn bresennol, caiff ofyn i'r Cadeirydd ofyn y cwestiwn ar ei ran. Caiff y Cadeirydd ofyn y cwestiwn ar ran y sawl sy'n holi, nodi y bydd ateb ysgrifenedig yn cael ei roi neu benderfynu, yn absenoldeb y sawl sy'n holi, na fydd y cwestiwn yn derbyn sylw.

4.18.8 Cwestiwn Atodol

Caiff unigolyn sydd wedi gofyn cwestiwn yn bersonol ofyn un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i'r Cynghorydd a atebodd ei gwestiwn gwreiddiol. Mae'n rhaid i gwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ymateb. Caiff y Cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar unrhyw un o'r seiliau a osodir yn Rheol 4.18.5 uchod.

4.18.9 Atebion Ysgrifenedig

Bydd unrhyw gwestiwn na ellir ymdrin ag ef yn ystod yr amser a neilltuwyd i'r cyhoedd ofyn cwestiynau, naill ai oherwydd diffyg amser neu oherwydd nad oedd y Cynghorydd y bwriadwyd gofyn y cwestiwn iddo yn bresennol, yn derbyn sylw trwy ateb ysgrifenedig.

4.18.10 Cyfeirio Cwestiwn at y Cabinet neu Bwyllgor

Oni bai bod y Cadeirydd yn penderfynu fel arall, ni fydd trafodaeth yn cael ei chynnal ar unrhyw gwestiwn, ond caiff unrhyw Aelod gynnig bod mater a godwyd gan gwestiwn yn cael ei gyfeirio at y Cabinet neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor priodol. Pan fydd wedi'i eilio, bydd cynnig o'r fath yn destun pleidlais heb drafodaeth.

## 4.19 Cwestiynau gan Aelodau

4.19.1 Ynglŷn ag Adroddiadau'r Cabinet neu Bwyllgorau

Caiff Aelod o'r Cyngor, heb roi rhybudd, ofyn unrhyw gwestiwn i'r Arweinydd neu Gadeirydd Pwyllgor sy'n codi'n uniongyrchol o eitem yn adroddiad y Cabinet neu Bwyllgor, pan fo'r eitem honno'n cael ei derbyn neu ei hystyried gan y Cyngor.

4.19.2 Cwestiynau yn y Cyngor Llawn y rhoddwyd Rhybudd ohonynt

Yn amodol ar Reol 4.19.4 caiff Aelod o'r Cyngor ofyn cwestiwn i'r:

i. Cadeirydd;

ii. Aelod o'r Cabinet;

iii. cadeirydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor;

ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu sy'n effeithio ar sir Gwynedd.

4.19.3 Cwestiynau mewn Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau y rhoddwyd Rhybudd ohonynt

Yn amodol ar Reol 4.19.4**Error! Reference source not found.**, caiff Aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ofyn cwestiwn i gadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu sy'n effeithio ar y sir ac sydd o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

4.19.4 Rhybudd o Gwestiynau

Caiff Aelod ofyn cwestiwn o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3:

i. os yw wedi rhoi o leiaf dau ddiwrnod o rybudd ysgrifenedig neu drwy bost electroneg o'r cwestiwn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd; neu

ii. os yw'r cwestiwn yn ymwneud â materion brys, a bod ganddo/ganddi ganiatâd y Cadeirydd neu'r Aelod y bwriedir gofyn

y cwestiwn iddo a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei roi i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o leiaf pedair awr cyn y cyfarfod.

4.19.5 Nifer Fwyaf o Gwestiynau

Caiff Aelod ofyn un cwestiwn yn unig o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 ac eithrio gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

4.19.6 Trefn Cwestiynau

Bydd cwestiynau y rhoddwyd rhybudd ohonynt o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 yn cael eu gofyn yn y drefn a bennir gan Gadeirydd y Cyngor, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

4.19.7 Cynnwys Cwestiynau

Mae'n rhaid i gwestiynau o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3, ym marn y Cadeirydd:

i. beidio â chynnwys unrhyw fynegiadau o farn;

ii. fod yn berthnasol i faterion y mae gan y Cyngor bolisi arnynt neu y gallai bennu polisi arnynt;

iii. beidio ag ymwneud â chwestiynau ynglŷn â ffaith.

4.19.8 Ymateb

Caiff ateb fod ar ffurf:

i. ateb llafar uniongyrchol yn y cyfarfod;

ii. pan fo'r wybodaeth a ddymunir mewn cyhoeddiad gan y Cyngor neu waith cyhoeddedig arall, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw; neu

iii. pan na ellir ymateb yn gyfleus ar lafar, ateb ysgrifenedig a ddosberthir o fewn pum niwrnod i'r sawl sy'n holi.

4.19.9 Cwestiwn Atodol

Caiff Aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 ofyn un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i'r Aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Mae'n rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ymateb.

4.19.10 Hyd Areithiau

Caiff Aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 ac Aelod sy'n ateb cwestiwn o'r fath siarad am ddim mwy na phum munud oni bai bod y Cadeirydd yn cydsynio i gyfnod hwy.

4.19.11 Yr Amser a Ganiateir ar gyfer Cwestiynau yng Nghyfarfodydd y Cyngor

i. Ni chaiff yr amser a ganiateir ar gyfer ystyried cwestiynau a gyflwynwyd o dan Reol 4.19.2, heb gydsyniad y Cyngor, fod yn fwy na 30 munud.

ii. Ar ddiwedd yr ateb i'r cwestiwn sy'n cael ei ystyried pan fydd 30 munud wedi dod i ben (neu'r cyfryw gyfnod hwy a ganiatawyd gan y Cyngor) o'r adeg y dechreuodd yr holwr cyntaf siarad, bydd y Cadeirydd yn dod â'r cwestiynau i ben.

iii. Ymatebir i unrhyw gwestiynau sy'n weddill yn ysgrifenedig cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

4.20 **Cynigion y rhoddir Rhybudd ohonynt**

4.20.1 Rhybudd

Ac eithrio cynigion y gellir eu cyflwyno heb rybudd o dan Reol 4.21 ac mewn achosion brys, mae'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig neu trwy bost electroneg o bob cynnig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd erbyn 5 o'r gloch y prynhawn fan bellaf 10 diwrnod cyn y cyfarfod o'r Cyngor y bwriedir ei ystyried ynddo. Bydd cynigion a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi mewn modd sydd ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

4.20.2 Rhestru Cynnig yn yr Agenda

Bydd cynigion y rhoddwyd rhybudd ohonynt yn cael eu rhestru yn yr agenda yn y drefn a bennir gan y Cadeirydd.

4.20.3 Cwmpas

Mae'n rhaid i gynigion ymwneud â materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu sy'n effeithio ar les ardal weinyddol y Cyngor.

4.20.4 Cynnig i Ddiswyddo'r Arweinydd

i. Ni ellir cyflwyno cynnig i ddiswyddo'r Arweinydd oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan nifer o gynghorwyr sy'n gyfwerth â 20% o leiaf o gyfanswm nifer y cynghorwyr ar y Cyngor ac sy'n cynnwys cynghorwyr o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf. Gweler Adran **Error! Reference source not found.**.

ii. Er mwyn i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, mae'n rhaid iddo gael cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

iii. Ni ellir cyflwyno cynnig i ddiswyddo'r Arweinydd fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.

4.20.5 Un Cynnig fesul Aelod

Ni chaiff unrhyw Aelod roi rhybudd o fwy nag un cynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ac eithrio gyda chaniatâd y Cadeirydd.

4.20.6 Yr Amser a Ganiateir ar gyfer Cynigion

Ni chaiff yr amser a ganiateir ar gyfer ystyried cynigion o dan y Rheol hon, heb gydsyniad y Cyngor, fod yn fwy na 30 munud. Ar ddiwedd yr araith a draddodir pan fydd 30 munud wedi dod i ben (neu'r cyfryw gyfnod hwy y mae'r Cyngor wedi cydsynio iddo) o ddechrau'r adeg yr ystyriodd y Cyngor y cynnig cyntaf o'r fath, bydd y Cadeirydd yn cynnal pleidlais, heb drafodaeth bellach, ar yr holl gwestiynau sy'n angenrheidiol i gwblhau'r cynnig sy'n cael ei drafod, yn amodol ar y canlynol:

i. os yw'r araith sydd i'w chwblhau yn araith sy'n cyflwyno cynnig, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynnig gael ei eilio'n ffurfiol (heb sylwadau);

ii. os yw'r araith sydd i'w chwblhau yn araith sy'n cynnig gwelliant, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r gwelliant gael ei eilio'n ffurfiol (heb sylwadau) a chaiff y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig arfer ei hawl i ymateb; ac

iii. fel arall, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r sawl sy'n cyflwyno'r cynnig arfer ei hawl i ymateb.

Bydd unrhyw gynigion sy'n weddill a gyflwynwyd o dan y Rheol hon yn cael eu gohirio tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor ac ymdrinnir â hwy yn y cyfarfod hwnnw yn yr un drefn a chyn unrhyw gynigion eraill y rhoddwyd rhybudd ohonynt ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

4.21 **Cynigion Heb Rybudd**

Ceir cyflwyno'r cynigion canlynol heb rybudd:

4.21.1 penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod y cyflwynir y cynnig ynddo;

4.21.2 mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;

4.21.3 newid trefn busnes yr agenda;

4.21.4 atgyfeirio rhywbeth i gorff neu unigolyn priodol;

4.21.5 penodi pwyllgor neu Aelod sy'n codi o eitem ar yr wŷs ar gyfer y cyfarfod;

4.21.6 derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion gan bwyllgorau neu Swyddogion ac unrhyw benderfyniadau yn deillio ohonynt;

4.21.7 tynnu cynnig yn ôl;

4.21.8 gwella cynnig;

4.21.9 symud ymlaen i'r busnes nesaf;

4.21.10 bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

4.21.11 gohirio trafodaeth;

4.21.12 gohirio cyfarfod;

4.21.13 atal un o Reolau Gweithdrefnol penodol y Cyngor;

4.21.14 gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth;

4.21.15 peidio â chlywed mwy gan Aelod a enwyd o dan Reol 4.29.3 neu ei (g)wahardd o'r cyfarfod o dan Reol 4.29.4; a

4.21.16 rhoi caniatâd y Cyngor lle y mae ei ganiatâd yn ofynnol gan y Cyfansoddiad hwn.

4.22 **Rheolau Trafod**

4.22.1 Dim Areithiau nes bod Cynnig yn cael ei Eilio

Ni cheir rhoi unrhyw areithiau ar ôl i'r cynigiwr gyflwyno cynnig ac esbonio ei ddiben nes bod y cynnig wedi cael ei eilio.

4.22.2 Hawl i Fynnu Cynnig Ysgrifenedig

Oni bai bod rhybudd eisoes wedi'i roi o'r cynnig, caiff y Cadeirydd fynnu ei fod yn cael ei nodi'n ysgrifenedig a'i roi iddo ef/iddi hi cyn iddo gael ei drafod.

4.22.3 Araith yr Eilydd

Wrth eilio cynnig neu ddiwygiad, caiff Aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

4.22.4 Cynnwys a Hyd Areithiau

Mae'n rhaid i areithiau ymwneud â'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu esboniad personol neu bwynt o drefn, ac ni chaiff unrhyw araith fod yn fwy na deng munud yn achos cynigiwr y cynnig neu'r aelod lleol ar gyfer yr ardal lle saif y sefydliad neu'r tir sydd dan drafodaeth a phum munud yn achos pob siaradwr arall, heb ganiatâd y Cadeirydd.

4.22.5 Pryd y caiff Aelod Siarad Eto

Ni chaiff Aelod sydd wedi siarad ynghylch cynnig siarad eto tra bod y cynnig hwnnw'n destun trafodaeth, ac eithrio i:

i. siarad unwaith ynghylch gwelliant a gynigiwyd gan Aelod arall;

ii. cynnig gwelliant ychwanegol os cafodd y cynnig ei ddiwygio ers iddo siarad ddiwethaf;

iii. os oedd ei araith gyntaf yn ymwneud â gwelliant a gynigiwyd gan Aelod arall, siarad ynghylch y prif fater (pa un a dderbyniwyd y diwygiad y siaradodd yn ei gylch ai peidio);

iv. arfer yr hawl i ymateb;

v. codi pwynt o drefn; a

vi. rhoi esboniad personol.

4.22.6 Gwelliannau i Gynigion

i. Mae'n rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai i:

(i) atgyfeirio'r mater i gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;

(ii) ddileu geiriau;

(iii) ddileu geiriau a chynnwys neu ychwanegu geiriau eraill; neu

(iv) gynnwys neu ychwanegu geiriau

cyn belled ag nad yw effaith 4.22.6i(ii) i 4.22.6i(iv) yn negyddu'r cynnig.

ii. Dim ond un gwelliant y ceir ei gynnig a'i drafod ar unrhyw un adeg. Ni cheir cynnig unrhyw welliant ychwanegol nes bod penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r gwelliant sy'n cael ei drafod.

iii. Os na dderbynnir gwelliant, ceir cynnig gwelliannau eraill i'r cynnig gwreiddiol.

iv. Os derbynnir gwelliant, bydd y cynnig fel y cafodd ei ddiwygio yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Yna daw hwn yn gynnig gwreiddiol y bydd unrhyw welliannau ychwanegol yn cael eu cynnig iddo.

v. Ar ôl i welliant gael ei dderbyn, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig wedi'i wella cyn derbyn unrhyw ddiwygiadau pellach neu, os nad oes rhai, yn ei roi gerbron pleidlais.

4.22.7 Newid Cynnig

i. Caiff Aelod newid cynnig y mae wedi rhoi rhybudd ohono gyda chaniatâd y cyfarfod. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth.

ii. Caiff Aelod newid cynnig y mae wedi'i gyflwyno heb roi rhybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth.

iii. Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel diwygiad y ceir eu gwneud.

4.22.8 Tynnu Cynnig yn Ôl

Caiff Aelod dynnu'n ôl cynnig a gyflwynwyd ganddo/ganddi gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth. Ni chaiff unrhyw Aelod siarad ynghylch y cynnig ar ôl i'r cynigiwr ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl oni bai y gwrthodir caniatâd.

4.22.9 Hawl i Ymateb

i. Mae gan y sawl a gyflwynodd y cynnig yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y cynnig, yn union cyn iddo gael ei roi gerbron pleidlais.

ii. Os cynigir gwelliant, mae gan y sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y gwelliant, ond ni chaiff siarad yn ei gylch fel arall.

iii. Nid oes gan y sawl a gyflwynodd y gwelliant yr hawl i ymateb i'r drafodaeth ynghylch ei welliant ef/hi.

4.22.10 Cynigion y ceir eu Cyflwyno yn Ystod Trafodaeth

Pan fydd cynnig yn destun trafodaeth, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

i. tynnu cynnig yn ôl;

ii. gwella cynnig;

iii. symud ymlaen i'r busnes nesaf;

iv. bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

v. gohirio trafodaeth;

vi. gohirio cyfarfod;

vii. gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth; a

viii. pheidio â chlywed mwy gan Aelod a enwyd o dan Reol 4.29.3 neu ei (g)wahardd o'r cyfarfod o dan Reol 4.29.4.

4.22.11 Cynigion Cau

i. Caiff Aelod gyflwyno, heb roi sylwadau, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith Aelod arall;

(i) symud ymlaen i'r busnes nesaf;

(ii) bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

(iii) gohirio trafodaeth; neu

(iv) ohirio cyfarfod.

ii. Os bydd cynnig i symud ymlaen i'r busnes nesaf yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol ac yna'n rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais.

iii. Os bydd cynnig bod y cwestiwn yn awr gael ei ofyn yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol,

bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais. Os caiff ei dderbyn, bydd yn rhoi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi ei gynnig ef/ei chynnig hi gerbron pleidlais.

iv. Os bydd cynnig i ohirio'r drafodaeth neu'r cyfarfod yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn nad yw'r eitem wedi'i thrafod yn ddigonol ac na ellir gwneud hynny'n rhesymol ar yr achlysur hwnnw, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol gerbron pleidlais heb roi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol.

4.22.12 Pwynt o Drefn

Pwynt o drefn yw cais gan Aelod i'r Cadeirydd ddyfarnu ynglŷn ag afreoleidd-dra honedig yng ngweithdrefn y cyfarfod. Caiff Aelod godi pwynt o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn gwrando arno/arni ar unwaith. Caiff pwynt o drefn ymwneud yn unig â honiad o dorri Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor neu'r gyfraith. Mae'n rhaid i'r Aelod nodi'r rheol neu'r gyfraith a'r ffordd y mae'n ystyried y'i torrwyd. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â'r mater yn derfynol.

4.22.13 Esboniad Personol

Caiff Aelod roi esboniad personol ar unrhyw adeg. Caiff esboniad personol ymwneud yn unig â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr Aelod a allai ymddangos fel pe bai wedi'i chamddeall yn y drafodaeth bresennol. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â derbynioldeb esboniad personol yn derfynol.

4.22.14 Iaith

(i) Ym mhob cyfarfod bydd i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yr un statws a'r un dilysrwydd.

(ii) Bydd gan bawb hawl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg pan fydd yn siarad mewn unrhyw gyfarfod.

(iii) Rhaid i'r swyddog priodol drefnu i ddarparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg (ac o'r Saesneg i'r Gymraeg pan ofynnir am hynny), ym mhob cyfarfod.

(iv) Yn absenoldeb cyfieithu ar y pryd, caniateir i fusnes cyfarfod fynd yn ei flaen, ond rhaid i'r sawl sy'n llywyddu sicrhau ar gais unrhyw aelod (gan gynnwys y siaradwr) y caiff union eiriau unrhyw gynnig, welliant, gwestiwn, ateb neu bwynt o drefn ac o leiaf sylwedd unrhyw araith neu sylw eu cyfieithu, ond ni fydd unrhyw fethiant anfwriadol i gydymffurfio â'r rheol hon neu unrhyw wall anfwriadol yn y cyfieithiad yn annilysu unrhyw benderfyniad.

4.23 **Trafodaeth ynghylch Cyflwr y Sir**

4.23.1 Galw Trafodaeth

Caiff yr Arweinydd alw trafodaeth ynghylch cyflwr y sir bob blwyddyn ar ddyddiad ac ar ffurf y cytunir arnynt gyda'r Cadeirydd.

4.23.2 Ffurf y Drafodaeth

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar ffurf y drafodaeth gyda'r nod o alluogi cymaint o gyfranogiad gan y cyhoedd a chyhoeddusrwydd â phosibl. Gallai hyn gynnwys cynnal gweithdai a digwyddiadau eraill cyn neu yn ystod y drafodaeth.

4.23.3 Cadeirio'r Drafodaeth

Cadeirir y drafodaeth gan y Cadeirydd.

4.23.4 Canlyniadau'r Drafodaeth

Bydd canlyniadau'r drafodaeth yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl yn y gymuned ac ymhlith asiantaethau a sefydliadau yn yr ardal sy'n gweithio mewn partneriaeth weithredol â'r Cyngor, a byddant yn cael eu hystyried gan yr Arweinydd wrth gynnig y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

4.24 **Penderfyniadau a Chynigion Blaenorol**

4.24.1 Cynnig i Ddiddymu Penderfyniad Blaenorol

Ni ellir cyflwyno cynnig neu welliant i ddiddymu penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod o'r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf 15 Aelod, ac eithrio yn achos gwybodaeth newydd sy'n dod i'r amlwg.

4.24.2 Cynnig sy'n Debyg i Un a Wrthodwyd yn Flaenorol

Ni ellir cyflwyno cynnig neu welliant sy'n debyg i un a wrthodwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf 15 Aelod. Pan fydd y cynnig neu'r gwelliant wedi derbyn sylw, ni all unrhyw un gyflwyno cynnig neu welliant tebyg am chwe mis.

4.25 **Pleidleisio**

4.25.1 Mwyafrif

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu'n wahanol, penderfynir ar unrhyw fater gan fwyafrif syml o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

4.25.2 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes nifer gyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y bydd y Cadeirydd yn dewis arfer pleidlais fwrw.

4.25.3 Dull Pleidleisio

Oni bai y mynnir pleidlais gudd o dan Reol 4.25.4 neu bleidlais gofrestredig o dan Reol 4.25.4, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais trwy godi dwylo, neu drwy ddefnyddio system bleidleisio electronig y Cyngor os oes un, neu os nad oes anghytundeb, trwy gadarnhad y cyfarfod.

4.25.4 Pleidlais Gudd

Cymerir y bleidlais drwy bleidlais gudd os yw o leiaf dau allan o dri aelod gyda phleidlais sy'n bresennol yn y cyfarfod yn hawlio hynny. Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais cyn gynted ag y bo'r canlyniad yn wybyddus.

4.25.5 Pleidlais Gofrestredig

Os bydd o leiaf chwarter o Aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn mynnu, bydd yr enwau o blaid ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu sy'n ymatal rhag pleidleisio yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u cynnwys yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais gudd yn cael blaenoriaeth ar alwad am bleidlais gofrestredig.

4.25.6 Yr Hawl i Fynnu bod Pleidlais Unigol yn cael ei Chofnodi

Pan fydd unrhyw Aelod yn gofyn am hynny yn syth ar ôl y bleidlais, bydd ei bleidlais ef/ei phleidlais hi yn cael ei chofnodi felly yn y cofnodion i ddangos pa un a bleidleisiodd o blaid neu yn erbyn y cynnig neu a ymatalodd rhag pleidleisio.

4.25.7 Pleidleisio ar Benodiadau

Os enwebir mwy na dau unigolyn ar gyfer unrhyw swydd sydd i'w llenwi ac nid oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un unigolyn, yna bydd enw'r unigolyn sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei ddileu o'r rhestr a phleidlais newydd yn cael ei chynnal. Bydd y broses yn parhau hyd nes y ceir mwyafrif o bleidleisiau dros un unigolyn.

## 4.26 Cofnodion

4.26.1 Llofnodi'r Cofnodion

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu llofnodi yn gofnod cywir. Yr unig ran o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

4.26.2 Dim Gofyniad i Lofnodi Cofnodion Cyfarfod Blaenorol mewn Cyfarfod Arbennig

O ran unrhyw gyfarfod, pan fydd y cyfarfod nesaf at ddiben llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a alwyd o dan baragraff 3 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (cyfarfod arbennig), yna bydd y cyfarfod dilynol nesaf (sef cyfarfod a alwyd heblaw o dan y paragraff hwnnw) yn cael ei

drin fel cyfarfod addas at ddibenion paragraff 41(1) a (2) Atodlen 12 yn ymwneud â llofnodi cofnodion.

4.26.3 Ffurf Cofnodion

Bydd cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a gwelliannau yn y ffurf a'r drefn y'u cymerwyd gan y Cadeirydd.

## 4.27 **Cofnod o Bresenoldeb**

Mae'n rhaid i'r holl Aelodau sy'n bresennol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran ohono (heblaw rhai sy'n ymuno o bell) lofnodi eu henwau ar y dalenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod er mwyn cynorthwyo â'r cofnod presenoldeb.

## 4.28 **Gwahardd y Cyhoedd**

Ceir gwahardd aelodau'r cyhoedd a'r wasg dim ond yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn neu Reol 4.30 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

## 4.29 **Ymddygiad Aelodau**

4.29.1 Siarad mewn Cyfarfodydd

Pan fydd Aelod yn siarad yn y Cyngor Llawn mae'n rhaid iddo ef/iddi hi sefyll ac annerch y cyfarfod trwy'r Cadeirydd. Os bydd mwy nag un Aelod yn mynegi eu bod yn bwriadu siarad, bydd y Cadeirydd yn gofyn i un siarad. Mae'n rhaid i Aelodau eraill aros yn dawel tra bod Aelod yn siarad oni bai eu bod yn dymuno codi pwynt o drefn neu roi esboniad personol.

4.29.2 Y Cadeirydd yn Sefyll

Pan fydd y Cadeirydd yn sefyll yn ystod trafodaeth, mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n siarad ar y pryd fod yn dawel ac eistedd i lawr.

4.29.3 Peidio â Chlywed Mwy gan Aelod

Os bydd Aelod yn diystyru dyfarniad y Cadeirydd yn gyson trwy ymddwyn yn amhriodol neu'n llesteirio busnes yn fwriadol, caiff y Cadeirydd gynnig na ddylid clywed mwy gan yr Aelod. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.

4.29.4 Gofyn i Aelod Adael y Cyfarfod

Os bydd yr Aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, caiff y Cadeirydd gynnig bod yr Aelod yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.

4.29.5 Aflonyddwch Cyffredinol

Os oes aflonyddwch cyffredinol sy'n golygu bod busnes trefnus yn amhosibl, caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod am gyn hired ag y mae'n barnu sy'n angenrheidiol.

4.30 **<u>Aflonyddwch gan y Cyhoedd</u>**

4.30.1 <u>Symud Aelod o'r Cyhoedd</u>

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhoi rhybudd i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo ef/iddi hi gael ei symud o ystafell y cyfarfod.

4.30.2 <u>Clirio Rhan o Ystafell y Cyfarfod</u>

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o ystafell y cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, caiff y Cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlirio.

4.31 **<u>Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd</u>**

Caniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd cyn belled ag na aflonyddir ar reolaeth y cyfarfod.

4.32 **<u>Atal a Diwygio Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor</u>**

4.32.1 <u>Atal</u>

Ceir atal holl Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, ac eithrio Rheolau 4.20.5, 4.25.6 a 4.26.2, trwy gynnig y rhoddir rhybudd ohono neu gynnig heb rybudd os yw o leiaf hanner nifer cyfan Aelodau'r Cyngor yn bresennol. Bydd yr ataliad mewn grym am barhad y cyfarfod yn unig. Gellir atal Rheol 4.20.5 trwy gynnig y rhoddir rhybudd ohono yn unig ac mae'n rhaid i'r cynnig gael ei gefnogi gan o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau hynny sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

4.32.2 <u>Diwygio</u>

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddirymu Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor, pan fydd yn cael ei gyflwyno a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth hyd nes cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

4.33 **<u>Cymhwyso i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau</u>**

Mae holl Reolau Gweithdrefnol y Cyngor yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn. Nid yw'r un o'r rheolau yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet. Dim ond Rheolau 4.13 i 4.16, 4.19 i 4.22, 4.24 i 4.33 (ond nid Rheol 4.29.1) sy'n berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

**ADRAN 5**

## 5. Y CABINET

### 5.1 Cyflwyniad

Penodir y Cabinet i gyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny yn ôl y Gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn.

### 5.2 Ffurf a Chyfansoddiad y Cabinet

Bydd y Cabinet yn cynnwys:

5.2.1 Arweinydd y Cyngor (yr "Arweinydd"); ac

5.2.2 o leiaf ddau ond dim mwy na naw Cynghorydd arall a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

### 5.3 Yr Arweinydd

5.3.1 Ethol

Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd a etholwyd i swydd yr Arweinydd gan y Cyngor.

5.3.2 Cyfnod yn y Swydd

Penodir yr Arweinydd am dymor y Cyngor.

5.3.3 Rôl yr Arweinydd

Bydd yr Arweinydd yn Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet ac yn pennu portffolios Aelodau'r Cabinet.  Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adran **Error! Reference source not found.**.

### 5.4 Dirprwy Arweinydd

5.4.1 Bydd yr Arweinydd yn penodi Dirprwy Arweinydd i weithredu fel Arweinydd yn ei (h)absenoldeb ef/hi.  Caiff yr Arweinydd ddiswyddo'r Dirprwy Arweinydd hefyd ar unrhyw adeg os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

5.4.2 Caiff y Dirprwy Arweinydd arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd pan fo'r swydd yn wag neu pan fo'r Arweinydd yn absennol neu'n methu â gweithredu fel arall.

### 5.5 Aelodau Eraill y Cabinet

Bydd Aelodau eraill y Cabinet yn Gynghorwyr a benodwyd i swydd Aelod o'r Cabinet gan yr Arweinydd.  Bydd pob Aelod o'r Cabinet yn dal y swydd hyd nes:

5.5.1 y bydd ef/hi yn ymddiswyddo o'r swydd honno; neu

5.5.2 y caiff ef/hi ei (d)diswyddo o'r swydd honno gan yr Arweinydd ar ôl i'r Arweinydd roi'r cyfryw gyfnod o rybudd (os o gwbl) ag y mae'n ystyried sy'n briodol; neu

5.5.3 y bydd ef/hi yn peidio â bod yn Gynghorydd.

Caiff yr Arweinydd benodi Aelod o'r Cabinet ar unrhyw adeg i lenwi unrhyw swyddi gwag.

5.6 **Dirprwyo Swyddogaethau**

Caiff yr Arweinydd arfer Swyddogaethau Gweithredol ei hun neu, fel arall, wneud trefniadau i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros eu cyflawni. Caiff yr Arweinydd ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i'r canlynol:

5.6.1 y Cabinet yn ei chyfanrwydd;

5.6.2 un o Bwyllgorau'r Cabinet (sy'n cynnwys Aelodau gweithredol yn unig);

5.6.3 Aelod unigol o'r Cabinet;

5.6.4 cyd-bwyllgor;

5.6.5 awdurdod lleol arall neu weithrediaeth awdurdod lleol arall;

5.6.6 Swyddog dirprwyedig.

5.7 **Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod**

Bydd trafodion y Cabinet yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Weithrediaeth yn Adran **Error! Reference source not found.** isod.

5.8 **Rheolau gweithdrefn y Cabinet**

5.8.1 Dirprwyo gan yr Arweinydd

Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn ôl cyfarwyddyd yr Arweinydd, yn llunio cofnod ysgrifenedig o'r dirprwyaethau gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd i'w gynnwys yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am Swyddogaethau Gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn i ddod:

(a) maint unrhyw awdurdod a ddirprwywyd i Aelodau'r Cabinet yn unigol, gan gynnwys manylion y cyfyngiad ar eu hawdurdod;

(b) cylch gorchwyl a chyfansoddiad pa bwyllgorau Cabinet bynnag ag y bydd yr Arweinydd yn eu penodi ac enwau Aelodau'r Cabinet a benodir iddynt;

(c) natur a maint unrhyw ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i unrhyw awdurdod arall neu unrhyw drefniadau ar y cyd;

(ch) natur a maint unrhyw ddirprwyo i Swyddogion ynghyd â manylion unrhyw gyfyngiad ar y dirprwyo hynny, a theitl y Swyddog y gwneir y dirprwyo iddo/iddi.

5.8.2 Is-ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol

(a) Pan fydd y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet neu Aelod unigol o'r Cabinet yn gyfrifol am Swyddogaeth Weithredol, caiff ddirprwyo ymhellach i drefniadau ar y cyd neu Swyddog.

(b) Oni bai bod yr Arweinydd yn cyfarwyddo fel arall, caiff un o bwyllgorau'r Cabinet y dirprwywyd swyddogaethau iddo gan yr Arweinydd ddirprwyo ymhellach i Swyddog.

(c) Pan fydd Swyddogaethau Gweithredol wedi'u dirprwyo, ni fydd y ffaith honno'n atal yr unigolyn neu'r corff a ddirprwyodd y swyddogaethau dirprwyedig rhag eu cyflawni.

5.8.3 Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor

(a) Caiff yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol ar unrhyw adeg. Wrth wneud hynny, bydd yr Arweinydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r unigolyn, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd amlinellu maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar unrhyw unigolyn, corff neu bwyllgor. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor yn amlinellu'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

(b) Pan fydd yr Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar un o bwyllgorau'r Cabinet, ystyrir bod rhybudd wedi'i roi i'r pwyllgor hwnnw pan fydd wedi'i roi i'w gadeirydd.

5.8.4 Gwrthdaro Buddiannau

(a) Pe byddai gan yr Arweinydd wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn.

(b) Pe byddai gan unrhyw Aelod o'r Cabinet wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn.

(c) Os yw'r pŵer i arfer Swyddogaeth Weithredol wedi'i ddirprwyo i un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelod unigol neu

Swyddog, a bod gwrthdaro buddiannau'n codi, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei harfer yn y lle cyntaf gan yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y ddirprwyaeth ac fel arall fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn.

5.8.5 Cyfarfodydd y Cabinet – Pryd a Ble?

Yr Arweinydd fydd yn pennu amlder ac amseriad cyfarfodydd y Cabinet. Bydd y Cabinet yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu mewn lleoliad arall i'w gytuno gan yr Arweinydd.

5.8.6 Cyfarfodydd Cyhoeddus neu Breifat o'r Cabinet?

Bydd y Cabinet yn cynnal ei gyfarfodydd/chyfarfodydd yn gyhoeddus, ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran **Error! Reference source not found.**, er enghraifft pan fydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei thrafod.

5.8.7 Cworwm

(a) Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Cabinet fydd chwarter yr aelodau gan gynnwys yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd.

(b) Y cworwm ar gyfer cyfarfod un o bwyllgorau'r Cabinet fydd dau.

5.8.8 Sut bydd Penderfyniadau'n cael eu Gwneud gan y Cabinet?

(a) Bydd Penderfyniadau Gweithredol gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd yn cael eu gwneud mewn cyfarfod a gynullwyd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn.

(b) Pan ddirprwyir Penderfyniadau Gweithredol i un o bwyllgorau'r Cabinet, bydd y rheolau sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir ganddo yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd.

## 5.9 Sut y Cynhelir Cyfarfod y Cabinet?

5.9.1 Pwy fydd yn Llywyddu?

Bydd yr Arweinydd yn llywyddu unrhyw gyfarfod o'r Cabinet neu ei bwyllgorau y mae'n bresennol ynddo. Yn absenoldeb yr Arweinydd, bydd y Dirprwy Arweinydd yn llywyddu. Yn ei (h)absenoldeb ef/hi, bydd unigolyn yn cael ei benodi i lywyddu gan y rhai hynny sy'n bresennol.

5.9.2 Pwy Gaiff Fynychu?

Amlinellir y manylion hyn yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn. Gweler hefyd Adran **Error! Reference source not found.** o ran cyfranogiad Aelodau mewn cyfarfodydd.

5.9.3 Pa Fusnes?

Ym mhob cyfarfod o'r Cabinet, bydd y busnes canlynol yn cael ei gynnal:

(a) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(b) datganiadau o fuddiannau, os oes rhai;

(c) materion a atgyfeiriwyd i'r Cabinet (boed hynny gan Bwyllgorau Craffu neu gan y Cyngor) i'w hystyried gan y Cabinet yn unol â'r darpariaethau a geir yn y Rheolau Gweithdrefnol Trosolwg a Chraffu neu Reolau Gweithdrefnol y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a amlinellir yn Adrannau **Error! Reference source not found.** a **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn;

(ch) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau Craffu;

(d) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau'r Cabinet ;

(dd) adroddiadau gan Aelodau'r Cabinet a/neu Swyddogion yr Awdurdod.

5.9.4 Ymgynghori

Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau i'r Cabinet gan unrhyw Aelod o'r Cabinet neu Swyddog ar gynigion yn ymwneud â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi gynnwys manylion am natur a graddau ymgynghoriad a gynhaliwyd â rhanddeiliaid a chyda'r Pwyllgor Craffu a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau ar faterion eraill yn nodi manylion a chanlyniad ymgynghoriadau fel y bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n ofynnol yn briodol i natur y mater sy'n cael ei ystyried.

5.9.5 Pwy gaiff roi Eitemau ar Agenda'r Cabinet?

(a) Yr Arweinydd fydd yn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet. Caiff ef/hi roi unrhyw fater ar agenda unrhyw gyfarfod o'r Cabinet pa un a yw awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cabinet, un o'i bwyllgorau neu unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas â'r mater hwnnw ai peidio.

(b) Caiff unrhyw Aelod o'r Cabinet fynnu bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod nesaf y Cabinet i'w hystyried.

(c) Caiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Ariannol gynnwys eitem i'w hystyried ar agenda cyfarfod o'r Cabinet a chaiff fynnu bod cyfarfod o'r fath yn cael ei gynnull yn unol â'i (d)dyletswyddau statudol.

(ch) Mewn amgylchiadau eraill, pan fydd unrhyw ddau o Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Prif Swyddog Ariannol a'r Swyddog Monitro o'r farn bod angen galw cyfarfod o'r Cabinet i ystyried mater y mae angen gwneud penderfyniad arno, cânt gynnwys eitem ar agenda cyfarfod o'r Cabinet ar y cyd. Os nad oes cyfarfod i ymdrin â'r mater dan sylw, yna caiff yr unigolyn/unigolion sydd â hawl i gynnwys eitem ar yr agenda fynnu hefyd fod cyfarfod yn cael ei ystyried ac y caiff y mater ei drafod ynddo.

5.10 **<u>Aflonyddwch gan y Cyhoedd a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol</u>**

5.10.1 Mae'r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran **Error! Reference source not found.** mewn perthynas ag aflonyddwch gan y cyhoedd yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet.

5.10.2 Mae'r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran **Error! Reference source not found.** sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet.

**ADRAN 7**

## 7. **PWYLLGORAU CRAFFU**

### 7.1 **Cyflwyniad**

7.1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan y Gyfraith, gyflawni swyddogaethau trosolwg a chraffu penodol. Mae'r swyddogaethau hyn yn elfen hollbwysig o ddemocratiaeth leol. Dylai Pwyllgorau Craffu fod yn bwyllgorau pwerus sy'n gallu cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cyngor a dwyn y Cabinet i gyfrif am ei benderfyniadau. Rhan allweddol arall o'r rôl trosolwg a chraffu yw adolygu polisïau presennol, ystyried cynigion ar gyfer polisïau newydd ac awgrymu polisïau newydd.

7.1.2 Dylid cynnal trosolwg a chraffu mewn ffordd adeiladol a dylai geisio cyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n bodloni anghenion a dyheadau preswylwyr lleol. Ni ddylai Pwyllgorau Craffu ofni herio a chwestiynu penderfyniadau a rhoi beirniadaeth adeiladol.

### 7.2 **Pwyllgorau Craffu**

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi penodi 3 o Bwyllgorau Craffu a fydd, rhyngddynt, yn:

7.2.1 adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor;

7.2.2 llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;

7.2.3 ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu ei phreswylwyr; ac

7.2.4 arfer yr hawl i alw i mewn penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a Swyddogion, ond sydd heb eu gweithredu eto, er mwyn eu hailystyried.

7.3 **Rôl, Cwmpas ac Aelodaeth**

Disgrifir rôl, cwmpas ac Aelodaeth y Pwyllgorau Craffu yn y tabl isod:

| **Pwyllgor ac Aelodaeth** | **Rôl a Chwmpas** |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gweithrediad y Cyngor yn fewnol megis:<br>• Strategaeth Corfforaethol<br>• Partneriaethau<br>• Ymgysylltu<br>• Trawsnewid Busnes<br>• Effeithlonrwydd Gwasanaethau<br>• Cytundeb Canlyniadau<br>• Gweithlu<br>• Gofal Cwsmer |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau i'r gymuned ehangach megis:<br>• Adfywio ac Economi<br>• Gwynedd Werdd<br>• Amgylchedd<br>• Rhwydwaith Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol<br>• Grymuso Cymunedau<br>• Gwastraff<br>• Tai<br>• Iaith<br>• Lleihau ôl-troed Carbon<br>• Cynllun Datblygu Lleol |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau i unigolion megis:<br>• Pobl hyn ac Oedolion<br>• Teuluoedd<br>• Plant a Phobl Ifanc<br>• Addysg<br>• Llwybr i gyflogaeth<br>• Iechyd |

7.4 **<u>Swyddogaethau Penodol</u>**

7.4.1 <u>Datblygu ac Adolygu Polisïau</u>

Caiff y Pwyllgorau Craffu:

(a) ystyried effaith polisïau er mwyn asesu a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth;

(b) gynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei Gyllideb a Fframwaith Polisi trwy ddadansoddi materion polisi yn fanwl;

(c) gynnal ymchwil, ymgynghoriadau â'r gymuned ac ymgynghoriadau eraill wrth ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;

(ch) holi barn Aelodau'r Cabinet] a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor am faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal; a

(d) cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, pa un a ydynt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwella trwy waith cydweithredol.

7.4.2 <u>Craffu</u>

Caiff y Pwyllgorau Craffu:

(a) adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cabinet a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor o ran penderfyniadau unigol a thros amser;

(b) adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor o ran ei amcanion polisi, ei dargedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol;

(c) holi Aelodau'r Cabinet a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor ynglŷn â'u penderfyniadau a'u perfformiad, boed hynny'n gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu o ran penderfyniadau, mentrau neu brosiect penodol;

(ch) gwneud argymhellion i'r Cabinet a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor sy'n deillio o ganlyniad y broses graffu;

(d) adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill a phersonau dynodedig yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt trwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgorau Craffu a phobl leol ynglŷn â'u gweithgareddau a'u perfformiad; a

(dd) holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw unigolyn (gyda'i ganiatâd ef/ei chaniatâd hi).

7.4.3 Cyllid

Gall y Pwyllgorau Craffu ymarfer cyfrifoldeb cyffredinol am y cyllid a sicrheir iddynt.

7.4.4 Adroddiad Blynyddol

Mae'n rhaid i'r Pwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i aelodau'r Cyngor ar eu gwaith gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglen waith yn y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yw'n briodol.

7.5 **Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

Un o rolau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o dan adran 8 y Mesur yw hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu y Cyngor a hyrwyddo cymorth ac arweiniad i Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn gyffredinol ynglŷn â swyddogaethau'r Pwyllgorau Craffu.

7.6 **Pwy Gaiff fod yn Aelod o Bwyllgorau Craffu?**

Caiff pob Cynghorydd ac eithrio Aelodau'r Cabinet fod yn Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw Aelod ymwneud â chraffu ar benderfyniadau y mae ef/hi wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy.

7.7 **Aelodau Cyfetholedig**

Bydd gan bob Pwyllgor Craffu yr hawl i argymell i'r Cyngor benodi uchafswm o ddau o bobl yn aelodau cyfetholedig nad oes ganddynt bleidlais. Wrth arfer pŵer i benodi aelod cyfetholedig, neu benderfynu pa un ai arfer y pŵer hwnnw, mae'n rhaid i'r Awdurdod, o dan adran 76 y Mesur, roi ystyriaeth i'r arweiniad a roddwyd gan Weinidogion Cymru a chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddwyd ganddynt.

7.8 **Cynrychiolwyr Addysg**

Bydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn cynnwys yn ei Aelodaeth gynrychiolwyr pleidleisio o gredoau crefyddol a rhiant-lywodraethwyr, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac arweiniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

7.9 **Pwy fydd yn Cadeirio?**

Bydd y trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael eu dilyn ar gyfer penodi unigolion i gadeirio Pwyllgorau Craffu.

7.10 **Rôl y Cadeirydd a'r Pwyllgorau Craffu**

7.10.1 Bydd rôl Cadeirydd y Pwyllgorau Craffu yn hollbwysig wrth weithredu'r dull newydd o weithio. Bydd y Cadeiryddion yn cysylltu â'r Cabinet, yn goruchwylio'r Rhaglen Waith ac yn nodi themâu trawsbynciol sy'n codi o'r Pwyllgorau Craffu amrywiol.

7.10.2 I grynhoi, felly, bydd y Cadeirydd yn:

(a) atebol am gyflawni'r ffordd newydd o weithio ar gyfer craffu;

(b) cyfarfod yn rheolaidd i fonitro Rhaglenni Gwaith;

(c) cysylltu â'r Cabinet ynglŷn â materion sy'n effeithio ar y Rhaglen Waith Craffu; ac yn

(ch) adrodd yn ysgrifenedig i aelodau'r Cyngor ar gynnydd wrth weithredu'r dulliau newydd o weithio.

7.11 **Rhaglen Waith**

Bydd y Pwyllgorau Craffu yn gyfrifol am osod eu Rhaglen Waith eu hunain ac, wrth wneud hynny, dylent ystyried dymuniadau Aelodau'r Pwyllgor hwnnw nad ydynt yn Aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf yn y Cyngor. Cânt hefyd ystyried materion brys ac annisgwyl nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith.

7.12 **Cyfarfodydd**

7.12.1 Bydd y Pwyllgorau Craffu yn cynnal 5 o gyfarfodydd y flwyddyn.

7.12.2 Ceir galw cyfarfodydd arbennig o bryd i'w gilydd er mwyn ymdrin â materion a alwyd i mewn (Adran 7.25) lle y mae Cadeirydd Pwyllgor Craffu o'r farn bod angen i'r Pwyllgor Craffu hwnnw ystyried y penderfyniad a alwyd i mewn cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor.

.

7.13 **Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

O dan adran 58 y Mesur, ceir gwneud rheoliadau i ganiatáu i ddau awdurdod lleol neu fwy benodi Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.. Amlinellir hyn yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2012.

7.14 **Rheolau Gweithdrefn a Thrafod**

Bydd y Rheolau Gweithdrefn Craffu yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu

7.15 **Faint o Bwyllgorau Craffu a Sefydlir a beth fydd y Trefniadau ar eu cyfer?**

7.15.1 Bydd gan y Cyngor 3 o Bwyllgorau Craffu a nodir yn y tabl yn Adran 7.3 a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o bryd i'w gilydd. Caiff y Pwyllgorau benodi grwpiau llai i gynnal archwiliad manwl o bynciau penodol er mwyn adrodd yn ôl iddynt. Ceir penodi grwpiau o'r fath am gyfnod penodol ac fe'u diddymir pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben.

7.15.2 Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgorau Craffu fel a nodir yn y tabl yn Adran 7.3.

7.15.3 Cadeirir pob Pwyllgor Craffu gan Gadeirydd a benodwyd o aelodaeth y Pwyllgor Craffu hwnnw:

(a) bydd Aelodaeth drawsbleidiol ym mhob Pwyllgor Craffu;

(b) bydd y Pwyllgorau Craffu yn ymgymryd â'r canlynol:

(i) adolygu neu ymchwilio i fater penodol yn fanwl ac yn ddi-oed, gan adrodd ar eu casgliadau a gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet fel y bo'n briodol;

(ii) cynnal ymchwil ac ymgynghoriadau â'r gymuned (ac eraill) at ddibenion dadansoddi materion a datblygu dewisiadau posibl, lle y bo'n briodol, trwy gysylltu â'r partneriaethau ardal/cymunedol;

(iii) ystyried ac adrodd ar ddulliau o annog a gwella cyfranogiad y gymuned mewn datblygu dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau;

(iv) holi Aelodau'r Cabinet a Swyddogion am eu barn a'u gweithredoedd o ran materion a chynigion sy'n effeithio ar y sir];

(v) cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, pa un a ydynt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwella trwy waith cydweithredol; a

(vi) holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw unigolyn (gyda'i ganiatâd ef/ei chaniatâd hi) wrth gynnal prosesau ymchwiliol ac adrodd.

7.16 **<u>Cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu</u>**

Caiff y Cyngor bennu cylch o gyfarfodydd ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. Os nad yw'r Cyngor yn pennu'r cylch, bydd pob Pwyllgor o'r fath yn pennu ei gylch cyfarfodydd ei hun. Caiff y Cadeirydd neu, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd, newid dyddiad neu ganslo cyfarfodydd, neu alw cyfarfodydd ychwanegol fel yr ystyria'n angenrheidiol i ymdrin â rhaglen waith y Pwyllgor. Caiff y Cadeirydd (neu, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd) neu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd alw cyfarfod Pwyllgor Craffu, os yw ef/hi o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

7.17 **<u>Cworwm</u>**

Bydd y cworwm ar gyfer Pwyllgor Craffu yn chwarter aelodau'r pwyllgor.

7.18 **<u>Eitemau Agenda</u>**

7.18.1 Bydd gan unrhyw Aelod o Bwyllgor Craffu penodol yr hawl i roi rhybudd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei fod/bod yn

dymuno ychwanegu eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor hwnnw at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Dylid rhoi saith diwrnod gwaith o rybudd o'r eitem i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghyd â digon o wybodaeth i alluogi'r Swyddog i gynghori ynghylch natur a diben yr eitem.

7.18.2 Ar ôl derbyn cais o'r fath, cyn belled ag y bo'n fater priodol i'w ystyried, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau ei fod yn cael ystyriaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer ei gynnwys yn yr agenda nesaf sydd ar gael.

7.18.3 Bydd Pwyllgor Craffu hefyd yn ymateb, cyn gynted ag y bydd ei raglen waith yn caniatáu, i geisiadau gan y Cyngor a/neu'r Cabinet i adolygu meysydd penodol o weithgarwch y Cyngor. Pan fydd yn gwneud hynny, bydd y Pwyllgor Craffu penodol yn adrodd ar ei ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet a/neu'r Cyngor. Bydd y Cyngor a/neu'r Cabinet yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Craffu o fewn mis o'i dderbyn.

7.19 **Adolygu a Datblygu Polisi**

7.19.1 Amlinellir rôl y Pwyllgorau Craffu o ran datblygu Cyllideb a Fframwaith Polisi'r Cyngor yn fanwl yn Rheolau Gweithdrefnol y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn Adran 15.

7.19.2 O ran datblygu ymagwedd y Cyngor at faterion nad ydynt yn rhan o'i Gyllideb a'i Fframwaith Polisi, caiff Pwyllgor Craffu gyflwyno cynigion i'r Cabinet ar gyfer datblygiadau cyn belled â'u bod yn berthnasol i faterion sydd o fewn ei gylch gorchwyl.

7.19.3 Caiff Pwyllgor Craffu gynnal ymchwiliadau ac archwilio'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer cyfeiriad datblygu polisi yn y dyfodol a chaiff benodi ymgynghorwyr ac aseswyr i'w gynorthwyo â'r broses hon. Caiff ymweld â safleoedd, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil a gwneud yr holl bethau eraill y mae'n ystyried yn rhesymol eu bod yn briodol i lywio ei ystyriaethau. Caiff ofyn i dystion fynychu i'w annerch ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried a chaiff dalu ffi resymol a threuliau i unrhyw ymgynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny.

7.20 **Adroddiadau gan y Pwyllgorau Craffu**

7.20.1 Bydd pob adroddiad ffurfiol gan y Pwyllgorau Craffu yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried gan y Cabinet (os yw'r cynigion yn gyson â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi presennol), neu i'r Cyngor fel y bo'n briodol (e.e. pe byddai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth neu newid y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi cytunedig).

7.20.2 Os na all Pwyllgor Craffu gytuno ar un adroddiad terfynol sengl i'r Cyngor neu'r Cabinet fel y bo'n briodol, ceir paratoi un adroddiad lleiafrif a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor neu'r Cabinet gyda'r adroddiad mwyafrif.

7.20.3 Bydd y Cyngor neu'r Cabinet yn ystyried adroddiad Pwyllgor Craffu o fewn mis o'i gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

7.21 **<u>Sicrhau bod Adroddiadau Craffu yn cael eu hystyried gan y Cabinet</u>**

7.21.1 Bydd yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet yn cynnwys eitem o'r enw "Materion yn Codi o Drosolwg a Chraffu". Bydd adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu a atgyfeiriwyd i'r Cabinet yn cael eu cynnwys ar y pwynt hwn yn yr agenda (oni bai eu bod wedi derbyn sylw yng nghyd-destun ystyriaethau'r Cabinet ynglŷn ag eitem berthnasol ar yr agenda) cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Os na fydd eitem yn cael ei hystyried gan y Cabinet o fewn deufis, bydd y Cabinet yn rhoi esboniad o'r rhesymau i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

7.21.2 Pan fydd y Cabinet wedi dirprwyo pŵer gwneud penderfyniadau i Aelod unigol arall o'r Cabinet, bydd Pwyllgor Craffu yn cyflwyno copi o'i adroddiad iddo ef/iddi hi i'w ystyried. Ar yr adeg y gwneir hynny, bydd y Pwyllgor Craffu yn rhoi copi o'r adroddiad i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'n rhaid i'r Aelod y dirprwywyd pŵer gwneud penderfyniadau iddo/iddi ystyried yr adroddiad ac ymateb yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Craffu o fewn pedair wythnos o'i dderbyn. Bydd copi o'i (h)ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon at y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd. Bydd yr Aelod hefyd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw yn y dyfodol i gyflwyno ei (h)ymateb.

7.22 **<u>Hawliau Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i weld Dogfennau</u>**

7.22.1 Yn ogystal â'u hawliau fel Cynghorwyr, mae gan Aelodau'r Pwyllgorau Craffu yr hawl ychwanegol i weld dogfennau, ac i gael rhybudd o gyfarfodydd fel yr amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

7.22.2 Nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn atal cysylltiad manylach rhwng y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu fel y bo'n briodol yn dibynnu ar y mater penodol sy'n cael ei ystyried.

7.23 **<u>Esboniadau gan Aelodau a Swyddogion</u>**

7.23.1 Caiff y Pwyllgorau Craffu adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor. Yn ogystal ag adolygu dogfennau, wrth gyflawni'r rôl Graffu, cânt ofyn i unrhyw Aelod o'r Cabinet, y Prif Weithredwr a/neu unrhyw uwch Swyddog ymddangos ger eu bron i esbonio mewn perthynas â materion sydd o fewn eu cylch gorchwyl:

(a) unrhyw benderfyniad penodol neu gyfres o benderfyniadau;

(b) i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu

(c) ei berfformiad ef/pherfformiad hi

ac mae'n ddyletswydd ar yr unigolion hynny i fod yn bresennol os gofynnir iddynt.

7.23.2 At y diben hwn, mae uwch Swyddog yn cynnwys unrhyw brif Swyddog, dirprwy brif Swyddog ac uwch Swyddog priodol arall. Pan fo pryderon ynglŷn â phriodoldeb y Swyddog a ddylai fod yn bresennol, bydd y prif Swyddog perthnasol yn trafod hyn gyda'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd Craffu priodol er mwyn ceisio cael cydsyniad.

7.23.3 Pan fydd yn ofynnol i unrhyw Aelod neu Swyddog fynychu Pwyllgor Craffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw'n hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu'r Aelod neu'r Swyddog, yn ysgrifenedig os oes angen, gan roi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddo ef/iddi hi ei fynychu (oni bai y cytunwyd fel arall). Bydd unrhyw rybudd yn nodi natur yr eitem y mae'n ofynnol iddo ef/iddi hi fynychu i'w hesbonio a pha un a yw'n ofynnol dangos unrhyw bapurau i'r Pwyllgor.

7.23.4 Pan fydd yr esboniad sydd i'w roi i Bwyllgor Craffu yn golygu bod angen dangos adroddiad, yna rhoddir digon o rybudd i'r Aelod neu'r Swyddog dan sylw i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno.

7.23.5 Os, oherwydd amgylchiadau eithriadol, nad yw'r Aelod neu'r Swyddog yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiad gofynnol, yna bydd y Pwyllgor Craffu], mewn ymgynghoriad â'r Aelod neu'r Swyddog, yn trefnu dyddiad arall iddo ef/iddi hi fod yn bresennol.

7.24 **<u>Presenoldeb gan Bobl Eraill</u>**

Caiff Pwyllgor Craffu wahodd pobl heblaw am y rhai hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.23 uchod i'w annerch, trafod materion sy'n achosi pryder yn lleol a/neu ateb cwestiynau. Mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd yn dymuno clywed gan breswylwyr, rhanddeiliaid ac Aelodau a Swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a bydd yn gwahodd pobl felly i fod yn bresennol.

7.25 **<u>Galw i Mewn</u>**

7.25.1 <u>Rheolau</u>

(a) Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet neu un o Bwyllgorau'r Cabinet neu o dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys trwy ddull electronig lle y bo'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn pum niwrnod gwaith clir o'i wneud. Bydd cofnodion yr holl benderfyniadau o'r fath yn cael eu hanfon at bob Aelod o'r

Pwyllgor Craffu o fewn yr un raddfa amser, gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad.

(b) Bydd yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys y dyddiad y'i cyhoeddir arno ac yn nodi y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y ceir ei weithredu ar ddiwedd pum niwrnod gwaith clir ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi, oni bai bod Pwyllgor Craffu yn ei wrthwynebu a'i alw i mewn i'w adolygu.

(c) Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Swyddog Monitro yn galw i mewn penderfyniad i graffu arno gan Bwyllgor Craffu os gofynnir am hynny yn y fformat a nodir gan Gadeirydd (neu yn ei (h)absenoldeb Is-gadeirydd) ac unrhyw ddau aelod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw (o ddau grwp gwahanol), a bydd yn hysbysu'r penderfynwr bod y penderfyniad am gael ei alw i mewn. Bydd ef/hi yn galw cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw ar y cyfryw ddyddiad ag y bydd ef/hi yn penderfynu, a hynny lle y bo'n bosibl ar ôl ymgynghori â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwnnw, a ph'un bynnag o fewn 15 diwrnod gwaith clir o'r penderfyniad i alw i mewn (dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried ymestyn y terfyn amser hwn).

(ch) Os yw'r Pwyllgor Craffu yn dal i bryderu am y penderfyniad ar ôl ei ystyried, yna caiff ei gyfeirio'n ôl at y corff a wnaeth y penderfyniad i'w ailystyried, gan amlinellu'n ysgrifenedig natur ei bryderon neu gyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn. Os caiff ei gyfeirio at y penderfynwr, bydd ef/hi yn ei ailystyried o fewn 15 diwrnod gwaith clir arall, gan wneud gwelliannau iddo ai peidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.

(d) Os, ar ôl gwrthwynebiad i'r penderfyniad, nad yw Pwyllgor Craffu yn cyfarfod o fewn y cyfnod a nodir uchod, neu os yw'n cyfarfod ond nid yw'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Chraffu, neu ddiwedd y cyfnod o 5 diwrnod gwaith arall, pa un bynnag sydd gynharaf.

(dd) Os cyfeiriwyd y mater at y Cyngor Llawn ac nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad a wnaed, yna ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach a bydd y penderfyniad yn dod i rym yn unol â'r ddarpariaeth isod. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn gwrthwynebu, bydd y Cyngor yn cyfeirio unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwrthwynebu yn ôl at yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ynghyd â safbwyntiau'r Cyngor ar y penderfyniad. Bydd y corff neu'r unigolyn hwnnw a wnaeth y penderfyniad yn dewis pa un ai diwygio'r penderfyniad ai peidio cyn gwneud penderfyniad terfynol a'i roi ar waith. Os gwnaed y penderfyniad gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd, neu un o'i Bwyllgorau, ailystyrir y penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Cabinet neu bwyllgor. Os gwnaed y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn

yn ei ailystyried o fewn deng niwrnod gwaith o gais y Cyngor.

(e) Os nad yw'r Cyngor yn cyfarfod, neu os yw'n cyfarfod ond yn dewis peidio â chyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r corff neu'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad, daw'r penderfyniad i rym ar ddyddiad cyfarfod y Cyngor neu ddiwedd y cyfnod pryd y dylid bod wedi cynnal cyfarfod y Cyngor, pa un bynnag sydd gynharaf.

(f) Er mwyn sicrhau nad yw'r broses galw i mewn yn cael ei chamddefnyddio, nac yn achosi oedi afresymol, gosodir rhai cyfyngiadau ar ei defnydd, sef:

(i) caiff Pwyllgor Craffu alw i mewn cyfanswm o dri penderfyniad fesul cyfnod o dri mis;

(ii) mae angen tri Aelod o Bwyllgor Craffu (o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf), gan gynnwys y Cadeirydd (neu yn ei (h)absenoldeb yr Is-gadeirydd) er mwyn i benderfyniad gael ei alw i mewn;

(iii) pan fydd Aelod wedi llofnodi cais am alw i mewn o dan y paragraff hwn, ni chaiff ef/hi wneud hynny eto nes bod y cyfnod o dri mis wedi dod i ben.

(iv) Ni chaiff unrhyw Aelodau Cyfetholedig adrodd penderfyniad i'w alw i mewn.

(ff) Caiff y Swyddog Monitro roi feto ar unrhyw gais am alw i mewn os yw y tu allan i gylch gorchwyl y cynllun hwn.

(g) Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i bob Aelod sy'n gofyn am alw mater i mewn fynychu'r cyfarfod pryd yr ystyrir y mater.

7.25.2 <u>Galw i Mewn a Brys</u>

(a) Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a amlinellir uchod yn berthnasol pan fo'r penderfyniad a wneir gan y Cabinet yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys pe byddai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn, er enghraifft, yn niweidiol iawn i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau cyhoeddus eraill. Bydd y cofnod o'r penderfyniad, a'r hysbysiad a roddir ohono i'r cyhoedd, yn datgan pa un a yw'r penderfyniad yn un brys, ym marn yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ac felly ni cheir ei alw i mewn. Mae'n rhaid i Cadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigiwyd yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau ac y dylid ei drin fel mater brys. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd angen caniatâd yr Is-Gadeirydd. Yn absenoldeb y ddau, bydd angen caniatâd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig neu ei (h)enwebai ef/hi. Mae'n rhaid adrodd ar benderfyniadau a wnaed fel mater

brys yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, ynghyd â’r rhesymau dros y brys.

(b) Bydd gweithrediad y darpariaethau sy’n ymwneud â galw i mewn a brys yn cael ei fonitro’n flynyddol a chyflwynir adroddiad i’r Cyngor gyda chynigion ar gyfer adolygu os bydd angen.

7.26 **Chwip Plaid**

7.26.1 Ni chaniateir i aelod o bwyllgor craffu bleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod o'r pwyllgor os rhoddwyd cyfarwyddyd chwip plaid i'r aelod cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r cwestiwn ("Cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid").

7.26.2 Rhaid diystyru pleidlais a roddir yn groes i 7.26.1.

7.26.3 Rhaid i aelod o'r pwyllgor ddatgan mewn cyfarfod unrhyw gyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid sydd wedi ei roi iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfarfod.

7.26.4 Rhaid cofnodi pob datganiad a wneir o dan 7.26.3 yng nghofnodion y cyfarfod.

7.26.5 Y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu sydd i benderfynu a yw aelod wedi cael cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid mewn perthynas â'r cyfarfod.

.

7.27 **Y Weithdrefn mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu**

7.27.1 Bydd Pwyllgor Craffu yn ystyried y busnes canlynol:

(a) cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(b) datganiadau o fuddiannau;

(c) ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu hwnnw ar gyfer penderfyniad o ran galw penderfyniad i mewn;

(ch) ymatebion y Cabinet i adroddiadau’r Pwyllgor Craffu hwnnw;

(d) y busnes a amlinellwyd fel arall yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

Bydd y Rheolau Gweithdrefnol ar gyfer Pwyllgor Craffu yr un fath â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor ac eithrio y caiff Cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i’r rheolau trafod gael eu llacio er mwyn i’r rhai hynny sy’n bresennol yn y cyfarfod allu cyfrannu’n llawn, boed hynny fel Aelodau o Bwyllgor Craffu neu mewn unrhyw rinwedd arall sy’n caniatáu iddynt gyfrannu at werth y cyfarfod.

7.27.2 Caiff Pwyllgor Craffu ofyn i bobl eraill fynychu i roi tystiolaeth neu ateb cwestiynau ynglŷn ag unrhyw eitemau sydd ar ei agenda. Dylid cynnal cyfarfodydd yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(a) bod y busnes yn cael ei gynnal yn deg a bod pob Aelod o'r Pwyllgor Craffu yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n bresennol, ac i gyfrannu a siarad;

(b) bod y rhai hynny sy'n cynorthwyo trwy roi tystiolaeth yn cael eu trin â pharch a chwrteisi;

(c) bod y busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon â phosibl.

7.27.3 Yn dilyn ymchwiliad neu adolygiad, bydd Pwyllgor Craffu yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet a/neu'r Cyngor fel y bo'n briodol a bydd yn sicrhau bod ei adroddiad a'i ganfyddiadau ar gael i'r cyhoedd.

7.28 **<u>Materion sydd o fewn Cylch Gorchwyl mwy nag un Pwyllgor Craffu</u>**

Pan fydd mater sydd i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yn dod o fewn cylch gorchwyl un neu fwy o Bwyllgorau eraill, y Cadeiryddion priodol fydd yn penderfynu pa Bwyllgor fydd yn ei ystyried neu, os na allant gytuno, bydd Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu.

7.29 **<u>Galwad gan Gynghorydd i Weithredu</u>**

7.29.1 Mae'r Alwad gan Gynghorydd i Weithredu yn ddull o alluogi Aelodau etholedig i ddwyn materion sy'n achosi pryder yn lleol i sylw'r Cyngor trwy'r broses Graffu. Dylai hyn fod yn "ddewis olaf".

7.29.2 Caiff unrhyw Aelod ofyn am gael gosod eitem ar agenda Pwyllgor Craffu i'w hystyried.

7.29.3 Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â Galwad i Weithredu wedi'i hamlinellu yn y ddogfen Galwad gan Gynghorydd i Weithredu – Canllawiau i Gynghorwyr, sydd wedi'i hatodi i'r Rheolau hyn yn Atodiad 1.

**ATODIAD 1 I ADRAN 7**

**Galwad gan Gynghorydd i Weithredu – Canllawiau i Gynghorwyr**

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol 2011 nifer o ddarpariaethau newydd gyda'r nod o gryfhau democratiaeth leol. Cyflwynodd adran 63 y Mesur ddarpariaeth ar gyfer "Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu" sy'n galluogi Cynghorwyr i atgyfeirio materion sy'n bwysig yn lleol i Bwyllgorau Craffu.

1.2 Diben Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu yw galluogi Cynghorwyr lleol a'u hetholwyr i gael ymateb gan Arweinyddiaeth eu Cyngor ar faterion sy'n bwysig yn lleol. Dylid ystyried Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu yn un o gyfres o ddulliau y gall Aelodau eu defnyddio i ddatrys materion lleol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymuned. Yn flaenorol yng Nghymru, dim ond materion Trosedd ac Anhrefn lleol y gallai'r Aelod (l)leol eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig ar gyfer gweithredu, a dylid nodi y bydd yr atgyfeiriadau trosedd ac anhrefn lleol hyn yn parhau o dan ddeddfwriaeth ar wahân.

1.3 Fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth gymunedol, mae cynghorwyr bob amser wedi ceisio datrys materion ar ran eu preswylwyr lleol ac mae Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu yn cynnig llwybr ychwanegol i gynghorwyr ei ddilyn os nad yw'r ffyrdd arferol o ddatrys mater wedi bod yn llwyddiannus a bod y mater yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio. Sylwer y dylid ystyried atgyfeiriad o dan y broses hon yn ddewis olaf ar ôl dihysbyddu pob llwybr arall.

1.4 Cyflwynwyd Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu ochr yn ochr â phwerau eraill ar gyfer craffu, gan gynnwys pwerau i graffu ar ystod eang o gyrff nad oeddent yn destun craffu gan awdurdodau lleol yn flaenorol. Bwriedir i Alwadau gan Gynghorwyr i Weithredu alluogi unrhyw Aelod o'r Cyngor i atgyfeirio i Bwyllgor Craffu, "fater llywodraeth leol" sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

2. **SUT Y DYLWN I GEISIO DATRYS MATER LLEOL YN FY ARDAL FEL ARFER?**

2.1 Gall cynghorwyr ddatrys materion lleol ar ran eu preswylwyr mewn nifer o ffyrdd fel y'u rhestrir yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Fesur Llywodraeth Leol 2011:

2.1.1 trafodaethau anffurfiol gyda Swyddogion neu gynghorwyr eraill;

2.1.2 trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr partner;

2.1.3 atgyfeirio i gyrff "craffu" eraill fel Cynghorau Iechyd Cymuned neu bwyllgor archwilio mewnol;

2.1.4 trafodaethau ffurfiol gyda Swyddogion a chynghorwyr;

2.1.5 llythyrau ffurfiol at Aelodau'r Cabinet;

2.1.6 gofyn cwestiynau yn y Cyngor Llawn;

2.1.7 cyflwyno cynnig i'r Cyngor Llawn;

2.1.8 trefnu cyfarfodydd cyhoeddus;

2.1.9 defnyddio deisebau;

2.1.10 gwneud cwyn;

2.1.11 ceisiadau am wybodaeth;

2.1.12 cyfathrebu ag Aelodau Cynulliad neu Aelodau Seneddol lleol;

2.1.13 ymgyrchu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon e-bost.

2.2 Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth a gallai cynghorwyr ddewis llwybrau gwahanol ar gyfer materion penodol. Os nad yw mater wedi'i ddatrys ar ôl dihysbyddu pob llwybr arall posibl, yna gall cynghorydd lleol ei atgyfeirio i'r Pwyllgor Craffu priodol.

3. **<u>BETH YW GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU?</u>**

3.1 Er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn Galwad gan Gynghorydd i Weithredu fel eitem agenda i'w thrafod yn un o'i gyfarfodydd, mae'n rhaid i'r mater effeithio ar ardal etholiadol gyfan cynghorydd, neu ran ohoni, neu mae'n rhaid iddo effeithio ar rywun sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno.

3.2 Fodd bynnag, nid oes angen i Gynghorydd gael atgyfeiriad gan etholwr i gychwyn y broses. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw Galwad gan Gynghorydd i Weithredu yn ffordd sicr o ddatrys problem benodol. Yn hytrach, fe all gynnig dull o drafod problemau o'r fath a, thrwy drafod, ceisio eu goresgyn.

4. **<u>SUT A PHRYD Y DYLWN I WNEUD GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU?</u>**

4.1 Darperir siart llif sy'n dangos y broses yn Atodiad A. Caiff cynghorydd gychwyn y broses trwy lenwi'r ffurflen yn Atodiad B. Mae mwy o gopïau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'n bwysig bod y cynghorydd lleol yn nodi pa ganlyniad a ddisgwylir gan yr atgyfeiriad. Ar ôl llenwi'r ffurflen, dylid ei dychwelyd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn cofnodi a chydnabod yr atgyfeiriad o fewn pum niwrnod gwaith.

4.2 Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cadarnhau pa un a yw'r atgyfeiriad yn bodloni'r gofynion a amlinellir ym mharagraff 3.1 uchod ai peidio i'w alluogi i gael ei roi ar yr agenda i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cadw'r hawl i eithrio o'r agenda unrhyw fater sy'n flinderus, yn wahaniaethol neu'n anghyfreithlon o bosibl fel arall; a bydd y Cynghorydd yn cael gwybod am y canlyniad hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

5. **MEINI PRAWF I'W DILYN GAN BWYLLGOR CRAFFU**

5.1 Aelodau Pwyllgor Craffu sydd i benderfynu pa un a ddylid ystyried y mater ymhellach, ac ar ba ffurf. Bydd y Pwyllgor Craffu yn defnyddio'r meini prawf canlynol i benderfynu pa un a yw'r atgyfeiriad yn briodol i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu hwnnw:

5.1.1 A yw'r Pwyllgor Craffu hwnnw yn fodlon bod y cynghorydd lleol wedi gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys y mater? A yw'r ymatebion a dderbyniwyd gan y cynghorydd sy'n atgyfeirio yn dangos nad yw'r mater yn cael ei symud ymlaen?

5.1.2 A yw'r Pwyllgor Craffu wedi ystyried mater tebyg yn ddiweddar? Os felly, a yw'r amgylchiadau neu'r dystiolaeth wedi newid?

5.1.3 A oes mater tebyg neu gysylltiedig sy'n destun adolygiad yn y rhaglen waith gyfredol? Fe allai fod yn fwy priodol cysylltu'r mater newydd ag adolygiad presennol, yn hytrach na chynnal gwrandawiad ar wahân o dan y trefniadau Galwad gan Gynghorydd i Weithredu. Dylid ystyried y pwysau amser perthnasol o ran datrys Galwad gan Gynghorydd i Weithredu.

5.1.4 A yw'r holl feysydd gwasanaeth neu sefydliadau partner perthnasol wedi cael gwybod ac wedi cael digon o amser i ddatrys y mater? Pa ymateb a dderbyniwyd gan y cynghorydd?

5.1.5 A yw'r achos hwn yn un sy'n cael ei ddilyn neu y dylid ei ddilyn trwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor?

5.1.6 A yw'n ymwneud â mater neu benderfyniad "lled-farnwrol" fel cynllunio neu drwyddedu?

5.1.7 A yw'r mater yn achos pryder go iawn sy'n effeithio ar y gymuned leol yn hytrach na'n fater personol?

5.1.8 A yw'r mater hwn yn derbyn sylw ar hyn o bryd gan fath arall o graffu lleol?

5.1.9 Ac, fel ym mhob achos craffu, a oes posibilrwydd y gallai craffu ar y mater arwain at lunio argymhellion y gellid eu rhoi ar waith yn realistig ac a allai gyflawni gwelliannau i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn adran etholiadol yr Aelod?

DS: Dylai atgyfeiriadau Trosedd ac Anhrefn gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig.

5.2 Os bydd Pwyllgor Craffu yn penderfynu peidio â derbyn yr Alwad gan Gynghorydd i Weithredu, mae'n rhaid iddo hysbysu'r cynghorydd am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

5.3 Os bydd Pwyllgor Craffu yn penderfynu derbyn yr Alwad gan Gynghorydd i Weithredu, hysbysir y Cynghorydd a rhoddir gwybod iddo/iddi am y Protocol cytunedig, e.e. rhoddir rhybudd digonol (o leiaf 10 diwrnod clir) i'r Cynghorydd o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Craffu. Gofynnir i'r Cynghorydd ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu ac fe'i hysbysir y bydd

ganddo/ganddi ddeng munud i annerch y Pwyllgor Craffu. Yna mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Craffu yn dymuno holi'r Cynghorydd ymhellach cyn penderfynu sut y mae'n bwriadu symud y mater yn ei flaen. Gallai hyn gynnwys:

5.3.1 gofyn i'r awdurdodau cyfrifol perthnasol ymateb i'r Alwad gan Gynghorydd i Weithredu;

5.3.2 sefydlu grŵp ymchwil neu grŵp gorchwyl a gorffen i gynnal adolygiad manylach;

5.3.3 gofyn am fwy o dystiolaeth a/neu dystion ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. Mae gan y Pwyllgor Craffu y pŵer i ofyn bod "unigolion dynodedig" fel cynrychiolwyr asiantaethau/cyrff cyhoeddus eraill yn mynychu, lle y bo'n berthnasol, ac i ofyn am wybodaeth. (Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o "unigolion dynodedig" hyd yma".)

## 6. <u>CANLYNIADAU POSIBL GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU</u>

6.1 Gallai Pwyllgor Craffu:

6.1.1 benderfynu ei fod yn fater cymhleth y mae angen ymchwilio iddo ymhellach a chomisiynu adolygiad craffu o'r mater;

6.1.2 ysgrifennu ymateb a gwneud argymhellion ar yr Alwad gan Gynghorydd i Weithredu i awdurdod cyfrifol perthnasol;

6.1.3 penderfynu nad yw camau pellach yn briodol gan roi ei resymau.

6.2 Pan fydd Pwyllgor Craffu wedi cwblhau ei waith, bydd y Cynghorydd a wnaeth yr atgyfeiriad yn derbyn copi o unrhyw ymateb neu argymhellion a wnaed.

## 7. <u>GRADDFEYDD AMSER AR GYFER YMDRIN Â GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU</u>

7.1 Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fo cyfyngiadau amser na ellir eu hosgoi, ceir cynnull cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor.

7.2 Pe byddai Galwad gan Gynghorydd i Weithredu yn arwain at argymhellion i'r Cabinet ac awdurdodau cyfrifol, gofynnir iddynt ymateb i'r argymhellion o fewn 28 diwrnod a dau fis, yn ôl eu trefn.


7.3 Bydd Pwyllgor Craffu yn monitro gweithrediad unrhyw argymhellion fel rhan o'i Flaenraglen Waith.

## 8. <u>ADOLYGU'R CANLLAWIAU HYN</u>

Mae'r canllawiau hyn wedi'u seilio ar fodel a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr y Cynghorau (ACSeS) ym mis Hydref 2009. Bydd ACSeS yn adolygu eu canllawiau model yng ngoleuni profiad awdurdodau lleol yng Nghymru o ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn, ac felly mae'n bosibl y caiff y canllawiau hyn eu haddasu yn unol â hynny.

## ATODIAD 2 I ADRAN 7

## Siart Llif ar gyfer Galwad gan Gynghorydd i Weithredu



**ATODIAD 3 I ADRAN 7**

**Ffurflen Atgyfeirio ar gyfer Galwad gan Gynghorydd i Weithredu**

| | |
|---|---|
| **At sylw**<br>**(enw a theitl y Swyddog Priodol)** | |
| **Oddi wrth** | Cynghorydd |
| **Rhanbarth Etholiadol** | |
| **Manylion cyswllt** | |
| **Rhif ffôn** | |
| **E-bost** | |
| | |
| **PWNC** | |
| **Manylion**<br>Esboniwch y mater yn gryno a sut mae'n effeithio ar eich adran etholiadol. | |
| **Camau a gymerwyd hyd yma**<br>Esboniwch pa gamau a gymerwyd, gyda phwy, i geisio datrys y mater (ticiwch wrth ymyl y camau a gymerwyd gennych hyd yma) neu ychwanegwch rai eraill. | • Trafodaethau anffurfiol gyda Swyddogion neu gynghorwyr eraill<br>• Trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr partner<br>• Atgyfeirio i gyrff "craffu" eraill fel Cynghorau Iechyd Cymuned neu bwyllgor archwilio mewnol<br>• Trafodaethau ffurfiol gyda Swyddogion a chynghorwyr<br>• Llythyrau ffurfiol at Aelodau'r Cabinet<br>• Gofyn cwestiynau yn y Cyngor Llawn<br>• Cyflwyno cynnig i'r Cyngor Llawn<br>• Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus<br>• Defnyddio deisebau<br>• Gwneud cwyn<br>• Ceisiadau am Gwybodaeth<br>• Cyfathrebu ag Aelodau Cynulliad neu Aelodau Seneddol lleol<br>• Ymgyrchu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon e-bost |
| **Canlyniad Disgwyliedig**<br>Disgrifiwch y canlyniad yr ydych yn gobeithio amdano trwy'r atgyfeiriad hwn. | |

| **Papurau ynghlwm**<br><br>Rhestrwch ddogfennau sydd ynghlwm a ddylai ddangos tystiolaeth o effaith y mater, y camau a gymerwyd ac unrhyw ymatebion a dderbyniwyd. | |
|---|---|

1. Ystyrir y meini prawf canlynol pan fydd Pwyllgor Craffu yn penderfynu pa un ai a ddylid symud ymlaen â'ch Galwad gan Gynghorydd i Weithredu ai peidio:

    1.1 A wnaed pob ymdrech resymol i ddatrys y mater? A yw'r ymatebion a dderbyniwyd gennych yn dangos nad yw'r mater yn cael ei symud ymlaen?

    1.2 A yw'r pwyllgor wedi ystyried mater tebyg yn ddiweddar – os ydy, a yw'r amgylchiadau neu'r dystiolaeth wedi newid?

    1.3 A oes mater tebyg neu gysylltiedig sy'n destun adolygiad yn y rhaglen waith gyfredol? Fe allai fod yn fwy priodol cysylltu'r mater newydd ag adolygiad presennol, yn hytrach na chynnal gwrandawiad ar wahân o dan y trefniadau Atgyfeiriad Trosedd ac Anhrefn Lleol. Dylid ystyried y pwysau amser perthnasol o ran datrys Atgyfeiriad Trosedd ac Anhrefn Lleol

    1.4 A yw'r holl feysydd gwasanaeth neu sefydliadau partner perthnasol wedi cael gwybod ac wedi cael digon o amser i ddatrys y mater? Pa ymateb a dderbyniwyd gennych?

    1.5 A yw'r achos hwn yn un sy'n cael ei ddilyn neu y dylid ei ddilyn trwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor?

    1.6 A yw'n ymwneud â mater neu benderfyniad "lled-farnwrol" fel cynllunio neu drwyddedu?

    1.7 A yw'r mater yn achos pryder go iawn sy'n effeithio ar y gymuned leol yn hytrach na'n fater personol?

    1.8 A yw'r mater hwn yn derbyn sylw ar hyn o bryd gan fath arall o graffu lleol?

    1.9 Ac, fel ym mhob achos craffu, a oes posibilrwydd y gallai craffu ar y mater arwain at lunio argymhellion y gellid eu rhoi ar waith yn realistig ac a allai gyflawni gwelliannau i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn eich adran etholiadol?

2. Dylech ystyried pa un a allai'r Pwyllgor Craffu farnu bod eich atgyfeiriad yn cael ei wneud cyn pryd. Ystyriwch pa un a ddihysbyddwyd datrysiadau posibl eraill cyn gwneud atgyfeiriad. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol, os gwneir atgyfeiriad cyn pryd, bod y Pwyllgor yn debygol o wrthod ymdrin â'r mater, yn seiliedig ar y meini prawf a amlinellir uchod. Os yw'r Swyddog Priodol o'r farn bod yr atgyfeiriad wedi'i wneud cyn pryd, bydd yn eich cynghori yn unol â hynny.

**ADRAN 15**

# 15. RHEOLAU GWEITHDREFN Y GYLLIDEB A'R FFRAMWAITH POLISI

## 15.1 Y Fframwaith ar gyfer Penderfyniadau Gweithredol

Y Cyngor fydd yn gyfrifol am fabwysiadu ei Gyllideb a'i Fframwaith Polisi fel yr amlinellir yn Adran **Error! Reference source not found.**. Pan fydd Cyllideb neu Fframwaith Polisi wedi'i sefydlu, y Cabinet fydd yn gyfrifol am ei roi ar waith.

## 15.2 Y Broses ar gyfer Datblygu'r Fframwaith Polisi

15.2.1 Bydd y Cabinet, yn dilyn adroddiadau manwl gan Brif Swyddogion priodol, (yn dilyn ymgynghori priodol â rhanddeiliaid) yn cyflwyno i'r Cyngor gynlluniau a pholisïau arfaethedig a'r cyllidebau blynyddol cysylltiedig. Gwneir hyn gan ganiatáu digon o amser i'r Cyngor ymdrin â'r mater ac, os oes angen, ei atgyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach.

15.2.2 Bydd y Cyngor yn ystyried cynigion y Cabinet a chaiff eu mabwysiadu, eu gwella, eu hatgyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach, neu eu disodli â'i gynigion ei hun. Wrth ystyried y mater, bydd gan y Cyngor gynigion y Cabinet o'i flaen ac unrhyw adroddiad cysylltiedig gan Bwyllgor Craffu.

15.2.3 Ni chaiff y Cyngor ystyried unrhyw welliant i gynigion y Cabinet sydd i'w cynnig gan Aelodau yng nghyfarfod y Cyngor, oni bai y rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig am y diwygiad arfaethedig i'r Swyddog Priodol, a lofnodwyd gan y cynigiwr a'r eiliwr, heb fod yn hwyrach na 5 o'r gloch y prynhawn o leiaf un diwrnod clir cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor.

15.2.4 Bydd penderfyniad y Cyngor yn cael ei gyhoeddi a rhoddir copi ohono i'r Arweinydd. Nodir dyddiad ar yr hysbysiad o'r penderfyniad a bydd yn datgan naill ai bod y penderfyniad yn dod i rym ar unwaith (os yw'r Cyngor yn derbyn cynigion y Cabinet heb unrhyw ddiwygiad) neu (os na dderbynnir cynigion y Cabinet heb unrhyw ddiwygiad), y bydd penderfyniad y Cyngor yn dod i rym ar ddiwedd pum diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o'r penderfyniad, oni bai bod yr Arweinydd yn ei wrthwynebu yn ystod y cyfnod hwnnw.

15.2.5 Os bydd yr Arweinydd yn gwrthwynebu penderfyniad y Cyngor, bydd ef/hi yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr i'r perwyl hwnnw, cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym. Mae'n rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig ddatgan y rhesymau dros y gwrthwynebiad. Pan dderbynnir hysbysiad o'r fath, bydd y Prif Weithredwr yn cynnull cyfarfod arall o'r Cyngor i ailystyried ei benderfyniad ac ni fydd y penderfyniad yn dod i rym hyd nes y cynhelir y cyfarfod hwnnw.

15.2.6 Mae'n rhaid i'r cyfarfod o'r Cyngor gael ei gynnal o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn gwrthwynebiad ysgrifenedig yr Arweinydd. Yn y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor, bydd penderfyniad

y Cyngor yn cael ei ailystyried yng ngoleuni'r gwrthwynebiad, a fydd ar gael yn ysgrifenedig i'r Cyngor.

15.2.7 Yn y cyfarfod hwnnw, bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniad terfynol ar y mater ar sail mwyafrif syml. Cyhoeddir y penderfyniad yn unol ag Adran 14 a chaiff ei weithredu ar unwaith.

15.3 **<u>Y Broses ar gyfer Datblygu'r Gyllideb</u>**

15.3.1 Bydd y Cabinet yn dilyn y broses a amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefnol Ariannol yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad. Yn ogystal, bydd y broses ganlynol yn berthnasol i ddatblygu'r Gyllideb:

(a) Bydd y Cabinet yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cyflwyno cynigion i'r Cyngor ynghylch mabwysiadu'r Gyllideb, a'i drefniadau ar gyfer ymgynghori ar ôl cyhoeddi'r cynigion cychwynnol. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod hefyd.

(b) Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd y Cabinet yn llunio cynigion cadarn gan roi ystyriaeth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Os bydd y Pwyllgor Archwilio yn dymuno ymateb i'r Cabinet yn rhan o'r broses ymgynghori honno, caiff wneud hynny. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn adrodd i'r Cabinet ar ganlyniad ei ystyriaethau.

15.3.2 Bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw ymateb gan y Pwyllgor Archwilio wrth lunio cynigion cadarn i'w cyflwyno i'r Cyngor, a bydd ei adroddiad i'r Cyngor yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan ymgyngoreion ac ymateb y Cabinet.

15.3.3 Pan fydd y Cabinet wedi cymeradwyo'r cynigion cadarn, bydd yn eu hatgyfeirio i'r Cyngor ar y cyfle cynharaf.

15.4 **<u>Penderfyniadau y Tu Allan i'r Gyllideb neu'r Fframwaith Polisi</u>**

15.4.1 Yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 15.6 (Trosglwyddo Arian), caiff y Cabinet, pwyllgorau'r Cabinet, Aelodau unigol o'r Cabinet neu unrhyw Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol wneud penderfyniadau sydd yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn unig. Os bydd unrhyw un o'r cyrff neu'r unigolion hyn yn dymuno gwneud penderfyniad sy'n groes i'r Fframwaith Polisi, neu sy'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r Gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn, yna'r Cyngor gaiff wneud y penderfyniad hwnnw yn unig, yn amodol ar baragraff 15.5 isod.

15.4.2 Os bydd y Cabinet, pwyllgorau'r weithrediaeth, Aelodau unigol o'r Cabinet neu unrhyw Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol yn dymuno gwneud penderfyniad o'r fath, rhaid iddynt dderbyn cyngor gan y

Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid ynghylch pa un a fyddai'r penderfyniad y dymunant ei wneud yn groes i'r Fframwaith Polisi, neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb.

15.4.3 Os bydd y naill neu'r llall o'r Swyddogion hynny'n cynghori na fyddai'r penderfyniad yn unol â'r Gyllideb a/neu'r Fframwaith Polisi presennol, yna mae'n rhaid i'r corff neu'r unigolyn hwnnw atgyfeirio'r penderfyniad i'r Cyngor i wneud penderfyniad, oni bai bod y penderfyniad yn fater brys. Yn yr achos hwnnw, bydd y darpariaethau ym mharagraff 15.5 (penderfyniadau brys y tu allan i'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi) yn berthnasol.

15.5 **<u>Penderfyniadau Brys y Tu Allan i'r Gyllideb neu'r Fframwaith Polisi</u>**

15.5.1 Caiff y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelod unigol o'r Cabinet neu Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol, wneud penderfyniad sy'n groes i Fframwaith Polisi'r Cyngor neu sy'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn os yw'r penderfyniad yn fater brys. Fodd bynnag, ceir gwneud y penderfyniad dim ond:

(a) os nad yw'n ymarferol cynnull cyfarfod â chworwm o'r Cyngor Llawn; ac

(b) os yw Cadeirydd y Cyngor yn cytuno bod y penderfyniad yn fater brys.

15.5.2 Mae'n rhaid i'r rhesymau pam nad yw'n ymarferol cynnull cyfarfod â chworwm o'r Cyngor Llawn gael eu nodi ar y cofnod o'r penderfyniad, ynghyd â chaniatâd Cadeirydd y Cyngor ar gyfer gwneud y penderfyniad fel mater brys. Yn absenoldeb Cadeirydd y Cyngor, bydd caniatâd yr Is-gadeirydd ac, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, Pennaeth y Gwasaneth Cyflogedig yn ddigonol.

15.5.3 Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, bydd y penderfynwr yn rhoi adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn esbonio'r penderfyniad, y rhesymau drosto a pham yr ymdriniwyd â'r penderfyniad fel mater brys.

15.6 **<u>Trosglwyddo Arian</u>**

Ni fydd y camau a gymerir gan y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelodau unigol o'r Cabinet neu Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol i weithredu polisi'r Cyngor, yn mynd heibio i'r cyllidebau hynny a neilltuwyd i bob pennawd cyllideb. Pe byddai'n angenrheidiol neu'n ddymunol trosglwyddo arian ar draws cyllidebau neu benaethiaid cyllideb, bydd hynny'n cael ei wneud yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Ariannol yn Adran **Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn.

15.7 **<u>Newidiadau i'r Fframwaith Polisi yn Ystod y Flwyddyn</u>**

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gytuno ar y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, ac mae'n rhaid i benderfyniadau gan y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelod unigol o'r Cabinet neu Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol, fod yn unol â hwy. Ni chaiff y cyrff na'r unigolion hynny wneud unrhyw newidiadau i unrhyw bolisi neu strategaeth sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi, ac eithrio'r newidiadau hynny:

15.7.1 a fydd yn arwain at gau neu derfynu gwasanaeth neu ran o wasanaeth i fodloni cyfyngiad cyllidebol;

15.7.2 sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith, cyfarwyddyd gweinidogol neu ganllawiau gan y llywodraeth;

15.7.3 sy'n ymwneud â pholisi y byddai'r Cyngor yn cytuno arno'n flynyddol fel arfer yn dilyn ymgynghoriad, ond lle nad yw'r ddogfen bolisi bresennol yn cyfeirio at y mater sy'n cael ei ystyried;

15.7.4 sy'n ymwneud â'r polisi ar ysgolion, lle y mae'r rhan fwyaf o'r cyrff llywodraethu ysgolion yn cytuno ar y newid arfaethedig; neu

15.7.5 y darperir ar eu cyfer yn y gyllideb neu'r polisi perthnasol.

15.8 **<u>Galw i Mewn Penderfyniadau y Tu Allan i'r Gyllideb neu'r Fframwaith Polisi</u>**

15.8.1 Pan fo'r Pwyllgor Craffu perthnasol o'r farn bod Penderfyniad Gweithredol yn groes i'r Fframwaith Polisi, neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â Chyllideb y Cyngor, neu y byddai'n groes iddynt pe byddai'n cael ei weithredu, yna bydd yn ceisio cyngor gan y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid.

15.8.2 O ran swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb y Cabinet, bydd adroddiad y Swyddog Monitro a/neu adroddiad y Prif Swyddog Cyllid yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a bydd copi ohono'n cael ei roi i bob Aelod o'r Cyngor. Waeth pa un a yw'r penderfyniad wedi'i ddirprwyo ai peidio, mae'n rhaid i'r Cabinet gyfarfod i benderfynu pa gamau i'w cymryd o ran adroddiad y Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid a pharatoi adroddiad i'r Cyngor pe byddai'r Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid yn dod i'r casgliad bod penderfyniad yn wyriad, ac i'r Pwyllgor Craffu perthnasol pe byddai'r Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid yn dod i'r casgliad nad oedd y penderfyniad yn wyriad.

15.8.3 Os nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud eto, neu os yw wedi'i wneud ond heb gael ei weithredu eto, a bod y cyngor gan y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid yn datgan bod neu y byddai'r penderfyniad yn groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r Gyllideb, caiff y Pwyllgor Craffu perthnasol atgyfeirio'r mater i'r Cyngor. Mewn achosion o'r fath, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd o ran y penderfyniad ac ni fydd yn cael ei weithredu hyd nes y bydd y Cyngor wedi cyfarfod ac ystyried y mater. Bydd y Cyngor yn

cyfarfod o fewn 15 diwrnod gwaith o'r cais gan y Pwyllgor Craffu. Yn y cyfarfod, bydd yn derbyn adroddiad ar y penderfyniad neu'r cynigion a chyngor y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid. Caiff y Cyngor naill ai:

(a) gadarnhau bod y penderfyniad neu'r cynnig gan y sawl a wnaeth y Penderfyniad Gweithredol o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi presennol. Yn yr achos hwn, ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach, ar wahân i gofnodi penderfyniad y Cyngor a'i ddosbarthu i bob cynghorydd yn y ffordd arferol; neu

(b) ddiwygio Rheolau Gweithdrefnol Ariannol y Cyngor neu'r polisi dan sylw i gynnwys y penderfyniad neu'r cynnig gan y corff neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y Swyddogaeth Weithredol honno a chytuno â'r penderfyniad ar unwaith. Yn yr achos hwn, ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach, ar wahân i gofnodi penderfyniad y Cyngor a'i ddosbarthu i bob cynghorydd yn y ffordd arferol; neu

(c) os yw'r Cyngor yn derbyn bod y penderfyniad neu'r cynnig yn groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r Gyllideb, ac nid yw'n diwygio'r fframwaith presennol i'w gynnwys, fynnu bod y Cabinet yn ailystyried y mater yn unol â chyngor y Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid.

**ADRAN 19**

## 19. **PROTOCOL AR GYFER CYNGHORWYR**.

Ceisia'r protocol a ganlyn egluro rôl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ("y penderfynydd"), Aelodau Lleol a'r Cynghorwyr yn gyffredinol.

### 19.1. **CYFLWYNIAD.**

19.1.1 Mae gan y Cyngor un Pwyllgor Cynllunio sydd â phymtheg o aelodau sy'n gwneud penderfyniadau ar y Ceisiadau Cynllunio hynny sy'n cael eu cyfeirio ar gyfer eu hystyried yn unol â Chynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd.

19.1.2 Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, mi fydd Cais Cynllunio, yn unol â Chynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd, yn cael ei benderfynu gan Bennaeth yr Adran Rheoleiddio yn hytrach na'r Pwyllgor Cynllunio. Mewn sefyllfa fel hyn ni fydd gan yr aelodau hynny sy'n eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio rôl i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniad.

19.1.3 O ran Cais Cynllunio sydd o fewn adran etholiadol yr aelod, neu sy'n effeithio ar yr adran etholiadol, mae modd i'r Cynghorydd ddefnyddio'r hawl i alw'r cais i mewn (er mwyn i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn hytrach na gan y Pennaeth Rheoleiddio).

19.1.4 Yn ogystal, gall Cynghorydd, yng nghyswllt Cais Cynllunio yn ei adran etholiadol, neu sydd yn effeithio ar ei adran etholiadol, fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio pan fo'r cais hwnnw yn cael ei drafod er mwyn cyflwyno barn yr etholwyr y mae yn eu cynrychioli.

19.1.5 Mae'n bosibl y gall rôl a phŵer y Cynghorwyr gael eu cyfyngu pan fod gwrthdaro rhwng eu dyletswydd hwy fel cynghorwyr a'u diddordebau personol neu allanol.

19.1.6 Diffinnir y rolau a'r pwerau hyn isod, mewn mwy o fanylder.

### 19.2. **RÔL Y PENDERFYNYDD**.

19.2.1. Pan fo Cynghorydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac yn cymryd rhan (neu'n bwriadu cymryd rhan) mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio wrth drafod cais cynllunio penodol, yng nghyswllt y protocol hwn, mae o'n "Benderfynydd".

19.2.2. Bydd Cynghorydd sy'n Benderfynydd yn cydymffurfio â darpariaethau Côd Ymddygiad Aelodau.

### 19.3 **RÔL YR "AELOD LLEOL"**

19.3.1. Pan fo cais cynllunio sydd yn adran etholiadol Cynghorydd gerbron Pwyllgor Cynllunio, gall cynghorydd fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio hwnnw ar ran ei etholwyr, ac yng nghyswllt y cais cynllunio hwnnw, ef yw'r "Aelod Lleol".

19.3.2. Pan fo Cynghorydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ni all fod yn Benderfynydd ar gyfer cais cynllunio sydd yn ei adran etholiadol. Mewn perthynas ag unrhyw gais yn ei adran etholiadol bydd pob Cynghorydd yn Aelod Lleol yng nghyd-destun y protocol yma.

19.3.3. Pan fo Cynghorydd am ba bynnag reswm yn methu bod yn bresennol mewn Pwyllgor Cynllunio pan fo cais gerbron sydd yn ei adran etholiadol, caiff drefnu i Gynghorydd arall fynychu'r Pwyllgor er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio ar ran ei etholwyr. Mewn sefyllfa fel hyn, bydd y Cynghorydd hwn yng nghyd-destun y Protocol yma yn "Aelod Lleol" ar gyfer y cais cynllunio hwnnw.

19.3.4. Bydd Cynghorydd sy'n Aelod Lleol yn cydymffurfio â Darpariaethau Siarad Cyhoeddus a Chôd Ymddygiad Aelodau. Ceir Darpariaethau pellach yn ymwneud a rôl yr Aelod Lleol yn rhan nesaf y Protocol.

19.3.5 Pan fydd gan Aelod Lleol fuddiant personol sydd yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, ni fydd ganddo hawl i annerch y Pwyllgor. Mewn sefyllfa fel hyn gall drefnu i gynghorydd arall fynychu'r Pwyllgor er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio ar ran ei etholwyr.

## 19.4 <u>RÔL CYNGHORYDD NAD YW'N AELOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>

19.4.1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Côd Ymddygiad Aelodau, bydd Cynghorydd nad yw'n Aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Sir (pa un ai yw'n bwriadu bod yn "Aelod Lleol" ai peidio) yn rhydd i :-

- drafod unrhyw gais cynllunio gyda'r ymgeisydd/asiant gwrthwynebydd/grŵp lobio ac ati;
- fynychu unrhyw gyfarfod sy'n cael ei drefnu'n lleol yn ymwneud a'r cais;
- fynychu unrhyw gyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned ynghylch y cais a siarad am y cais (gan gynnwys mynegi barn un ai o blaid neu yn erbyn y cais) a (pe byddai'n aelod o'r Cyngor Tref neu Gymuned) pleidleisio ar y cais;
- gyfnewid gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais gyda'r swyddog cynllunio;
- geisio gwybodaeth/eglurder ynghylch y cais gan swyddog cynllunio;
- dylai gydymffurfio a rheolau lobïo Adran 16 y Protocol hwn.

## 19.5 <u>"GALW I MEWN".</u>

19.5.1. Caiff Cynghorydd (pa un ai yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio) yng nghyswllt Cais Cynllunio yn ei adran etholiadol neu sy'n effeithio ar ei adran etholiadol, neu unrhyw ddau Gynghorydd arall (pa un ai ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio), gyflwyno cais ysgrifenedig i Reolwr Cynllunio Gwynedd o fewn yr amserlen benodol er mwyn i'r cais cynllunio gael ei gyfeirio ar gyfer ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Fe ddylid cyflwyno rhesymau cynllunio eglur yn y cais ysgrifenedig ar gyfer cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio.

19.5.2. Pan fo Cynghorydd yn gweithredu ar ei hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1. uchod, yr amserlen benodol ar gyfer rhoi rhybudd yw 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr o hysbysiad.

19.5.3. Pan fo dau Gynghorydd (nad ydynt yn Aelodau Lleol) yn defnyddio'u hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1. uchod, dylid anfon llythyr yn rhoi gwybod i'r Aelod Lleol.

19.5.4. Pan fo dau Gynghorydd (nad ydynt yn Aelodau Lleol) yn defnyddio'u hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1., caiff un ohonynt fynegi ei farn ynghylch y cais penodol hwnnw. Bydd y Cynghorydd yn cydymffurfio a Darpariaethau Siarad Cyhoeddus a Chôd Ymddygiad Aelodau.

19.5.5. Er mwyn osgoi amheuaeth pan fo Cynghorydd yn defnyddio'i hawl i siarad yn unol â 5.1. uchod mae hyn yn ogystal â hawl Aelod Lleol yn unol â 4.1. uchod.

## 19.6 PENDERFYNU YMLAEN LLAW.

19.6.1 Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd yr awdurdod, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch eitem ger bron Pwyllgor Cynllunio, rhaid i Benderfynydd wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i'r Penderfynydd weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol. Mewn penderfyniadau Pwyllgorau Cynllunio, rhaid bob amser gwneud penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd ger bron, a ni ellir penderfynu ymlaen llaw i'r graddau fod Penderfynydd yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a roddir.

19.6.2 Rhagderfyniad yw bod â meddwl hollol gaeedig. Mae gan unrhyw Benderfynydd hawl i arddel safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod ei fod yn cadw meddwl agored a'u bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn g wneud penderfyniad.

19.6.3 Mae rhagderfyniad ar y llaw arall yn golygu pan mae'n amlwg ei fod wedi penderfynu ar weithredoedd cyn cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod. Gallai rhagderfyniad wneud y penderfyniad yn annilys, ond gallai hefyd olygu torri'r Cod.

19.6.4 Felly, dylai Penderfynydd ystyried yr uchod yn ofalus cyn cymryd rhan yn y Pwyllgor fel Penderfynydd.. Dylid gofyn am farn y Swyddog Monitro o flaen llaw ac os ystyrir fod y Penderfynydd wedi rhagderfynu mewn perthynas ag eitem benodol dylid gwneud datganiad agored cyn i'r eitem gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio, peidio siarad na phleidleisio a gadael y siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno.

## 19.7. CYSYLLTIAD UNIONGYRCHOL CYNGHORWYR GYDAG YMGEISWYR AC ERAILL.

19.7.1. Os yw Cynghorydd yn rhoi cyngor i ymgeiswyr, asiantau, gwrthwynebwyr neu unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch pa mor debygol yw hi y caiff bwriad cynllunio ei ganiatáu, ni chaiff y Cynghorydd fod yn "Benderfynydd" pan drafodir y ceisiadau cynllunio hynny sy'n berthnasol i'r bwriad a bydd angen ystyried a yw'n disgyn o fewn categori o fod yn Aelod a Diddordeb sy'n Rhagfarnu.

19.7.2 Dylai aelod sy'n dymuno sicrhau ei fod yn aros yn gymwys i fod yn "Benderfynydd" gynghori'r ymgeiswyr arfaethedig i gysylltu â Swyddog Cynllunio am gyngor ar rinweddau y cais a threfniadau.

## 19.8 DYLAI AELODAU DDERBYN CYNGOR.

19.8.1 Pe byddai Cynghorydd yn amau lle mae'n sefyll o dan y Protocol hwn neu Gôd Ymddygiad Aelodau, dylai ofyn am gyngor y Swyddog Monitro pob tro.

## 19.9. DYLETSWYDDAU'R "PENDERFYNYDD".

19.9.1. Ar gyfer unrhyw gais cynllunio sy'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio:

- **ni ddylai'r** Penderfynydd lobïo na dylanwadu na cheisio lobïo na dylanwadu unrhyw Benderfynydd arall neu Bennaeth Rheoleiddio ynghylch cais cynllunio o'r fath nac ychwaith unrhyw benderfyniad a wneid cyn y Pwyllgor Cynllunio sy'n ystyried a phenderfynu ar y cais hwnnw.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd dderbyn unrhyw anrhegion na lletygarwch gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â chais cynllunio o'r fath a dylai weithredu'n syth i gofrestru unrhyw gynigion, anrhegion neu letygarwch a wrthodwyd yn y Gofrestr a gedwir yn bwrpasol ar gyfer hynny gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd dderbyn na dangos y byddai'n fodlon derbyn unrhyw lythyr, pamffled neu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig arall (gan gynnwys e-bost neu ffacs) sy'n ymwneud a chais cynllunio cyn iddo gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Pan fo Penderfynydd yn derbyn deunydd o'r fath am ddim fe ddylai ei anfon ymlaen at y Pennaeth Rheoleiddio yn ddi-oed (a bydd yn rhoi gwybod i'r sawl y'i anfonodd yn y lle cyntaf, os yn hysbys, fod y deunydd wedi cael ei anfon ymlaen iddo ef ac y bydd yn cael ei gyfeirio ato, os yn briodol, yn Adroddiad Pwyllgor y Swyddog)
- **ni ddylai'r** Penderfynydd fynychu unrhyw gyfarfod, cyfarfod Briffio a Thrafodaeth sy'n ymwneud â chais cynllunio o'r fath sydd ddim yn cael ei drefnu gan na'i fynychu gan y Pennaeth Rheoleiddio neu fel arall wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro a dylai barchu'r darpariaethau sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yn adran 10 isod.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd ddangos na mynegi'n gyhoeddus neu'n breifat y penderfyniad tebygol neu rinweddau/gwrthwynebiadau i gais cynllunio o'r fath cyn i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried a gwneud penderfyniad at y cais cynllunio hwnnw. **Pan fo Penderfynydd yn gwneud hyn, fe ddylai dderbyn cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch a ddylai barhau i fod yn Benderfynydd ai peidio.**
- **ni ddylai** ymrwymo naill ffordd na'r llall o ran y cais cynllunio cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. **Mae'n hanfodol bwysig fod Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd gan gadw meddwl agored a'u bod yn medru dangos hynny.**

- **ni ddylai** ddod a chyflwyniadau manwl gydag ef i'w darllen i'r cyfarfod. Gallai hyn awgrymu fod y Cynghorydd wedi gwneud penderfyniad un ai o blaid neu yn erbyn cais cyn mynychu'r cyfarfod. (Argymhellir y dylai Cynghorwyr wneud nodiadau o bwyntiau sy'n codi yn y cyfarfod ar gyfer eu defnyddio mewn cyflwyniadau).
- **ni ddylai** bleidleisio na chymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio os nad yw wedi bod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys cyflwyniad y swyddog i'r cais.
- **ni ddylai** ddychwelyd i'w sedd yn ystafell y Pwyllgor Cynllunio (ar ôl gadael yr ystafell neu'r siambr cyn i'r drafodaeth ar y cais ddechrau neu yn ystod y drafodaeth) nes bod y drafodaeth ar y cais penodol hwnnw wedi dod i ben.
- **ni ddylai** gynnig, eilio na chefnogi penderfyniad sy'n groes i'r Cynllun Datblygu neu argymhellion y Pennaeth Rheoleiddio heb adnabod ac ynganu'n glir y rhesymau sy'n cefnogi'r penderfyniad sy'n cael ei gynnig. Dylid cyflwyno'r rhesymau hynny cyn y bleidlais a dylid eu cynnwys yn y Cofnodion.
- **ni ddylai** gynnig gohirio'r cais cynllunio heb adnabod ac ynganu'n glir y rhesymau i gyfiawnhau gohiriad o'r fath. Dylid cynnwys y rhesymau hynny yn y Cofnodion os yw'r cais cynllunio yn cael ei ohirio.
- **ni ddylai** bleidleisio ar y cais mewn cyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned cynharach. Pe byddai Penderfynydd yn gwneud hyn, fe ddylai geisio cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch parhau i fod yn Benderfynydd ai peidio**.**

19.9.2 Bydd Cynghorydd sy'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac yn dymuno ymgymryd â rôl "Aelod Lleol" ar gyfer Cais Cynllunio sydd i'w drafod gan y Pwyllgor Cynllunio yn cydymffurfio â darpariaethau'r Protocol hwn sy'n berthnasol i "Aelod Lleol" yn enwedig y rhai yn adrannau 4 a 13.

19.9.3 Bydd Cynghorydd sy'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio yn cydymffurfio â **Chôd Ymddygiad Aelodau** ac yn cael ei atgoffa'n benodol os oes ganddo un o'r hyn a ganlyn mewn perthynas â chais cynllunio sydd i gael ei drafod gan Bwyllgor cynllunio :-

i) Diddordeb Personol - y gofynion o ran datgan;
ii) Diddordeb sy'n Rhagfarnu - yr angen i gael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau - neu fel arall peidio ag ymgymryd â rôl y Penderfynydd.

## 19.10. PAN FO PENDERFYNYDD YN DEFNYDDIO'I HAWL I ALW CAIS I MEWN

19.10.1. Pe byddai cais cynllunio penodol yn cael ei alw i mewn i gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio o ganlyniad i gais gan Aelod o'r Pwyllgor, yna mae angen i'r Aelod hwnnw ystyried yn ofalus pa rôl y dylai chwarae pan fo'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried a phenderfynu ar y cais dan sylw. Yn arbennig felly pan fo Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sydd wedi gwneud cais i alw i mewn :-

- Wedi geirio'r cais i Alw i Mewn, mewn iaith fyddai'n awgrymu ei fod wedi llunio barn glir yn barod o ran canlyniad priodol y cais; neu

- Wedi gwneud y cais Galw i Mewn ar ôl trafod gyda'r ymgeisydd/asiant/ gwrthwynebwr ac/neu unrhyw drydydd parti (gan gynnwys Cynghorydd arall pe bai'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio) dylai'r Aelod geisio cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch parhau i fod yn Benderfynydd.

**19.11. <u>DYLETSWYDDAU'R "AELOD LLEOL".</u>**

19.11.1. Pan fo Cynghorydd yn gweithredu fel Aelod Lleol (pa un ai yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio):

- **ni ddylai** eistedd gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, wrth fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n trafod y cais cynllunio dan sylw, a dylai aros hyd nes y gelwir arno i siarad yn rhan y cyhoedd o'r ystafell;
- **ni ddylai** siarad gydag unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio am y cais cynllunio dan sylw, un ai yn ystod y cyfarfod Pwyllgor neu fel arall;
- yng nghyswllt y cais dan sylw a chyda caniatâd y Cadeirydd, caiff ymateb i gwestiynau Aelodau o'r Pwyllgor, yr ymgeisydd neu ei asiant ac unrhyw barti arall sy'n cael caniatâd i siarad yn ystod y cyfarfod;
- **ni ddylai** dderbyn unrhyw anrheg na lletygarwch gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r cais cynllunio dan sylw a dylai weithredu heb oediad i gofrestru unrhyw gynigion o anrhegion neu letygarwch a wrthodwyd gan y Gofrestr a gedwir yn bwrpasol ar gyfer hynny gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol.

19.11.2 Disgwylir i Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio dderbyn hyfforddiant a ddarperir gan y Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl fel Cynrychiolydd Lleol yn gywir.

19.11.3 Dylai Cynghorydd sydd yn gweithredu fel Aelod Lleol ac sydd angen gwybodaeth bellach am y cais cynllunio gysylltu gyda'r swyddogion cynllunio perthnasol ac nid Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

**19.12. <u>HAWLIAU "AELOD LLEOL".</u>**

19.12.1 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth caiff hawliau Aelod Lleol eu cynnwys yn Adran 4.1. y Protocol hwn dan y pennawd "Rôl Cynghorydd nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.".

**19.13. <u>LOBÏO.</u>**

19.13.1 Mae'n bwysig sylweddoli fod lobïo yn rhan arferol a phriodol iawn o'r broses wleidyddol. Bydd y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad cynllunio yn aml yn ceisio cael dylanwad arno wrth fynd at aelod ward etholedig neu at aelod o'r Pwyllgor cynllunio. Dywed Trydydd Adroddiad Pwyllgor Nolan "*It is essential for the proper operation of the Planning system that local concerns are adequately ventilated. The most effective and suitable way this can be done is via the local elected representatives, the Councillors themselves."*

19.13.1.2 Fodd bynnag, heb ofal a synnwyr cyffredin gan bawb sydd â diddordeb, fe all lobïo o'r fath arwain at gwestiynau amhleidioldeb a gonestrwydd Cynghorydd.

19.13.1.3 Wrth gael ei lobïo dylai'r Penderfynydd ofalu wrth fynegi barn all gael ei ddehongli fel pe bai wedi gwneud ei feddwl i fyny yn barod cyn iddynt weld y dystiolaeth i gyd. Fe ddylent sicrhau mai dim ond cyngor trefniadol sy'n cael ei roi.

19.13.1.4 Argymhellir na ddylai Cynghorwyr lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ynghylch eu pryderon neu eu barn nac ychwaith geisio eu perswadio i benderfynu pa ffordd i bleidleisio cyn y cyfarfod ble y bwriedir gwneud penderfyniad cynllunio.

19.13.1.5 Ni ddylai Cynghorwyr benderfynu na thrafod sut i bleidleisio ar unrhyw gais mewn unrhyw fath o gyfarfod grwpiau gwleidyddol, na lobïo unrhyw aelod i wneud hynny. Ni ddylai Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol byth reoli sut y dylai Aelodau bleidleisio ar fater cynllunio. Ni ddylid cynnal Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol cyn pwyllgorau cynllunio.

## 19.14. <u>HYFFORDDI AELODAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO.</u>

19.14.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau fod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno yn foddhaol cyn dechrau gwasanaethau ar y Pwyllgor Cynllunio ac o dro i dro eu bod yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol / gloywi yn unol â rhaglen hyfforddiant sydd wedi'i gytuno gan y Cyngor.

19.14.2 Bydd cofnodion presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant yn cael eu monitro. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Prif Bwyllgor Craffu pob chwe mis ynghylch presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddiant. Ni fydd aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n peidio â mynychu'r sesiynau hyfforddi yn cael eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio nes bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau. Bydd Aelod newydd o'r Cyngor yn ymgymryd â sesiwn hyfforddiant cyn iddo gael caniatâd i fod yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio.

## 19.15. <u>HYFFORDDI AELODAU ERAILL.</u>

19.15.1 Bydd hyfforddiant priodol ar gyfer Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio yn cael ei drefnu er mwyn eu galluogi i gyflawni rôl yr Aelod Lleol yn briodol.

## 19.16. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO GAN AELODAU.</u>

19.16.1. Pan fo Aelod yn gwneud cais cynllunio, fe ddylai'r aelod hwnnw gydymffurfio'n gyffredinol a Chôd Ymddygiad Aelodau. Fodd bynnag, bydd gan yr Aelod hawl i gyfarch y Pwyllgor yn rhinwedd yr Ymgeisydd yn unol â'r Rheolau Siarad Cyhoeddus. Yn union ar ôl cyfarch y Pwyllgor, fe ddylai'r aelod adael y Siambr pan fo'r cais yn cael ei drafod yn unol â Chôd Ymddygiad Aelodau.

**ADRAN 21**

## 21. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU / SWYDDOGION

### 21.1 Cyflwyniad

Diben y Protocol hwn yw rhoi arweiniad i Aelodau a Chyflogeion y Cyngor o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

21.2 Mae parch rhwng Aelodau a Chyflogeion yn hanfodol i lywodraeth leol dda. Fodd bynnag, gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion unigol niweidio'r berthynas hon ac achosi embaras i Aelodau a Chyflogeion eraill.

21.3 Mae'n rhaid i'r berthynas weithredu heb beryglu cyfrifoldebau pennaf Cyflogeion i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a chan roi ystyriaeth briodol i'r cyfryw gyngor technegol, ariannol, proffesiynol a chyfreithiol y gall Cyflogeion ei roi'n gyfreithlon i Aelodau. Mae'r Protocol yn ceisio gosod fframwaith sy'n hwyluso'r cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion.

21.4 Mae Aelodau a Chyflogeion yn ddarostyngedig i'w Codau Ymddygiad eu hunain sydd ar gael yn y Cyfansoddiad hwn. Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad ar gysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae'n hanfodol bod y ddau yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau manwl yn eu Codau Ymddygiad unigol, a fydd yn drech os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Codau a'r Protocol hwn.

### 21.5 Rolau Aelodau

Mae Aelodau'n ymgymryd â llawer o wahanol rolau. Yn gyffredinol:

21.5.1 Mae Aelodau'n mynegi gwerthoedd gwleidyddol ac yn cefnogi polisïau'r grŵp neu'r blaid y maent yn perthyn iddo/iddi (os o gwbl).

21.5.2 Mae Aelodau'n cynrychioli eu hadran etholiadol ac yn eiriolwyr ar ran y dinasyddion sy'n byw yn yr ardal.

21.5.3 Mae Aelodau'n ymwneud â phartneriaethau gweithredol gyda sefydliadau eraill fel arweinwyr cymunedol.

21.5.4 Mae Aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor Llawn ac yn ei gyrff amrywiol y maent yn gwasanaethu arnynt, yn ogystal â chydbwyllgorau, cyrff allanol a sefydliadau partneriaeth.

21.5.5 Mae Aelodau'n helpu i ddatblygu ac adolygu polisi a strategaeth.

21.5.6 Mae Aelodau'n monitro ac adolygu gweithrediad polisïau ac ansawdd gwasanaethau.

21.5.7 Mae Aelodau'n ymwneud â gwaith lled-farnwrol trwy eu Haelodaeth o bwyllgorau rheoleiddio.

21.6 Mae ymddygiad Aelodau'n cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Aelodau sy'n datgan:

"Rhaid i chi

*(a)* *gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;*

*(b)* *ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;*

*(c)* *beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a*

*(ch)* *beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, diduedddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran."*

21.7 **Rolau Cyflogeion**

Yn fyr, mae prif rolau Cyflogeion fel a ganlyn:

21.7.1 Rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor wedi eu penodi'n gyfrifol amdanynt a bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

21.7.2 Cynghori'r Cyngor a'i gyrff amrywiol ac Aelodau unigol o ran y gwasanaethau a ddarperir.

21.7.3 Cychwyn cynigion polisi.

21.7.4 Gweithredu polisi cytunedig.

21.7.5 Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd cyfreithlon.

21.8 Mae ymddygiad Cyflogeion yn cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Gyflogeion sy'n datgan:

*"Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill.*

*4. Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.*

*5. Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd."*

21.9 **Parch a Chwrteisi**

21.9.1 Er mwyn i fusnes y Cyngor gael ei gynnal yn effeithiol, mae'n rhaid cael parch, ymddiriedaeth a chwrteisi yn yr holl gyfarfodydd a chysylltiadau, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o enw da'r Cyngor a chanfyddiad y cyhoedd ohono.

Mae'n bwysig iawn bod Aelodau a Chyflogeion yn cofio eu rhwymedigaethau unigol i wella enw da'r Cyngor a'u bod yn gwneud ymdrech i osgoi beirniadu Aelodau eraill, neu Gyflogeion eraill, mewn mannau cyhoeddus.

21.9.2 Pwysau Gormodol

Wrth ymwneud â'i gilydd, mae'n bwysig nad yw Aelodau a Chyflogeion yn ceisio manteisio'n annheg ar eu safleoedd.

Wrth ymwneud â Chyflogeion (yn enwedig Cyflogeion iau), mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ei bod yn rhwydd iddynt deimlo parchedig ofn ac fel petaent dan anfantais. Gall teimladau o'r fath fod yn ddwysach pan fydd Aelodau'n dal swydd swyddogol a/neu wleidyddol uwch.

Ni ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.

Ni ddylai Aelod roi pwysau gormodol ar Gyflogai i wneud unrhyw beth nad oes ganddo ef/ganddi hi y pŵer i'w wneud nac i ymgymryd â gwaith y tu allan i'w (d)yletswyddau arferol neu ei (h)oriau arferol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus o ran defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gyflogai beidio â cheisio dylanwadu'n ormodol ar Aelod unigol i wneud penderfyniad o'i blaid/phlaid, na chodi materion personol yn ymwneud â'i swydd, na gwneud honiadau yn erbyn Cyflogeion eraill. *(Mae gan y Cyngor weithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cwyno a disgyblu, ac mae gan Gyflogeion yr hawl i adrodd am gamweddau posibl o dan God Adrodd Cyfrinachol y Cyngor sef Polisi Canu'r Gloch.)*

21.9.3 Bwlio neu harasio

Nid yw'n dderbyniol i aelod fwlio neu harasio swyddog. Ystyrir unrhyw weithred yn erbyn swyddog yn fwlio neu harasio os mai'r bwriad oedd dylanwadu'n amhriodol neu'n annheg ar ei farn neu ei weithgaredd. Nid oes lle i sylwadau dilornus personol mewn trafodaeth rhwng aelod a swyddog ac ni ystyrir ei bod yn briodol i'r naill leisio cwyn am y llall yn gyhoeddus mewn pwyllgor neu yn y wasg, heb yn gyntaf ddefnyddio trefniadau mewnol y Cyngor i geisio datrys y gwyn honno.

21.9.4 Cyfeillgarwch

Gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion niweidio'r egwyddor o barch tuag at ei gilydd. Fe allai hefyd, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, arwain at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth nad yw'n briodol ei throsglwyddo rhyngddynt, fel manylion personol.

Gallai cyfeillgarwch o'r fath hefyd achosi embaras i Aelodau eraill a/neu Gyflogeion eraill a hyd yn oed arwain at amheuon ynglŷn â ffafriaeth.

Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid osgoi cyfeillgarwch personol agos.

21.10 **Rhoi Cyngor a Gwybodaeth i Aelodau**

21.10.1 Caiff Cyflogeion eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth priodol, ac nid i Aelodau unigol o'r Cyngor waeth beth fo'u swydd.

21.10.2 Mae Aelodau'n rhydd i gysylltu â Chyflogeion y Cyngor er mwyn cael y cyfryw wybodaeth a chyngor ag y gallai fod ei (h)angen arnynt yn rhesymol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelod o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â rhyw agwedd ar weithgareddau'r Cyngor i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr.

21.10.3 Dylai Cyflogeion bob amser geisio ymateb i geisiadau am wybodaeth yn brydlon a, sut bynnag, dylent hysbysu'r Aelod os oes oedi sylweddol yn debygol wrth ymdrin ag ymholiad. Dylid ymdrechu o leiaf i ddilyn yr amserlen ar gyfer ymateb i ohebiaeth h.y. naill ai ymateb llawn neu, os nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth sy'n esbonio'n llawn beth sy'n digwydd o fewn [pum] diwrnod gwaith o dderbyn yr ymholiad.

21.10.4 Ymdrinnir â hawliau cyfreithiol Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor yn rhannol gan statud ac yn rhannol gan gyfraith gwlad.

21.10.5 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn yn esbonio'r sefyllfa o ran mynediad at bapurau sy'n ymwneud â chyrff y Cyngor.

21.10.6 Mae arfer yr hawl cyfraith gwlad yn dibynnu ar allu Aelod i ddangos ei fod/bod "angen gwybod". I'r perwyl hwn, nid oes gan Aelod hawl i "gennad i grwydro" i archwilio unrhyw rai o ddogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol.

21.10.7 Dylai'r wybodaeth a geisir gan Aelod gael ei darparu gan y Gwasanaeth perthnasol dim ond cyn belled â bod hynny o fewn terfynau adnoddau'r Gwasanaeth. O'u rhan hwy, dylai Aelodau geisio gweithredu'n rhesymol o ran nifer a chynnwys y ceisiadau a wnânt.

21.10.8 Mae'n bwysig i Wasanaethau a'u staff roi gwybodaeth i Aelodau am y materion pwysig sy'n ymwneud â'r Cyngor ac, yn fwy penodol, am faterion a digwyddiadau sy'n effeithio ar yr ardaloedd y maent eu cynrychioli. Dylid rhoi gwybodaeth i Aelodau lleol am gynigion sy'n effeithio ar eu hadrannau etholiadol a dylid eu gwahodd hefyd i fynychu digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor yn eu hadrannau etholiadol. (Mae mwy o fanylion yn y Siarter Ymgynghori ag Aelodau Lleol, sydd wedi'i hatodi i'r Protocol hwn).

21.10.9 Pe byddai Aelod yn gofyn am wybodaeth benodol yn ymwneud â gwaith Gwasanaeth arbennig, a'i bod yn ymddangos yn bosibl neu'n debygol y gallai mater gael ei godi neu gwestiwn gael ei ofyn mewn cyfarfod dilynol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, yna dylid rhoi gwybod i'r Aelod priodol o'r Cabinet neu Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw am y wybodaeth a ddarparwyd.

21.10.10 O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion gynghori Aelodau nad oes modd dilyn ffordd benodol o weithredu. Weithiau, mae Aelodau'n tybio mai'r rheswm am hyn yw bod Swyddogion yn ceisio llesteirio dymuniadau gwleidyddion yn fwriadol. Mewn gwirionedd, yn anaml iawn y bydd hyn yn wir. Cyflogir Swyddogion i roi cyngor proffesiynol

diduedd, hyd yn oed os nad yw'r cyngor hwnnw'n plesio Aelodau. Maent yn gwneud hyn llawn cymaint er mwyn amddiffyn Aelodau ag am unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyngor negyddol, bydd Swyddog effeithiol hefyd yn rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai Aelodau gyflawni rhai o'u hamcanion neu eu holl amcanion mewn ffyrdd eraill. Mae Swyddogion o'r fath yn amhrisiadwy i unrhyw Gyngor.

21.10.11 Mae'n bosibl y bydd gan Aelodau hawl o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i dderbyn gwybodaeth sydd y tu allan i'w hawliau cyfraith gwlad ar sail "angen gwybod". Anogir Cyflogeion i roi dogfennau i Aelodau heb fod angen cyflwyno cais ffurfiol o dan y Ddeddf os yw'n amlwg o ymholiad yr Aelod y byddai gan unrhyw unigolyn yr hawl i dderbyn dogfennau o'r fath. Bydd [*rhowch deitl*] y Cyngor yn gallu rhoi cyngor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, os bydd angen, ynglŷn â pha un a fyddai unrhyw gais yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

21.10.12 Mae'n bwysig cael perthynas waith agos rhwng Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet a chyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch swyddogion unrhyw adran sy'n ymwneud a'r portfolio perthnasol. Serch hynny, ni ddylid byth ganiatau i'r perthynasau hyn ddatblygu i fod mor agos, neu ymddangos felly, fel bod hyn yn taflu amheuaeth ar allu'r swyddog i ddelio'n ddiduedd efo aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill.

21.10.13 Rhaid cofio bod swyddogion yn atebol i'w pennaeth gwasanaeth ac, er y dylai swyddogion bob amser geisio cynorthwyo cadeirydd, arweinydd portffolio (neu yn wir unrhyw aelod), rhaid iddynt beidio, wrth wneud hynny, fentro y tu hwnt i derfynau pa bynnag awdurdod sydd wedi ei roi iddynt gan eu prif swyddog.

21.11 **<u>Cyfrinachedd</u>**

21.11.1 Yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, mae'n rhaid i Aelod beidio â datgelu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/iddi hi yn gyfrinachol gan unrhyw un, na gwybodaeth a gafwyd y mae ef/hi yn credu ei bod o natur gyfrinachol, neu y mae'n rhesymol tybio y dylai ef/hi fod yn ymwybodol ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio:

(a) pan fydd ganddo ef/ganddi hi ganiatâd unigolyn sydd ag awdurdod i'w roi;

(b) ei bod yn ofynnol iddo ef/iddi hi wneud hynny gan y gyfraith;

(c) bod y datgeliad yn cael ei wneud i drydydd parti at ddiben cael cyngor proffesiynol, cyn belled â bod y trydydd parti'n cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw unigolyn arall; neu

(ch) fod y datgeliad:

(i) yn rhesymol ac er budd y cyhoedd; ac

(ii) yn cael ei wneud gyda phob ewyllys da ac yn unol â gofynion rhesymol yr awdurdod.

21.11.2 Dylid trin papurau Pwyllgor cyfrinachol (papurau eithriedig) fel gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y Pwyllgor perthnasol yn penderfynu

peidio ag eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Atgoffir Aelodau mai'r Swyddog Monitro sy'n gwneud y penderfyniad cychwynnol ynglŷn â pha un a ddylid trin y papurau'n gyfrinachol ai peidio. Y Pwyllgor sydd i benderfynu pa un a ddylent aros yn gyfrinachol. Gall gwybodaeth arall fod yn gyfrinachol oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i fudd i'r Cyngor neu'r cyhoedd. Gall gwybodaeth fod yn gyfrinachol hefyd oherwydd yr amgylchiadau y'i cafwyd ynddynt.

21.11.3 Bydd gwybodaeth a gohebiaeth am faterion preifat neu fusnes unigolyn yn gyfrinachol fel arfer.

21.11.4 Dylai Swyddogion egluro wrth Aelodau os ydynt yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol iddynt. Os yw Aelod yn ansicr pa un a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, dylai ef/hi ofyn i'r Swyddog perthnasol, ond trin y wybodaeth yn gyfrinachol yn y cyfamser.

21.11.5 Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth am y Cyngor a roddir i Aelod gael ei defnyddio gan yr Aelod hwnnw/honno dim ond mewn cysylltiad â chyflawni ei (d)dyletswyddau'n briodol fel Aelod o'r Cyngor.

21.11.6 Os yw Aelod yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol a'i fod/bod o'r farn y dylid ei datgelu i unigolyn arall oherwydd bod hynny'n rhesymol ac er budd y cyhoedd, yna mae'n rhaid iddo ef/iddi hi ymgynghori â'r Swyddog Monitro yn gyntaf ac ni chaiff ddatgelu'r wybodaeth heb ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan y Swyddog hwnnw/honno.

21.12 **<u>Darparu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau</u>**

21.12.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cymorth (e.e. deunydd ysgrifennu, prosesu geiriau, technoleg gwybodaeth, argraffu, llun-gopïo, cludiant, ac ati) i Aelodau yn gyfreithlon yw er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Felly, mae'n rhaid i wasanaethau cymorth o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer busnes y Cyngor yn unig. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyrchu neu wleidyddiaeth bleidiol nac at ddibenion personol.

21.12.2 <u>Gohebiaeth</u>

Fel arfer dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r Cyflogai priodol, yn hytrach nag yn enw Aelod. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n berffaith dderbyniol anfon llythyr yn enw Aelod, er enghraifft, sylwadau i Weinidog o'r LLywodraeth neu lythyr mewn ymateb i lythyr ymholiad neu gwyno a anfonwyd yn uniongyrchol at yr Aelod hwnnw/honno. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, byth gael eu hanfon yn enw Aelod.

21.12.3 Fel arfer, ni ddylai swyddog anfon copi o ohebiaeth rhwng aelod unigol a'r swyddog hwnnw/honno at unrhyw aelod arall. Pan fo achos neilltuol lle mae angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid egluro hyn yn glir wrth yr aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopiau distaw".

21.12.4 <u>Y Cyfryngau</u>

Gall cyfathrebu â'r cyfryngau fod yn rhan bwysig o lwyth gwaith Aelod. Yn gyffredinol, mae Aelodau'n rhoi sylwadau a safbwyntiau tra bod

Cyflogeion yn rhoi gwybodaeth ffeithiol. Os yw Aelod yn ansicr ynglŷn ag amgylchiadau mater penodol, dylai gysylltu â'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu ofyn i Swyddfa'r Wasg wneud hynny.

21.13 **<u>Rôl y Cyngor fel Cyflogwr</u>**

Wrth ymwneud â Swyddogion, dylai Aelodau gydnabod a rhoi ystyriaeth i rôl y Cyngor fel cyflogwr. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai Swyddogion ddibynnu ar ymddygiad amhriodol Aelod mewn achos cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

21.14 **<u>Gweithgarwch Gwleidyddol</u>**

21.14.1 Mae nifer o gyfyngiadau'n berthnasol i gyflogai sy'n dal swydd y dynodir ei bod "dan gyfyngiadau gwleidyddol" o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

21.14.2 I grynhoi, ni chaiff cyflogeion o'r fath:

(a) fod yn Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop neu Aelod o awdurdod lleol;

(b) gweithredu fel asiant neu is-asiant etholiad ar gyfer unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol yn Aelod o unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn (a);

(c) bod yn Swyddog plaid wleidyddol neu unrhyw gangen plaid wleidyddol neu'n Aelod o unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau plaid neu gangen o'r fath, pe byddai ei (d)dyletswyddau'n debygol o fynnu ei fod/bod yn:

(i) cymryd rhan mewn rheolaeth gyffredinol y blaid neu'r gangen; neu

(ii) weithredu ar ran y blaid neu'r gangen wrth ymdrin ag unigolion heblaw am Aelodau o'r blaid;

(ch) canfasio ar ran plaid wleidyddol neu unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol i unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn **Error! Reference source not found.**;

(d) siarad â'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o ennyn cefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol; a

(dd) chyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig y mae ef/hi wedi'i awduro (neu'n un o'i awduron) neu weithredu fel golygydd mewn perthynas â gwaith o'r fath, neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw unigolyn arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath – os yw'n ymddangos bod y gwaith wedi'i fwriadu i ennyn cefnogaeth i blaid wleidyddol.

21.14.3 Bydd swyddogion yn darparu cyngor i bwyllgorau, fforymau aelodau ayb yn hytrach nag i grwpiau gwleidyddol. O bryd i'w gilydd fodd bynnag, gall fod yn anorfod cynghori grwp gwleidyddol. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n briodol i grwpiau pleidiol alw ar Gyflogeion i gynorthwyo a chyfrannu at eu hystyriaethau cyn belled â'u bod yn cynnal safbwynt

sy'n wleidyddol ddiduedd. Gall cymorth gynnwys ystod o weithgareddau megis briffio Aelodau ynglŷn â'u rolau, e.e. cadeirydd neu lefarydd. Dylai grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyflogeion roi gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â busnes y Cyngor yn unig, ac nid materion sydd o natur gwleidyddiaeth bleidiol. Dylai cyngor o'r fath fod ar gael i'r holl grwpiau pleidiol ac nid dim ond i'r grŵp mwyafrifol. Mae'n bwysig bod amhleidioldeb gwleidyddol Cyflogeion yn cael ei gynnal, a bod Cyflogeion yn cynnal cyfrinachedd y grŵp.

21.14.4 Fel arfer, yr unig Gyflogeion a fydd yn mynychu cyfarfodydd grŵp fydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Yn gyffredinol, byddant yn gadael y cyfarfod ar ôl rhoi eu cyflwyniad ac ateb cwestiynau. Dylid cofrestru gyda'r Swyddog Monitro pob achlysur pan yw swyddog (heblaw cymhorthydd gwleidyddol) yn mynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol.

## 21.15 **Torri'r Protocol**

Os yw Aelod o'r farn nad yw wedi cael ei drin/thrin â pharch neu gwrteisi priodol, caiff ef/hi godi'r mater gyda rheolwr llinell y Cyflogai. Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r rheolwr yn datrys y gŵyn, dylid ei hatgyfeirio i'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y cyflogai dan sylw. Gallai achos o Dorri'r Protocol arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Cyflogai os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.

Os yw cyflogai o'r farn bod Aelod wedi torri'r protocol, dylai ef/hi ymgynghori â'i l a fydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os bydd angen. Mewn rhai amgylchiadau, gallai achos o dorri'r Protocol hefyd fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Os yw'r achos yn ddigon difrifol, gallai fod cyfiawnhad dros ei atgyfeirio i'r Swyddog Monitro fel cwyn i'w hystyried dan y drefn ddatrys leol a all yn y pen draw arwan at wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd modd datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr yn cynorthwyo â'r broses hon os bydd angen.

## 21.16 **Casgliad**

Trwy ddilyn arfer da a sicrhau cysylltiadau gwaith synhwyrol ac ymarferol rhwng Aelodau a Chyflogeion, gobeithir y gellir sefydlu un o gonglfeini awdurdod lleol llwyddiannus ac felly darparu gwasanaethau o werth uchel i bobl yr ardal. Cyd-ddealltwriaeth, didwylledd a pharch yw'r elfennau pwysicaf sy'n diogelu uniondeb y Cyngor, ei Aelodau a'i Gyflogeion.